# Rhaglen Gyflawn

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

Cyfarfod

**CYD-BWYLLGOR GWE**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD MERCHER, 15FED CHWEFROR, 2023**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

Pwynt Cyswllt

**Rhodri Jones**

**01286 679256**

**Rhodrijones1@gwynedd.llyw.cymru**

# CYD-BWYLLGOR GWE

## Aelodau a phleidlais

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Councillor Ieuan Williams | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Councillor Gill German | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cynghorydd Julie Fallon | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cynghorydd Ian Roberts | Cyngor Sir y Fflint |
| Cynghorydd Phil Wynn | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cynghorydd Beca Brown | Cyngor Gwynedd |

## Aelodau cyfetholedig heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Dylan Davies | Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd |
| Delyth Roberts | Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd |
| Alison Fisher | Cynrychiolydd Llywodraethwr |
| Jennie Downes | Yr Eglwys yng Nghymru |

## Swyddogion Heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Dr Lowri Brown | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Claire Homard | Cyngor Sir y Fflint |
| Garem Jackson | Cyngor Gwynedd |
| Marc Berw Hughes | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Karen Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Geraint Davies | Cyngor Sir Ddinbych |

## Swyddogion yn bresennol

| | |
|---|---|
| Rhodri Jones | Awdurdod Lletyol |
| Dewi Morgan | Awdurdod Lletyol |
| Sion Huws | Awdurdod Lletyol |
| Arwyn Thomas | Rheolwr Gyfarwyddwr GwE |
| Alwyn Jones | Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE |
| Bethan Eleri Roberts | Rheolwr Rheoli Perfformiad GwE |
| Gareth Williams | Bwrdd Ymgynghorol GwE |
| Graham Boase | Cyngor Sir Ddinbych |

# R H A G L E N


**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau o absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym mard y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** 5 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd 2022 fel rhai cywir.

**5. CYLLIDEB 2022-2023: MONITRO CHWARTER 3** 9 - 13

Diweddaru aelodau'r Cyd-bwyllgor ar yr adolygiad ariannol diweddaraf o gyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2022/23.

**6. CYLLIDEB GWE 2023-2024 (CYLLIDEB SYLFAENOL)** 14 - 19

Cyflwyno i'r Cyd-bwyllgor:

- Cyllideb Sylfaenol GwE 2023/24 (Atodiad 1)
- Cyfraniadau Ariannol yr Awdurdodau (Atodiad 2)

**7. CYNLLUN BUSNES 2022-2023: MONITRO CHWARTER 3** 20 - 58

Cyflwyno Adroddiad monitro chwarter 3 – Cynllun Busnes Rhanbarthol 2022-2023 GwE i'r Cyd-Bwyllgor.

**8. DATGANIAD YSGRIFENEDIG: GWELLA YSGOLION A'R DIRWEDD O RAN GWYBODAETH - GWEINIDOG Y GYMRAEG AC ADDYSG** 59 - 60

Cyflwyno gwybodaeth i aelodau'r Cyd-bwyllgor ar gynnwys Datganiad Ysgrifenedig Y Gweinidog y Gymraeg ac Addysg.

**9. PROSIECT EIN LLAIS NI** 61 - 64

Rhannu Gwybodaeth gydag aelodau'r Cyd-bwyllgor am lwyddiant prosiect Ein Llais Ni a'r cynlluniau ar gyfer ehangu'r gwaith ymhellach.

**10. CALENDR CYFARFODYDD 2023-2024** 65 - 67

Gwneud cais i'r Cyd'bwyllgor gytuno ar galendr cyfarfodydd am y flwyddyn i ddod.

**CYD-BWYLLGOR GWE – 23/11/22**

**Yn bresennol:**

**Y Cynghorwyr:** Beca Brown (Cyngor Gwynedd), Julie Fallon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Gill German (Cyngor Sir Ddinbych), Ieuan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn), Phil Wynn (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam),

**Swyddogion Heb bleidlais:** Dylan Davies (Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd), Jennie Downes (Yr Eglwys Yng Nghymru), Claire Homard (Cyngor Sir y Fflint), Marc Berw Hughes (Cyngor Sir Ynys Môn), Garem Jackson (Cyngor Gwynedd)

**Swyddogion yn bresennol:**
**GwE –** Arwyn Thomas (Rheolwr Gyfarwyddwr), Alwyn Jones (Cyfarwyddwr Cynorthwyol), Bethan Roberts (Rheolwr Rheoli Perfformiad).
**Cyngor Gwynedd, yr Awdurdod Lletyol -** Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Siôn Huws (Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau), Gwion Jones (Uwch Gyfrifydd), Einir Rh Davies a Lowri H Evans (Swyddogion Gwasanaethau Democratiaeth).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 5 :** Yvonne Thomas – Archwilio Cymru

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Dr Lowri Brown (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Geraint Davies (Cyngor Sir Ddinbych), Karen Evans (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) ac Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint).

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

**4. COFNODION**

Cadarnhawyd fod y cofnod a gyflwynwyd o'r cyfarfod ar y 5ed o Hydref, 2022 yn gywir.

**5. CYMERADWYO ADRODDIAD YR ARCHWILIWR ANNIBYNNOL AR GYFRIFON GwE**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Cyllid a gadarnhaodd fod Aelodau y Cydbwyllgor eisoes wedi derbyn y wybodaeth (13 Gorffennaf) yn ei ffurf drafft, ond bod Swyddog o Archwilio Cymru wedi eu cymeradwyo erbyn hyn. Cyfeiriodd at dri chywiriad a wnaed i'r cyfrifon yn ystod yr archwiliad ac sydd wedi eu hamlygu yn Atodiad 3 fel a ganlyn :

Diweddaru nifer staff mewn rhai bandiau cyflog
**Symiau arian grantiau - ym mha linellau maent yn ymddangos o fewn y cyfrifon (gweler yr eglurhad)**
Cwpwl o wallau teipio, sydd wedi eu cywiro erbyn hyn.

Ehangodd Swyddog Archwilio Cymru ar yr uchod, gan gadarnhau bod yr adroddiad yn dangos darlun clir a theg, gan dynnu sylw at faterion :

Tudalen 4 – 441
Gweithio yn annibynnol
Llofnodion electroneg

Cadarnhaodd nad oeddynt yn faterion arwyddocaol, ac nad oes unrhyw gamddatganiadau.

Diolchwyd am yr adroddiadau manwl ac am y cydweithio.

**PENDERFYNWYD**

Derbyn a chymeradwyo yr adroddiad ar ran Archwiliwr Cyffredinol Cymru, cymeradwyo cyfrifon 2021/22, ac awdurdodi'r Cadeirydd i lofnodi'r llythyr cynrychiolaeth ar ran y Cyd-Bwyllgor.

## 6. CYLLIDEB GWE 2022-23 – ADOLYGIAD CHWARTER 2

Cyflwynwyd yr Adolygiad Chwarterol oedd yn rhagweld tanwariant erbyn diwedd 2022/23 fel a ganlyn :

Gweithwyr - Chwarter 2: tanwariant (£46,552) o ran costau staffio o'i gymharu â : thanwariant (£84,046) oedd yn cael ei ragweld ddiwedd Chwarter 1
Adeilad: Chwarter 2: gorwariant £25,367 o ran diffyg incwm, ond disgwylir i'r ffrwd incwm yma wella. Rhagwelwyd gorwariant o £25,367 ar ddiwedd Chwarter 1
Cludiant: Chwarter 2: tanwariant (£59,759), hyn o ganlyniad i lai o deithio a ffyrdd newydd o weithio. Diwedd Chwarter 1 rhagwelwyd tanwariant o (£46,771)

Nodwyd bod cronfa tanwariant o £91,900 net.

Adroddodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE bod Chwarter 2 wastad yn anodd ac mai yn Chwarter 3 (Medi i Ragfyr) oedd y prif weithgareddau ac y byddai yn disgwyl gweld newid.

Cwestiynwyd, gan nad yw reserfau yn cael eu caniatáu, tybed a oes isafswm trothwy reserfau? Cadarnhawyd nad oes cyfyngiad ar sut i ddefnyddio y gronfa tanwariant, megis ar gyfer pontio neu brynu amser. Nodwyd er nad oes ffigwr penodol, ond tybir o leiaf £100,000.

Atgoffodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE, cyn y cyfnod clo, fod y gyllideb wrthgefn wedi bod yn llai na £200,000. Nodwyd y bydd yn rhaid disgwyl am Setliad Rhagfyr a gweld y goblygiadau wrth fynd ymlaen.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at faterion swyddi gwag a recriwtio gan holi a oes sialensiau o ran y sefyllfa secondiadau, a chadarnhawyd ei bod wedi bod yn sialens yn yr uwchradd ers rhai blynyddoedd ond ei bod yn bryder yn y cynradd erbyn hyn hefyd.

**PENDERFYNWYD**

Cymeradwyo a derbyn yr adroddiad ar Gyllideb GwE 2022-2023 – Adolygiad Chwarter 2

## 7. CYNLLUN BUSNES RHANBARTHOL 2022-2023 GWE – ADRODDIAD MONITRO CHWARTER 2

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Reolwr Gyfarwyddwr GwE, oedd yn rhoi darlun o weithgarwch Gorffennaf i Fedi. Cadarnhawyd fod trafodaethau wedi cymryd lle ar y cwricwlwm, bod y gwaith cefnogi yn parhau a bod parodrwydd gan yr ysgolion i rannu lle maent wedi ei gyrraedd.

O ran Arweinyddiaeth, nodwyd y cynifer sydd yn mynychu'r cyrsiau gyda nifer ohonynt o bosib yn ddarpar arweinwyr ar gyfer y dyfodol.

Nodwyd ei bod yn braf gweld prosiect Llais Ni yn dwyn ffrwyth.

Holiwyd am y ffigyrau hyfforddi a chefnogi clystyrau o amgylch y trawsnewid. Nododd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE eu bod ar bwynt o newid. Mae diffyg sylweddol o ran athrawon llanw, ac er ei bod yn dda cael y cyfarfodydd wyneb yn wyneb, mae cyflwyniadau yn cael eu recordio erbyn hyn oherwydd y pwysau ar ysgolion bychain. Mae gwahanol ysgolion ar lefelau gwahanol o aeddfedrwydd.

Cyfeiriwyd at dracio cynnydd ac asesu disgyblion, yn benodol o ran 360, a sut mae hynny yn cyd-fynd â'r fframwaith newydd. Cadarnhaodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE bod gwaith allweddol wedi ei wneud o ran sgiliau disgyblion a bod y gwaith tracio yn parhau.

Cyfeiriwyd at y Gweithdai Arfarnu a Dal Effaith, a nodwyd yr angen i dynnu papur at ei gilydd, gan weithio gydag ysgolion ar ffurf yr adroddiad, gyda yr un egwyddorion yn rhedeg trwyddynt.

Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai yn dda cael mewnbwn. Cadarnhawyd y byddai Rheolwr Gyfarwyddwr GwE yn dod â phapur gerbron pan fydd mwy o wybodaeth ar gael.

**PENDERFYNWYD**

Derbyn a chymeradwyo yr Adroddiad Monitro Chwarter 2 - Cynllun Busnes Rhanbarthol 2022-2023 GwE.

## 8. BWRIAD I ADOLYGU TREFNIADAU GWEITHREDOL A'R STRWYTHUR STAFFIO PRESENNOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Reolwr Gyfarwyddwr GwE gyda chais am ganiatâd i wneud y darn hwn o waith gyda chefnogaeth y Cyd-Bwyllgor. Nododd y bydd y pwyslais ar gryfhau y cydweithio agos sydd eisoes rhwng GwE a'r Awdurdodau Lleol.

Nododd y Cadeirydd bod hwn yn amserol iawn ac y byddai y Cyd-Bwyllgor yn falch o gael y cyfle i roi sylwadau maes o law. Cadarnhaodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE y bydd y Cyd-Bwyllgor yn cael bwydo i'r papur a'i drafod ymhellach.

**PENDERFYNWYD**

Derbyn a chymeradwyo y bwriad i adolygu trefniadau gweithredol a'r strwythur staffio presennol.

## 9. LLYTHYR Y CYDBWYLLGOR I'R GWEINIDOG Y GYMRAEG AC ADDYSG

Yn dilyn y cyfarfod diwethaf a'r pwysau o ran atebolrwydd, cadarnhawyd bod llythyr wedi ei ddanfon at y Gweinidog, â chopi wedi ei anfon i ysgolion y rhanbarth er gwybodaeth. Nodwyd bod y llythyr wedi cael sylw yn y Fforwm Prif Athrawon a bod y gefnogaeth gan y Cyd-Bwyllgor wedi ei werthfawrogi. Cadarnhawyd y byddai yn cael ei roi yn ôl ar yr agenda ar gyfer cyfarfod arall yn y dyfodol, gan fod ymateb hwyr wedi dod o swyddfa'r Gweinidog.

**PENDERFYNWYD**

Derbyn a nodi cynnwys Llythyr y Cydbwyllgor i'r Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 a daeth i ben am 11.20 y.b.

____________________________________

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cydbwyllgor GwE** |
| **DYDDIAD** | 15 Chwefror 2023 |
| **TEITL** | **Cyllideb GwE 2022/23 – Adolygiad 3ydd Chwarter** |
| **PWRPAS** | • Diweddaru aelodau'r Cydbwyllgor ar yr adolygiad ariannol diweddaraf o gyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2022/23.<br>• Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar yr amrywiannau ariannol sylweddol, gydag Atodiad 1 yn cynnwys y wybodaeth ariannol gyflawn. |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr adroddiad. |
| **AWDUR** | Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd. |

## 1. CASGLIAD

1.1 Ar sail gwariant ac incwm y trydydd chwarter ac amcangyfrifon yn seiliedig ar eglurhad rheolwyr, mae'r adolygiad yma yn rhagweld sefyllfa lled niwtral gyda tanwariant net o (£27,423) erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2022/23.

1.2 Mae'r rhan ddilynol o'r adroddiad yma'n egluro'r rhesymau tu ôl i'r prif amrywiadau a ragwelir.

## 2. AMRYWIADAU ARIANNOL

2.1 **Gweithwyr:**

**Chwarter 3: gorwariant £12,711** *Chwarter 2: tanwariant (£46,552)*

Adroddir ar sefyllfa o orwariant bychan yn y cyfnod yma. Gyda gwerth y gyllideb yn £3.3m net, mae hyn gyfystyr â sefyllfa lled-niwtral. Mae GwE wedi medru penodi nifer o staff yn y misoedd diwethaf i swyddi oedd wedi bod yn wag yn ogystal â phenodi ambell swyddog dros dro i weithio tra fod aelodau i ffwrdd ar absenoldebau mamolaeth.

2.2 **Adeilad:**

**Chwarter 3: gorwariant £23,787** *Chwarter 2: gorwariant £25,367*

Dim newid o sylwedd i'r hyn adroddwyd yn Chwarter 2. Mae GwE yn ddibynnol ar incwm gan ysgolion, awdurdodau a defnydd mewnol o gynlluniau sy'n cael eu hariannu drwy grantiau, am rent o ddefnydd adeiladau GwE. Mae'r digwyddiadau hyn wedi ail-gychwyn ym mis Medi, a felly rhagwelir bydd y ffrwd incwm yma yn gwella yn ystod y flwyddyn, ond bydd diffyg incwm ar gyfer y cyfnod Ebrill i Awst yn arwain at orwariant.

2.3 **Cludiant:**

**Chwarter 3: tanwariant (£54,046)** *Chwarter 2: tanwariant (£59,759)*

Dim newid o unrhyw sylwedd i'r hyn adroddwyd yn Chwarter 2. Ar ôl eu hatal yn ystod yr argyfwng Covid-19, mae ymweliadau ag ysgolion wedi ailgychwyn erbyn hyn. Er hynny, mae ffyrdd newydd o weithio yn gyffredinol wedi arwain at fwy o gyfarfodydd rhithiol, ac felly llai o deithio.

## 3. Y GRONFA GYFFREDINOL

3.1 Cyfanswm y gronfa ar gychwyn y flwyddyn ariannol 2022/23 oedd £437,503.

3.2 Amcangyfrifir bydd cyfanswm y gronfa yn £481,996 ar ddiwedd 2022/23, wrth gynnwys y tanwariant o (£27,423) a ragwelir uchod, yn ogystal â'r cyfraniad at y gronfa i adnewyddu offer Technoleg Gwybodaeth (£17,070).

**ATODIADAU**
Atodiad 1: Cyllideb GwE 2022/23 – Adolygiad 3ydd Chwarter.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb

**Y Swyddog Cyllid Statudol:**

Cyd-awdur yr adroddiad

**CYD-BWYLLGOR GwE - CYNGHORAU GOGLEDD CYMRU - Adolygiad Cyllideb 2022/23 : Trydydd Chwarter Hydref - Rhagfyr 2022**

| | Cyllideb Chwarter 2 £ | Addasiadau Chwarter 3 £ | Cyllideb Chwarter 3 £ | Gwariant Rhagwelir £ | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 3 £ | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | | | | |
| Gweithwyr | | | | | | |
| Cyflogau | | | | | | |
| - Rheolaeth, Broceru, Safonau a Gweinyddiaeth | 914,159 | 55,903 | 914,159 | 824,297 | (89,862) | (77,730) |
| - Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant | 4,029,640 | 138,851 | 4,168,491 | 4,184,995 | 16,504 | (115,388) |
| - Staff ar Secondiad | 155,661 | 46,362 | 202,023 | 202,023 | 0 | 0 |
| - Trosglwyddo yn erbyn 'Prosiectau Penodol' | (1,835,832) | (194,754) | (1,974,683) | (1,888,614) | 86,069 | 146,566 |
| Hyfforddiant, hysbysebu a costau gweithwyr eraill | 44,070 | | 44,070 | 44,070 | 0 | 0 |
| Adeilad | | | | | | |
| Rhent (yn cynnwys gwasanaethau) | 179,274 | | 179,274 | 179,274 | 0 | 0 |
| Ad-daliad Defnydd 'Prosiectau Penodol' o'r ystafelloedd | (60,880) | | (60,880) | (37,093) | 23,787 | 25,367 |
| Cludiant | | | | | | |
| Costau Teithio | 142,041 | 856 | 142,897 | 88,851 | (54,046) | (59,759) |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | | | | | | |
| Dodrefn, offer, argraffu, post, ffôn a.y.y.b | 75,520 | | 75,520 | 65,105 | (10,415) | (10,000) |
| Technoleg Gwybodaeth (cyfraniad i gronfa) | 17,070 | | 17,070 | 17,070 | 0 | 0 |
| Ffioedd archwilio | 11,853 | | 11,853 | 11,853 | 0 | 0 |
| Broceru | 298,745 | | 298,745 | 298,745 | 0 | 0 |
| Costau Gwasanaethau Cefnogol Awdurdod Lletyol Cyngor Gwynedd | | | | | | |
| Cyfreithiol | 5,925 | | 5,925 | 5,925 | 0 | 0 |
| Adnoddau Dynol | 10,160 | | 10,160 | 10,160 | 0 | 0 |
| Cyllid | 43,933 | | 43,933 | 43,933 | 0 | 0 |
| Technoleg Gwybodaeth | 48,591 | | 48,591 | 48,591 | 0 | 0 |
| Ymrwymiadau Model Cenedlaethol | 469,948 | | 469,948 | 469,948 | 0 | 0 |
| Prosiectau Penodol | | | | | | |
| Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol | 10,808,960 | 4,568 | 10,813,528 | 10,813,528 | 0 | 0 |
| Grant Datblygu Disgyblion - Plant Mewn Gofal | 1,125,850 | | 1,125,850 | 1,125,850 | 0 | 0 |
| Grant Datblygu Disgyblion - Cynghorydd Strategol | 100,000 | | 100,000 | 100,000 | 0 | 0 |
| Grant Datblygu Disgyblion - Cyllid Dan Arweiniad y Consortiwm | 257,118 | | 257,118 | 257,118 | 0 | 0 |
| Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG) | 346,769 | 312,195 | 658,964 | 658,964 | 0 | 0 |
| Trawsnewid Y System Ady | 11,346 | | 11,346 | 11,886 | 540 | 0 |
| Fin-Ed Pathfinder Project | 10,625 | | 10,625 | 10,625 | 0 | 0 |
| Fframwaith Defnydd O'r Gymraeg | 207,720 | | 207,720 | 207,720 | 0 | 0 |
| Ein Llais Ni | 210,900 | | 210,900 | 210,900 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **17,629,166** | **363,981** | **17,993,147** | **17,965,724** | **(27,423)** | **(90,944)** |

| | Cyllideb Chwarter 2 £ | Addasiadau Chwarter 3 £ | Cyllideb Diwygiedig £ | Incwm Rhagwelir £ | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 3 £ | Gor / (Tan) Wariant Net Chwarter 2 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | | | | |
| Cyfraniadau ar gyfer costau rhedeg y gwasanaeth craidd | | | | | | |
| - Cyngor Ynys Môn (21/22: 10.16% - 22/23: 10.14%) | (445,643) | | (445,643) | (445,643) | 0 | 0 |
| - Cyngor Gwynedd (21/22: 17.63% - 22/23: 17.59%) | (772,960) | | (772,960) | (772,960) | 0 | 0 |
| - Cyngor Conwy (21/22: 15.28% - 22/23: 15.26%) | (670,688) | | (670,688) | (670,688) | 0 | 0 |
| - Cyngor Dinbych (21/22: 15.36% - 22/23: 15.48%) | (680,010) | | (680,010) | (680,010) | 0 | 0 |
| - Cyngor Fflint (21/22: 22.72% - 22/23: 22.67%) | (996,049) | | (996,049) | (996,049) | 0 | 0 |
| - Cyngor Wrecsam (21/22: 18.86% - 22/23: 18.86%) | (828,867) | | (828,867) | (828,867) | 0 | 0 |
| Prosiectau Penodol | | | | | | |
| Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol | (10,808,960) | | (10,808,960) | (10,808,960) | 0 | 0 |
| Grant Datblygu Disgyblion - Plant Mewn Gofal | (1,125,850) | | (1,125,850) | (1,125,850) | 0 | 0 |
| Grant Datblygu Disgyblion - Cynghorydd Strategol | (100,000) | | (100,000) | (100,000) | 0 | 0 |
| Grant Datblygu Disgyblion - Cyllid Dan Arweiniad y Consortiwm | (257,118) | | (257,118) | (257,118) | 0 | 0 |
| Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG) | (346,769) | (312,195) | (658,964) | (658,964) | 0 | 0 |
| Trawsnewid Y System Ady | (11,346) | | (11,346) | (11,346) | 0 | 0 |
| Fin-Ed Pathfinder Project | (10,625) | | (10,625) | (10,625) | 0 | 0 |
| Fframwaith Defnydd O'r Gymraeg | (207,720) | | (207,720) | (207,720) | 0 | 0 |
| Ein Llais Ni | (210,900) | | (210,900) | (210,900) | 0 | 0 |
| Incwm Secondiadau | (155,661) | (46,362) | (202,023) | (202,023) | 0 | 0 |
| Incwm Arall | 0 | (5,424) | (5,424) | (5,424) | 0 | (856) |
| **Cyfanswm Incwm** | **(17,629,166)** | **(363,981)** | **(17,993,147)** | **(17,993,147)** | **0** | **(856)** |
| **Cyfanswm Cyllideb Net** | **0** | **0** | **0** | **(27,423)** | **(27,423)** | **(91,800)** |

**Memorandwm -**
**Y Gronfa Gyffredinol**

| | Chwarter 3 £ | Chwarter 2 £ |
|---|---|---|
| **Cyfanswm y Gronfa ar 1 Ebrill 2022** | **(437,503)** | **(437,503)** |
| **Ychwaneger** - Technoleg Gwybodaeth (cyfraniad i gronfa) | (17,070) | |
| **Ychwaneger/Llai** - (Tan)/Gorwariant am y flwyddyn gyllidol 2022/23 | (27,423) | (91,800) |
| **Llai** - Defnydd o'r Gronfa | 0 | 0 |
| **Cyfanswm y Gronfa ar 31 Mawrth 2023** | **(481,996)** | **(529,303)** |

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cydbwyllgor GwE** |
| **DYDDIAD** | 15 Chwefror 2023 |
| **TEITL** | **Cyllideb Sylfaenol 2023/24** |
| **PWRPAS** | Cyflwyno i'r Cydbwyllgor :<br>• Cyllideb Sylfaenol GwE 2023/24 (Atodiad 1)<br>• Cyfraniadau Ariannol yr Awdurdodau (Atodiad 2) |
| **ARGYMHELLIAD** | Mabwysiadu'r gyllideb sylfaenol ar gyfer 2023/24 fel ei cyflwynir yn Atodiad 1. |
| **AWDUR** | Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd |

## 1. Cyllideb Sylfaenol ("sefyll yn llonydd")

1.1 Mae cyllideb GwE yn esblygu'n barhaus ac yn adlewyrchu ymrwymiadau busnes craidd y Model Cenedlaethol a nifer sylweddol o brosiectau a ariennir trwy grant.

1.2 Mae effaith ariannol chwyddiant/cynnydd mewn prisiau wedi'u hamcangyfrif a'u cynnwys yn y gyllideb sylfaenol (ar sail "sefyll yn llonydd"), gan gynnwys codiadau cyflog a chynnydd CPI (gweler Atodiad 1). Argymhellir sefydlu cyllideb o £17,993,147 ar gyfer 2023/24, sef yr un swm ag yn 2022/23.

1.3 Amlygir cyfraniadau ariannol yr Awdurdodau yn Atodiad 2.

## 2. Targed Arbedion

2.1 Mae'r gyllideb atodol yn adlewyrchu penderfyniad gan y Cynghorau i beidio ychwanegu chwyddiant yn llawn, ac felly i weithredu toriad yn 2023/24. Golygai hyn doriad yn nhermau real o 5.25% ar ôl cynnydd mewn costau.

2.2 Mae'r actwari yn adolygu sefyllfa'r Gronfa Bensiwn pob tair blynedd, gyda'r adolygiad diweddaraf, wedi'i gwblhau yn Rhagfyr 2022. Canlyniad hyn yw gostyngiad yng nghyfraniad y cyflogwr cyfwerth â £103,964 y flwyddyn. Mae hyn yn lleihau'r toriad a wynebir i 2.60%.

2.3 Mae swm (£102,112) yn ymddangos ar y llinell "Arbedion i'w Darganfod" yn y gyllideb, sy'n cyfateb i'r 2.60% uchod.

2.4 Ar hyn o bryd, mae'r wybodaeth sydd i law yn annigonol ar gyfer amlygu goblygiadau ariannol grantiau penodol yn 2023/24.

## 3. Y Gronfa Gyffredinol

3.1 Mae'r adroddiad 'Cyllideb GwE 2022/23 - Adolygiad Chwarter 3' (eitem flaenorol ar raglen y Cydbwyllgor) yn amcangyfrif bydd oddeutu £481,996 yn y gronfa gyffredinol ar 31/03/2023, sy'n llai na 3% o drosiant GwE ac yn yr amgylchiadau cyfredol yn swm addas i'w gadw wrth gefn.

---

**Atodiadau:**

Atodiad 1 - Cyllideb Sylfaenol GwE ar gyfer 2023/24

Atodiad 2 - Cyfraniadau'r Awdurdodau Lleol 2023/24

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

---

**Y Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb

**Y Swyddog Cyllid Statudol:**

Awdur yr adroddiad

## CYD-BWYLLGOR GwE - CYNGHORAU GOGLEDD CYMRU - CYLLIDEB GwE 2023-24

| | Cyllideb Terfynol 2022/23 £ | Addasiad Chwyddiant £ | Lleihad Pensiwn £ | Targed Arbedion £ | Addasiadau Eraill £ | Cyllideb Terfynol 2023/24 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | | | | |
| Gweithwyr | | | | | | |
| Cyflogau | | | | | | |
| - Rheolaeth, Broceru, Safonau a Gweinyddiaeth | 970,062 | 58,604 | (33,132) | | | 995,534 |
| - Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant | 4,168,491 | 169,697 | (133,884) | | | 4,204,304 |
| - Staff ar Secondiad | 202,023 | | | | | 202,023 |
| - Trosglwyddo yn erbyn 'Prosiectau Penodol' | (2,030,586) | (83,611) | 63,052 | | | (2,051,145) |
| Hyfforddiant, hysbysebu a costau gweithwyr eraill | 44,070 | 3,314 | | | | 47,384 |
| Adeilad | | | | | | |
| Rhent (yn cynnwys gwasanaethau) | 179,274 | 13,481 | | | | 192,755 |
| Ad-daliad Defnydd 'Prosiectau Penodol' o'r ystafelloedd | (60,880) | (4,578) | | | | (65,458) |
| Cludiant | | | | | | |
| Costau Teithio | 142,897 | 10,681 | | | | 153,578 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | | | | | | |
| Dodrefn, offer, argraffu, post, ffôn, hurio stafelloedd ayb | 75,520 | 5,679 | | | | 81,199 |
| Technoleg Gwybodaeth (cyfraniad i gronfa adnewyddu) | 17,070 | 1,284 | | | | 18,354 |
| Ffioedd archwilio | 11,853 | 891 | | | | 12,744 |
| Broceru | 298,745 | 22,466 | | | | 321,211 |
| Costau Gwasanaethau Cefnogol Awdurdod Lletyol Cyngor Gwynedd | | | | | | |
| Cyfreithiol | 5,925 | 446 | | | | 6,371 |
| Adnoddau Dynol | 10,160 | 764 | | | | 10,924 |
| Cyllid | 43,933 | 3,304 | | | | 47,237 |
| Technoleg Gwybodaeth | 48,591 | 3,654 | | | | 52,245 |
| Arbedion i'w darganfod | 0 | | | (102,112) | | (102,112) |
| Ymrwymiadau Model Cenedlaethol | 469,948 | 0 | | | | 469,948 |
| Prosiectau Penodol | | | | | | |
| Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol | 10,813,528 | | | | | 10,813,528 |
| Grant Datblygu Disgyblion - Plant Mewn Gofal | 1,125,850 | | | | | 1,125,850 |
| Grant Datblygu Disgyblion - Cynghorydd Strategol | 100,000 | | | | | 100,000 |
| Grant Datblygu Disgyblion - Cyllid Dan Arweiniad y Consortiwm | 257,118 | | | | | 257,118 |
| Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG) | 658,964 | | | | | 658,964 |
| Trawsnewid Y System Ady | 11,346 | | | | | 11,346 |
| Fin-Ed Pathfinder Project | 10,625 | | | | | 10,625 |
| Fframwaith Defnydd O'r Gymraeg | 207,720 | | | | | 207,720 |
| Ein Llais Ni | 210,900 | | | | | 210,900 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **17,993,147** | **206,076** | **(103,964)** | **(102,112)** | **0** | **17,993,147** |

| | Cyllideb Terfynol 2022/23 £ | Addasiad Chwyddiant £ | Lleihad Pensiwn | Targed Arbedion £ | Addasiadau Eraill £ | Cyllideb Terfynol 2023/24 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | | | | |
| Cyfraniadau ar gyfer costau rhedeg y gwasanaeth craidd | | | | | | |
| - Cyngor Ynys Môn (22/23: 10.14% - 23/24: 10.09%) | (445,643) | (20,900) | 10,544 | 10,356 | 2,307 | (443,336) |
| - Cyngor Gwynedd (22/23: 17.59% - 23/24: 17.53%) | (772,960) | (36,250) | 18,288 | 17,962 | 2,728 | (770,232) |
| - Cyngor Conwy (22/23: 15.26% - 23/24: 15.17%) | (670,688) | (31,453) | 15,868 | 15,585 | 4,022 | (666,666) |
| - Cyngor Dinbych (22/23: 15.48% - 23/24: 15.51%) | (680,010) | (31,890) | 16,088 | 15,802 | (1,474) | (681,484) |
| - Cyngor Fflint (22/23: 22.67% - 23/24: 22.79%) | (996,049) | (46,712) | 23,566 | 23,146 | (5,373) | (1,001,422) |
| - Cyngor Wrecsam (22/23: 18.86% - 23/24: 18.91%) | (828,867) | (38,871) | 19,610 | 19,261 | (2,210) | (831,077) |
| | | | | | | |
| Prosiectau Penodol | | | | | | |
| Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol | (10,808,960) | | | | | (10,808,960) |
| Grant Datblygu Disgyblion - Plant Mewn Gofal | (1,125,850) | | | | | (1,125,850) |
| Grant Datblygu Disgyblion - Cynghorydd Strategol | (100,000) | | | | | (100,000) |
| Grant Datblygu Disgyblion - Cyllid Dan Arweiniad y Consortiwm | (257,118) | | | | | (257,118) |
| Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG) | (658,964) | | | | | (658,964) |
| Trawsnewid Y System Ady | (11,346) | | | | | (11,346) |
| Fin-Ed Pathfinder Project | (10,625) | | | | | (10,625) |
| Fframwaith Defnydd O'r Gymraeg | (207,720) | | | | | (207,720) |
| Ein Llais Ni | (210,900) | | | | | (210,900) |
| | | | | | | |
| Incwm Secondiadau | (202,023) | | | | | (202,023) |
| Incwm Arall | (5,424) | | | | | (5,424) |
| **Cyfanswm Incwm** | **(17,993,147)** | **(206,076)** | **103,964** | **102,112** | **0** | **(17,993,147)** |
| | | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllideb Net** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |

## Atodiad 2 / Appendix 2

| | | Craidd/*Core* | | | | | | Arall / Other | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **I'w ariannu gan** | ***Funded by*** | **Cyllideb**<br>***Budget*** | **Chwyddiant**<br>***Inflation*** | **Lleihad Pensiwn i Ariannu Arbedion**<br>***Reduced Pension offered as saving*** | **Targed Arbedion**<br>***Savings Target*** | **Addasiadau canran cyfraniad**<br>***Contribution proportion adjustment*** | **Is-gyfanswm**<br>***Sub-total*** | **Addasiad Model Cenedlaethol**<br>**National Model adjustment** | **Cyllideb Drafft**<br>***Draft Budget*** | |
| | | **2022/23** | **5.25%** | **-2.65%** | **2.60%** | | **2023/24** | | **2023/24** | |
| | | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | % |
| Ynys Môn | *Isle of Anglesey* | **397,983** | 20,900 | -10,544 | -10,356 | -2,060 | **395,923** | 47,413 | **443,336** | 10.09% |
| Gwynedd | *Gwynedd* | **690,294** | 36,250 | -18,288 | -17,962 | -2,436 | **687,858** | 82,374 | **770,232** | 17.53% |
| Conwy | *Conwy* | **598,960** | 31,453 | -15,868 | -15,585 | -3,592 | **595,368** | 71,298 | **666,666** | 15.17% |
| Dinbych | *Denbighshire* | **607,285** | 31,890 | -16,088 | -15,802 | 1,316 | **608,601** | 72,883 | **681,484** | 15.51% |
| Fflint | *Flintshire* | **889,525** | 46,712 | -23,566 | -23,146 | 4,798 | **894,323** | 107,099 | **1,001,422** | 22.79% |
| Wrecsam | *Wrexham* | **740,222** | 38,871 | -19,610 | -19,261 | 1,974 | **742,196** | 88,881 | **831,077** | 18.91% |
| **Cyfanswm** | ***Total*** | **3,924,269** | **206,076** | **-103,964** | **-102,112** | **0** | **3,924,269** | **469,948** | **4,394,217** | 100% |

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**15 CHWEFROR 2023**

**Adroddiad gan:** Arwyn Thomas , Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

**Testun:** Cynllun Busnes Rhanbarthol 2022-2023 GwE – Adroddiad monitro chwarter 3

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Cyflwyno Adroddiad monitro chwarter 3 - Cynllun Busnes Rhanbarthol 2022-2023 GwE i'r Cyd-Bwyllgor.

**2.0 Cefndir**

**2.1** Mae'r Cynllun Busnes yn amlinellu ein gweledigaeth, ein gwerthoedd a'n hymddygiad, y meysydd gwelliant â blaenoriaeth ar draws y rhanbarth.

**2.2** Mae ein blaenoriaethau strategol yn arddel y blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol presennol. Adnabuwyd y prif feysydd i'w datblygu drwy broses hunan werthuso'r gwasanaeth.

**2.3** Adroddir yn chwarterol ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Busnes Rhanbarthol i'r Cyd-bwyllgor. Ynghlwm mae'r adroddiad monitro ar gyfer chwarter 3.

**3.0 Ystyriaethau**

**3.1** Y Rheolwr Gyfarwyddwr a Chadeirydd y Bwrdd Rheoli sydd â chyfrifoldeb am gyflawni'r Cynllun Rhanbarthol fel swyddogion atebol. Y Cyd-bwyllgor sydd yn atebol yn y pen draw am gyflwyno'r cynllun.

**3.2** Mae Fframwaith Cynllunio Busnes GwE yn sicrhau eglurder a chytgord strategol wrth gyflawni blaenoriaethau yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Drwy gydol y flwyddyn, bydd adroddiadau yn ymwneud â'n ffrydiau blaenoriaeth yn y Cynllun Busnes yn cael eu bwydo drwy ein grwpiau llywodraethu.

**3.3** Cefnogir y blaenoriaethau yma gan gynlluniau manwl y gwasanaeth sy’n nodi’r cymorth a'r ddarpariaeth sydd ar gael i bob ysgol yn y rhanbarth. Amlinellir sut a phryd y bydd pob blaenoriaeth yn cael ei chyflawni ac yn gosod disgwyliadau o ran y camau nesaf wrth gyflawni’r daith ddiwygio.

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor gymeradwyo a derbyn yr adroddiad monitro ar gyfer chwarter 3.

4.2 Penderfynu a oes unrhyw agweddau y dymunant eu trafod ymhellach mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

**5.0 Goblygiadau Ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd GwE yn gweithredu oddi mewn i'r adnoddau ariannol presennol.

**6.0 Effaith ar Gydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd**

8.1 Ymgynghori â Bwrdd Rheoli GwE a'r Cyd-Bwyllgor.

**9.0 Atodiadau**

9.1 Atodiad 1 - Adroddiad monitro chwarter 3

Atodiad 2 – Data Rhanbarthol chwarter 3

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**
Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**
Rwyf yn fodlon fod y diweddariad yn adlewyrchiad teg o'r sefyllfa. Nid oes gennyf sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb ariannol.

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding





# Cynllun Busnes GwE

# 2022-2023

# Chwarter 3

# Adroddiad Cynnydd

www.gwegogledd.cymru @GwEGogleddCymru

**CYNNWYS**

1. **Cynllun Busnes Rhanbarthol GwE 2022-2023**

    - **Y blaenoriaethau a'r ddarpariaeth ranbarthol sydd yn cyfrannu at flaenoriaethau awdurdod lleol - Adroddiad Cynnydd ar Chwarter 3**

2. **Atodiad: Data Rhanbarthol**

## 1. CYNLLUN BUSNES RHANBARTHOL GwE

**BLAENORIAETHAU A DARPARIAETH Y RHANBARTH 2022-2023**

**Adroddiad Cynnydd ar Chwarter 3**

| **AMCAN 1 - CWRICWLWM AC ASESU**<br><br>**Cefnogi cwricwlwm cenedlaethol ble mae tegwch a rhagoriaeth yn ganolog ac sydd yn gosod safonau uchel i bob dysgwr.** |
|---|
| **CONTINWWM ADDYSG 3 I 16** |
| **Cymorth i ysgolion wrth iddynt ddechrau gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru, gyda phwyslais cryf ar y 12 egwyddor addysgegol, arferion yn seiliedig ar dystiolaeth ac ymchwil weithredu. Datblygu asesu ffurfiannol ymhellach. Hyrwyddo pontio i ddysgwyr drwy sicrhau cyswllt uniongyrchol effeithiol rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd. Cefnogi cydweithredu ar draws sectorau i sicrhau cysondeb mewn arferion addysgu effeithiol i gefnogi cyfnodau pontio dysgwyr.**<br>Mae un ysgol uwchradd ac un ysgol gynradd arweiniol o blith 12 clwstwr ar draws y rhanbarth wedi mynegi diddordeb mewn cymryd rhan yn y prosiect ymchwil gweithredol rhanbarthol ar addysgeg pontio a lansiwyd yn ystod gweithdy Pontio GwE ar 07/10/22. Cynhaliwyd cyfarfod lansio i'r 24 ysgol a'u YCG ar 12/12/2022. Roedd pob ysgol ac YCG yn bresennol. Rhannodd ysgolion eu bwriad ar gyfer eu gwaith ymchwil a chydweithio a chawsant gyfleoedd i rannu a chynllunio sut roeddent am gydweithio. Trefnwyd cyfarfodydd adolygu pob hanner tymor hyd at ddiwedd y flwyddyn galendr i drafod a rhannu camau gweithredu ac effaith. Sefydlwyd Google Classroom ar gyfer y prosiect er mwyn rhannu a chydweithio. Mae'n ddyddiau cynnar o ran effaith ond mae gan bob ysgol ddarlun clir o ffocws y naill a'r llall ac maent yn glir ynghylch eu camau nesaf. Rhoddwyd deunyddiau atodol ar Google Classroom. Bydd ysgolion yn dechrau ymchwilio a chydweithio yn ystod Tymor y Gwanwyn 2023.<br><br>**Cymorth i ysgolion wrth iddynt ddechrau gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru, gyda phwyslais cryf ar y 12 egwyddor addysgegol, arferion yn seiliedig ar dystiolaeth ac ymchwil weithredu.**<br>**Datblygu dealltwriaeth ymarferwyr o sut i roi theori y 12 egwyddor addysgegol ar waith yn y dosbarth**.<br>Darparwyd rhwydwaith grŵp oedran 3-8 rhanbarthol ar gyfer ymarferwyr ac YCG, i rannu canllawiau ar Galluogi Dysgu (cyfnod dysgu yn arwain at Gam Cynnydd 1) ac astudiaethau achos gan ysgolion o bob ALl sy'n rhan o brosiect ymchwil GwE, 'Communication Friendly Spaces Approach'. Bu ymarferwyr yn trafod sut yr aethant ati i fyfyrio ac adolygu ar eu hamgylcheddau dysgu, tu mewn a thu allan, ac effaith eu darpariaeth ar ddysgwyr, yn unol â'r Canllawiau Galluogi Dysgu. Rhoddwyd cyflwyniadau ac astudiaethau achos ar Ganolfan Cefnogaeth GwE fel bod modd i bob ysgol yn y rhanbarth fynd atynt.<br><br>Cynhaliwyd gweithdai rhanbarthol yn y rhanbarth i athrawon a chymorthyddion dysgu sy'n newydd i'r grŵp oedran 3-8, yn canolbwyntio ar egwyddorion Galluogi Dysgu a MDaPh yn y grŵp oedran hwn ac addysgeg effeithiol. Mae gan y rheiny sydd wedi bod yn bresennol adnabyddiaeth a dealltwriaeth gadarn o'r tri galluogwr dysgu o fewn Galluogi Dysgu, yr addysgeg a'r cwricwlwm i'w trosglwyddo'n arferion dosbarth.<br><br>Cynhaliwyd gweithdy digidol rhanbarthol ar y cyd ar ddatblygu sgiliau o fewn y grŵp oedran 3-8 (gweler adroddiad monitro Ch3 Cynllun Busnes Digidol).<br><br>Ymarferwyr ac YCG yn cyd-gyflwyno gweithdai gwaith coed i glystyrau, i ddangos effaith y ddarpariaeth Gwaith Coed ar ddatblygu sgiliau ar draws MDaPh, sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol. Roedd yr astudiaethau achos a rannwyd yn dangos ffyrdd effeithiol o arsylwi ac asesu drwy brofiadau bywyd go iawn sydd yn cael effaith gadarnhaol ar gynnydd a lles disgyblion yn gyffredinol.<br><br>**Cymorth gydag addysgeg, asesu ffurfiannol, y pedwar diben, asesu, cynllunio a phontio:**<br>**Parhau i weithio gydag ysgolion i ddatblygu'r Cofnod Cynnydd Disgyblion cynradd ysgol gyfan sydd yn cyd-fynd ag egwyddorion y cwricwlwm newydd:**<br>Mae ysgolion ar draws y rhanbarth yn parhau i adolygu ac addasu eu gweithdrefnau cofnodi asesiadau gyda rhai yn treialu adnodd tracio GwE. Cynhaliwyd hyfforddiant i bob YCG ar weithredu hyn er mwyn iddynt allu cefnogi eu hysgolion a'u clystyrau - hyfforddiant penodol i ysgolion a chlystyrau pan ofynnwyd amdano, ac i bob ysgol ar ffurf cyfres o ddigwyddiadau hyfforddi ar-lein ac yn y gynhadledd 'Arweinyddiaeth sy'n Ysbrydoli'. Croesawyd yr |

hyfforddiant yn fawr gan fod y traciwr yn bodloni'r hyn y mae ar ysgolion ei angen ar hyn o bryd.

Mae ysgolion priodol bellach yn gweithredu'n llawn y traciwr Cynnydd Disgybl ac yn defnyddio hwn yn effeithiol i ysgogi deialog broffesiynol a thracio dysgu a chyflawniad sy'n gysylltiedig â'r Cwricwlwm i Gymru. Bydd hyn yn cyfoethogi'r dysgu ac yn gwella cynnydd trwy wella cyfathrebu a thargedu cymorth. Codwyd ymwybyddiaeth o ddefnyddioldeb a pherthnasedd y traciwr. Amlygodd hyn negeseuon allweddol am y Cwricwlwm i Gymru a'r egwyddorion sy'n sail iddo.

**Cefnogi ysgolion wrth iddynt ddatblygu eu prosesau asesu effeithiol eu hunain:**
Mae ysgolion ar draws y rhanbarth yn parhau i roi cynnig ar amrywiol ffyrdd o gofnodi asesiadau disgyblion. Mae YCG yn parhau i gynghori, rhannu arferion da a chynnig datrysiadau posibl i ysgolion ac/neu glystyrau unigol yn ystod cyfarfodydd â Phenaethiaid, drwy fynd i gyfarfodydd staff neu yn ystod trafodaethau clwstwr.

Cafodd ysgolion gymorth parhaus i ddatblygu asesu, gan gynnwys rhannu arferion llwyddiannus, naill ai cymorth pwrpasol gan YCG i ysgolion a chlystyrau a staff ALl lle bo'n briodol, neu trwy gael mynediad at sesiynau ar-lein a gyflwynwyd tymor diwethaf. Mae'r YCG wedi cael y sesiynau hyn er mwyn cefnogi eu clystyrau eu hunain.

Gweithiwyd yn bwrpasol mewn partneriaeth gydag ysgolion i ddatblygu deialog broffesiynol, a rhannwyd negeseuon allweddol trwy hyfforddiant rhanbarthol hefyd. Adnabuwyd ysgolion ag arferion llwyddiannus yn y maes hwn a rhannwyd eu harferion.

O ganlyniad i uwchsgilio'r gweithlu mewn asesu o fewn y Cwricwlwm i Gymru, mae ysgolion yn gwybod beth yw eu camau nesaf ac maent yn datblygu ymhellach, yn dylunio ac yn gwreiddio darpariaeth asesu. Mae hyn yn gwneud gwahaniaeth allweddol o ran gwella ffocws ysgolion ar asesu dysgwyr yn holistaidd.

**Cefnogi ysgolion i ddatblygu a rhannu arferion da parod i hwyluso cydweithio effeithiol rhwng y dysgwr, rhieni/gofalwyr ac ymarferwyr:**
Mae GwE yn parhau i rannu arferion da ar draws y rhanbarth gan godi nifer yr ysgolion sydd wedi mireinio eu prosesau yn ystod Covid.

**Pontio**
Rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf i fyfyrwyr AGA ar gynllunio ar gyfer pontio llwyddiannus ar 3/10/2022 - Prif Ddarlith GwE a gweithdy 2-awr i 140 o fyfyrwyr TAR yn CaBan ac athrawon AGA y rhanbarth yn cael eu huwch sgilio mewn ffyrdd i gefnogi pontio llwyddiannus.

Mae ysgolion bellach yn dechrau datblygu trefniadau newydd ar gyfer cydweithio clwstwr i gefnogi dilyniant 3-16. Mae'r gwaith hwn yn plethu â'r CGY a'r CiG. Mae ysgolion a chlystyrau ar draws y rhanbarth wedi cael eu huwch sgilio mewn ffyrdd all gefnogi efo pontio llwyddiannus drwy weithdy 'Pontio' GwE a gynhaliwyd ar 07/10/2022, gyda'r pwyslais ar bontio llwyddiannus yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru. Gwahoddwyd 2 ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd o bob clwstwr. Roedd bron pob clwstwr yn bresennol ac mae'r lleiafrif bach iawn nad oeddent yn bresennol yn cael cefnogaeth yr YCG. Cafwyd adborth cadarnhaol ac ymarferol iawn am y gweithdy, ac mae pob clwstwr wedi cynllunio'r camau nesaf a ddylai arwain at effaith.

Gwelwyd pob clwstwr ar draws y rhanbarth yn cydweithio i greu cynlluniau a phrosiectau pontio newydd, ac maen nhw arni ar wahanol lefydd o ran eu datblygu. Rhannwyd negeseuon allweddol o'r gweithdy â'r YCG a'r ysgolion. Trefnwyd digwyddiad dilynol i rannu arferion llwyddiannus ar 17/03/2023 ble gwahoddir pob clwstwr. Bydd Dave Harris yn bresennol a bydd cyfle am sesiwn holi ac ateb.

Dyma'r camau nesaf yn dilyn y gweithdy:

- Cefnogi clystyrau gyda'r prosiect peilot ar bontio addysgeg
- Darparu llwyfan ar gyfer lledaenu arferion llwyddiannus
- Cefnogi clystyrau unigol a grwpiau o glystyrau i ddatblygu gweledigaeth glwstwr ar gyfer pontio
- Cefnogi clystyrau ac ysgolion unigol efo gwella pontio - meithrin cydberthnasau, cydweithio, rhannu dysgu, cynnydd mewn sgiliau, archwilio cyd-destun ehangach pontio, yn arbennig y tu hwnt i Flwyddyn 6-7.
- Datblygu gweithdy rhannu llwyddiant ar gyfer mis Mawrth dan adain 'Arweinyddiaeth sy'n Ysbrydoli', ac estyn gwahoddiad i glystyrau o bob ALl.

| GWIREDDU'R CWRICWLWM (CWRICWLWM I GYMRU) |
|---|
| **Darparu dysgu proffesiynol a chymorth ac arweiniad pwrpasol i ysgolion a lleoliadau i'w helpu i gyflawni pob agwedd ar y Daith Ddiwygio trwy weithredu'r cwricwlwm newydd ar sail eu mannau cychwyn unigol.**<br>Parheir i gynnal cyfres o sesiynau Dysgu Proffesiynol cenedlaethol ar-lein ar y Cwricwlwm i Gymru (CiG) i gefnogi arweinwyr ac athrawon gyda'u gwaith ar y CiG. Mae'r tîm traws-ranbarthol yn cydweithio i gynllunio a darparu'r rhaglen genedlaethol i gynnwys enghreifftiau gan ysgolion a chyfleoedd i ysgolion drafod arferion ag ysgolion ar draws Cymru mewn sesiynau trafod. Mae recordiadau a'r adnoddau a rennir ar gael ar wefan draws-ranbarthol sydd ar gael drwy HwB i bob ysgol ac ymarferydd yng Nghymru. Mae staff GwE yn parhau i weithio mewn timau i lunio pecynnau cefnogi fel rhan o'r rhaglen DP ranbarthol.<br><br>Mae'r effaith fel a ganlyn:<br>• Nifer cynyddol o sesiynau DP i gefnogi athrawon gydag ysgolion yn rhannu enghreifftiau ymarferol o'u proses.<br>• Lefelau ymgysylltu cadarnhaol gan ysgolion ar hyd a lled Cymru, gyda dros 327 o ymarferwyr yn mynychu a'r mwyafrif o'r rhain yn aelodau o'r UDA - Ysgolion GwE â mwy na 143 o ymarferwyr yn mynychu.<br>• Yn ôl ffurflenni arfarnu'r rhaglen CiG, mae 100% o'r rheiny sydd wedi cwblhau ffurflenni arfarnu yn cytuno'n gryf, neu'n cytuno, eu bod yn fodlon gyda'r profiad dysgu.<br>• Ceisiadau i GwE am sesiynau dysgu proffesiynol pwrpasol i glystyrau/ysgolion i gefnogi efo hyfforddiant staff ac ysgol gyfan er mwyn cefnogi trafodaethau cwricwlwm, er enghraifft, GwE yn cyflwyno ar sgiliau cyfannol ym mhob MDaPh i ysgolion uwchradd yn cydweithio ar ddiwrnod HMS cyffredin ym mis Tachwedd 2023.<br>• Pob YCG yn rhan o ddeialog broffesiynol gyson ag aelodau UDA pob ysgol yn ystod tymor yr Hydref er mwyn adnabod dysgu proffesiynol i staff ysgol - yn ôl y dystiolaeth am flaenoriaethau hyd yma, mae'r CiG yn flaenoriaeth gan 217 o ysgolion.<br><br>Mae Canolfan Cefnogaeth GwE yn parhau i gefnogi ysgolion i gael dysgu proffesiynol drwy gyfuniad o ddulliau. Caiff y sesiynau eu recordio ac mae'r rhain yn cynnwys enghreifftiau o ysgolion yn rhannu eu harferion. Yn ôl y sylwadau, croesewir y rhain gan ysgolion, a chânt eu defnyddio i gefnogi trafodaethau proffesiynol yn yr ysgol. O'r 3842 sydd wedi edrych ar y deunyddiau atodol, mae 2025 ohonynt yn ymarferwyr cynradd ac 1817 yn ymarferwyr uwchradd. |
| **TIMAU MEYSYDD DYSGU A PHROFIAD (MDaPh)** |
| **Sicrhau bod gan bob ymarferydd o bob lleoliad fynediad at Ddysgu Proffesiynol a chymorth o safon uchel yn nisgyblaethau'r MDaPh a'r themâu trawsgwricwlaidd.**<br>Cynhaliwyd y cyfarfod rhwydwaith rhanbarthol cyntaf ar gyfer y flwyddyn academaidd hon. Cafwyd sylwadau cadarnhaol, ar y cyfan, ar wythnosau cyntaf y cwricwlwm newydd, er bod cydnabyddiaeth ei bod hi'n ddyddiau cynnar iawn. Cafwyd adborth ar strwythur y threfn y cyfarfodydd gan ystyried y pwrpas a'r cyfle i ddefnyddio fforymau lleol i drafod. Rhannwyd awgrym am strwythur cyfarfod newydd â Bwrdd Rheoli GwE a'r staff. Cynhelir y cyfarfod rhanbarthol nesaf i gyflwyno hyn a datblygu cynlluniau cymorth ar gyfer adnabod arferion da ym mis Ionawr 2023. Gwerthuso ffurfiol gyda Phrifysgol Bangor yn parhau. |

| AMCAN 2 - DATBLYGU PROFFESIWN ADDYSG O SAFON UCHEL<br>Gwella'r dysgu a'r addysgu yn ein hysgolion |
|---|
| **IEITHOEDD TRAMOR MODERN (ITM)** |
| **Cefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno darpariaeth ieithoedd rhyngwladol ystyrlon yng Nghymru.**<br>**Darparu egwyddorion a chodi ymwybyddiaeth ar draws pob lleoliad addysg o bwysigrwydd amlieithrwydd a blaenoriaethu ieithoedd ac ehangu dewisiadau dysgwyr.**<br>Mae gwaith yn parhau gyda'r grwpiau rhanbarthol a lleol yn datblygu'r ymwybyddiaeth hon ar draws sectorau. Darperir diweddariadau ac adnoddau rheolaidd ar amlieithrwydd yn yr adran ITM ar Ganolfan Cefnogaeth GwE yn ogystal â'r newyddlen. Bwriedir comisiynu rhai ysgolion i ddangos sut aethant ati i ddatblygu a chodi gwerth amlieithrwydd yn eu lleoliadau a'r effaith ar eu dysgwyr.<br><br>**Cefnogi ysgolion a lleoliadau i gynllunio eu darpariaeth ar gyfer ieithoedd rhyngwladol.**<br>Cyfarfodydd Tîm Dyfodol Byd-eang (DB-e) Cynradd ac Uwchradd: bydd y timau yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod datblygiad a gweithrediad y cynllun busnes er mwyn cyflawni camau gweithredu strategol rhaglen Dyfodol Byd-eang. |

Ysgol i ysgol a chefnogi clystyrau cynradd: mae'r ysgolion arweiniol wedi parhau i weithio o fewn eu clystyrau a'u cysylltiadau. Mae'r Ysgolion Arweiniol ac Arweinydd DB-e hefyd wedi ymateb a darparu cymorth i ysgolion unigol neu glystyrau eraill. Mae rhai ysgolion wedi gwahodd Arweinwyr i gyflwyno i'r holl staff yn ystod cyfarfodydd ar ôl ysgol. Mae'r cyfarfodydd yn galonogol iawn gan eu bod yn cynnig y cyfle i ddod i ddeall yn well nodau a disgwyliadau ieithoedd rhyngwladol yn y cynradd, yn unol â chanllawiau Cwricwlwm i Gymru.

Cynnig Dysgu Proffesiynol: Cafwyd niferoedd da yn y cynnig dysgu proffesiynol yn nhymor yr Hydref a chafwyd sylwadau da iawn. Y gobaith yw y bydd hyn yn tynnu mwy o ysgolion eraill i mewn wrth iddynt ddatblygu eu gwaith ar ddylunio'r cwricwlwm ar gyfer iaith ryngwladol.

Cyfarfodydd Rhwydwaith : yn ôl arolwg ymysg yr aelodau o hyfforddiant wyneb yn wyneb ym mis Tachwedd, buasent yn croesawu cyfarfodydd Rhwydwaith tymhorol i ymarferwyr cynradd. Trafododd Tîm Cynradd D-Be GwE y fformat a'r lleoliadau gan gytuno arnynt. Cytunir ar ddyddiadau ac agenda yn ystod cyfarfodydd Tîm Cynradd D-Be GwE i sicrhau cysondeb negeseuon a gweithredu ond caniateir ar gyfer gwahaniaethau sy'n benodol i gyd-destunau.

Cymorth ysgol i ysgol uwchradd: Mae Arweinwyr Hwb a'r Arweinydd IRh yn parhau i ddarparu cefnogaeth ar gais i ysgolion unigol neu glystyrau. Cyfarfodydd rhwydwaith tymhorol: Cafwyd niferoedd da yn y cyfarfodydd ym mis Tachwedd a gwaith da. Mae cynnig Dyfodol Byd-eang GwE a amlinellir yn y newyddlen bob hanner tymor, gan gynnwys dysgu proffesiynol a phrosiectau datblygu'r CiG, yn ymateb yn uniongyrchol i'r anghenion a nodwyd gan Benaethiaid Adran yn yr Haf. Mae ysgolion yn cofrestru ar gyfer yr amryfal gyfleoedd fydd yn digwydd yn ystod y chwarter nesaf.

Dylunio ar gyfer Ieithoedd o fewn y CiG: Rhaglen i ysgolion peilot 2022-2023: gyda'r Athro Jenny Eddy o Goleg y Frenhines, Prifysgol Efrog Newydd (sector uwchradd): Yn ystod Chwarter 3, cafwyd deuddydd o hyfforddiant wyneb yn wyneb gyda'r Athro Jenny Eddy ble cafwyd niferoedd da a sylwadau gwych gan ymarferwyr ITM a Chymraeg yn ogystal ag aelodau'r Grŵp Rhanbarthol. Llwyddodd bob ysgol a oedd yn cymryd rhan i ddyfnhau eu dealltwriaeth ynghylch egwyddorion 'Articulated Assessment for Transfer Tasks' (AATT) ac aethant ati i feddwl o ddifri am eu proses gynllunio a'u harferion. Cydweithiodd bawb â chydweithwyr gan gynhyrchu o leiaf un 'AATT' gyda chymorth arbenigedd ac arweiniad yr Athro Jenny Eddy. Rhannwyd a deallwyd nodau a disgwyliadau'r camau nesaf. Trefnwyd sesiynau galw heibio ar-lein dewisol i gael cymorth ar 28/12/2022 a 15/12/2022 gyda Jenny Eddy yn bresennol. Crëwyd Google Classroom i ysgolion bostio eu gwaith datblygol a chydweithio ymhellach. Crëwyd canllawiau a chymorth i adolygu a datblygu deunyddiau unedau ac AATT ac fe'u rhannwyd ar Google Classroom, mewn sesiynau galw heibio ac ar e-bost. Trefnir un sesiwn wyneb yn wyneb dewisol arall, dewisol, ar 24/01/2022 a darperir rhagor o gymorth yn ôl y galw.

Yn ogystal â'r gwaith hwn, cysylltodd Arweinydd DB-e â Caban (Rhaglen AGA) a threfnwyd rhannu'r ffrwd waith hon ag is-raddedigion er mwyn cefnogi eu ffocws ar ddylunio'r cwricwlwm (gweler isod am fwy o fanylion ar y cydweithio rhwng Dyfodol Byd-eang GwE ac AGA Caban).

Bydd GwE yn cyflwyno'r gwaith a ddatblygir yng Ngogledd Cymru i Gynhadledd flynyddol Ieithoedd y Byd a drefnir gan y Gymdeithas Dysgu Ieithoedd (ALL) ym mis Mawrth 2023. Fel hyn, gellir dangos enghreifftiau ymarferol o arferion a dulliau arloesol ac effeithiol y mae ysgolion Gogledd Cymru wrthi'n eu datblygu i wella ansawdd dysgu iaith. Mae'r gynhadledd ALL yn gynhadledd fawr o fri ble daw amrywiaeth eang o addysgwyr ac arbenigwyr ITM enwog a mawr eu clod ynghyd i gyflwyno'r ymchwil ar sail tystiolaeth a'r datblygiadau diweddaraf. Dyma gyfle gwych i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ynghylch ein Cwricwlwm i Gymru newydd a rhoi sylw i'w fframwaith beiddgar a grymusol i ymarferwyr. Dyma'r ail waith i Dyfodol Byd-eang GwE gynrychioli Gogledd Cymru yn y gynhadledd (Mawrth 2021).

**Parhau i ddatblygu ar y gweithgarwch mewn ysgolion cynradd, i baratoi at y CiG**
Mae ysgolion arweiniol yn parhau i gynllunio a datblygu eu camau nesaf. Drwy gysylltu ag ysgolion sy'n rhan o ddigwyddiadau a chynnig Dyfodol Byd-eang, darperir arweiniad a chymorth i ddatblygu cwricwlwm sy'n gweddu orau i'w hysgol a'u cyd-destun.

Prosiectau ar waith:

- Prosiectau rhyngwladol a Rhaglen Taith: Rygbi yng Nghymru a Ffrainc - Normandi. Cytunwyd ar gynllun gweithredu a rhestr o weithgareddau ac fe'i gweithredir. Rhannwyd datblygiad y prosiect ac arferion â chydweithwyr yn ystod diwrnod hyfforddiant ar 16/11/2022 - effaith gadarnhaol iawn ac ysgolion yn cael

eu hysbrydoli i gychwyn ar brosiectau tebyg.

- Hyfforddiant Power Language a chysylltiadau â Ffrainc, Sbaen a'r Almaen 2023-2024: Ysgolion DP.
- BSL: datblygu cwricwlwm a Chynlluniau Dysgu ar gyfer BSL fel lefel sylfaenol IRh.
- Adnoddau Power Language: Corffori Ieithoedd yn y Cwricwlwm: cafwyd niferoedd da iawn ar y sesiwn hyfforddiant ar 16/11/2022 a sylwadau hynod galonogol. Effaith gadarnhaol ar frwdfrydedd a hyder athrawon ac ystod o syniadau ymarferol i ddatblygu dysgu ac addysgu IRh.
- Cwrs uwchsgilio: Ffrangeg i athrawon cynradd - 9/11/2022 (dilyniant i sesiynau mis Gorffennaf) a mis Ionawr 2022-2023. Yn seiliedig ar ddefnyddio llenyddiaeth i ddatblygu iaith a chaffaeliad iaith. Trafodwyd a chytunwyd ar ragor o sesiynau ar gyfer mis Ionawr 2023.
- Cyfarfodydd rhwydwaith cynradd IRh: Cytunodd y Tîm DB-e Cynradd ar gyfarfod tymhorol wyneb yn wyneb. Cyfarfod cyntaf: Chwefror 2023.

**Cysylltiadau â Mentora ITM - mentora Blwyddyn 8/9:**
2022-2023: 21 ysgol yn GwE: llawn (+4 ar y rhestr aros)
Fel pob blwyddyn arall, rydym wedi bod yn hyrwyddo cynllun mentora ITM er mwyn ceisio datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth dysgwyr o fanteision dysgu iaith ryngwladol yng nghyfnod allweddol 4. Bob blwyddyn, mae nifer yr ysgolion sy'n dangos diddordeb yn codi. Mae nifer yr ysgolion sy'n dychwelyd yn uchel, sy'n tystio eu bod nhw'n teimlo bod y rhaglen yn cael effaith gadarnhaol ar farn dysgwyr am ieithoedd.

**Beth am astudio ieithoedd: Diwrnod ym Mhrifysgol Bangor**
10/11/2022: Daeth mwy na 150 o ddisgyblion i'r gweithdai oedd yn cynnwys sesiynau blasu iaith a gwybodaeth ddefnyddiol am astudio ieithoedd yn y brifysgol yn ogystal â gyrfaoedd. Mae'r adborth gan ddisgyblion a staff yn amlwg yn dangos yr effaith gadarnhaol ar agwedd myfyrwyr tuag at ieithoedd yn ogystal â dyheadau am y dyfodol. Trefnwyd dau ddiwrnod arall ar 31/03/2023 a 01/02/2023. Bydd cyfanswm o 25 ysgol a mwy na 410 o fyfyrwyr wedi cymryd rhan.

**Dylunio ar gyfer Ieithoedd o fewn y CiG: Rhaglen i ysgolion Peilot yn 2022-2023**
Nod rhaglen dylunio cwricwlwm 'Dylunio ar gyfer Ieithoedd o fewn y CiG' yw cynnig proses i ysgolion peilot er mwyn sicrhau bod eu cynllunio yn arloesol ac yn seiliedig ar gyd-destunau perthnasol a chyfoes a chwestiynau diwylliannol a chymdeithasol hanfodol, a hynny ar yr un pryd â datblygu sgiliau iaith a gwybodaeth ar y cyflymder a'r dyfnder priodol. Bwriad y cynllunio hwn hefyd yw ei gwneud hi'n brofiad cadarnhaol a deniadol i ddysgwyr ddysgu iaith a fydd, yn ei dro, yn annog mwy o ieithyddion yn CA4.

**Rhoi'r sgiliau, yr wybodaeth a'r profiadau i'n hymarferwyr i gynllunio a chyflwyno darpariaeth ieithoedd rhyngwladol.**
**Consortia Addysg Rhanbarthol a phartneriaethau i barhau i gynnig cymorth i ysgolion cynradd ac uwchradd y rhanbarthau baratoi at y CiG.**
Rhennir cynigion gan bartneriaid Dyfodol Byd-eang ag ysgolion yn rheolaidd a thrwy'r amrywiol sianeli sydd ar gael (Bwletin GwE/Twitter, Newyddlen DB-e GwE, e-bost) ac mae'r rhan fwyaf o ddiweddariadau yn cael eu rhoi ar Ganolfan Cefnogaeth GwE a gwefan GwE.

**Cydweithio â'r rhaglen Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA), Caban:**
Mae GwE wedi gwneud cysylltiadau â Chyfarwyddwyr y Rhaglen AGA ym Mhrifysgol Bangor er mwyn ehangu cynnig DB-e GwE i Athrawon Cysylltiol a chryfhau'r negeseuon a'r arbenigedd yn ymwneud â dysgu ac addysgu Ieithoedd Rhyngwladol, yn enwedig yn y cynradd, i sicrhau bod profiadau dysgu mewn ieithoedd yn ddifyr ac yn meithrin cariad gydol oes at ieithoedd.

**Darparu mwy o gyfleoedd i ddysgwyr gael profiad o ieithoedd yn yr ysgol gynradd, a chael profiad o ieithoedd ochr yn ochr â chyrsiau arholiad yn yr uwchradd.**
Rhennir cynigion gan bartneriaid Dyfodol Byd-eang ag ysgolion yn rheolaidd drwy'r amrywiol sianeli. Mae tîm DB-e yn gweithio'n agos iawn gydag ysgolion ac yn nodi rhai cynigion all fod yn fwy perthnasol i'w cyd-destun.

Taith: Rhannwyd manylion y rhaglen cysylltiadau Rhyngwladol a'u hyrwyddo. Anogir ysgolion i ddefnyddio'r cyllid i ddatblygu cysylltiadau ag ysgolion partner a chymryd rhan mewn amryfal brosiectau a datblygiad proffesiynol. Mae Tîm D-Be GwE mewn cysylltiad agos â Taith ac yn sicrhau bod manylion perthnasol a chyfredol, datblygiadau a'r

cynnig cymorth yn cael eu rhannu'n rheolaidd.

One World: cafwyd cyfarfod gyda chyfarwyddwr y rhaglen ym mis Medi 2022. Rhannwyd manylion ag ysgolion ynghylch cysylltu ag ysgolion o gwmpas y byd.

Hyfforddiant Power Language a Chysylltiadau Rhyngwladol - Mae D-Be GwE yn bwriadu gwneud cais am gyllid Taith, ar y cyd â PL, a threfnu prosiect i gyfuno cysylltiadau Rhyngwladol ag ysgolion a hyfforddiant trochi yn Sbaen, Ffrainc a'r Almaen yn 2023-2024. Manylion yr ysgolion a'r prosiect i'w cadarnhau chwarter nesaf.

**Darparu cymorth uniongyrchol i ysgolion uwchradd drwy brosiect Mentora Myfyrwyr ITM Prifysgol Caerdydd yn 2022-23.**
Mentora 22-23: Mae DB-e GwE wedi annog ysgolion i gofrestru eu diddordeb a thargedu ysgolion ble mae niferoedd yn isel, neu nad ydynt wedi ymwneud â'r rhaglen o'r blaen. Mae recriwtio yn addawol: Cynigiwyd lle i 21 ysgol yn y prosiect, gyda phedair o'r ysgolion hyn yn cymryd rhan mewn ffrwd newydd o'r enw Cysylltu Ieithoedd. Mae pedair ysgol ar y rhestr aros a chynigiwyd un sesiwn tiwtora tyrbo iddynt.

**CALU - LLDC**

**Cymorthyddion addysgu sydd newydd eu penodi**
Adolygwyd y systemau casglu data ar y cyd gyda'r Consortia eraill yn ystod Gorffennaf 2022. Penderfynwyd yn genedlaethol bod angen annog y cymorthyddion i gwblhau y 4 modiwl. Cyfathrebwyd hyn gyda phob cymhorthydd GwE oedd wedi cofrestru ar gyfer modiwl 1. Nid oes amser penodol i gwblhau'r hyfforddiant ond rydym yn monitro y cymorthyddion sy'n ymgymryd a'r modiwlau Ymsefydlu i sicrhau eu bod yn cwblhau y 4 modiwl yn gyson. Wrth gofrestru ar gyfer y rhaglen caiff y cymorthyddion eu hychwanegu i TEAM Ymsefydlu GwE fel man cyswllt gyda'r cydlynydd. Hysbysebwyd y rhaglen hon yn rheolaidd ym Mwletin GwE ac yn y Dosbarth Google i Gymorthyddion. Yn dilyn y gweithredu hyn, erbyn hyn mae cynnydd yn y niferoedd sy'n cwblhau'r 4 modiwl ac mae sylwadau cyffredinol dda wedi eu derbyn drwy'r ffurflenni adborth.

**Cymorthyddion addysgu wrth eu gwaith**
Adolygwyd cynnwys y rhaglen hon yn genedlaethol gyda chydlynwyr y Consortia eraill yn ystod mis Gorffennaf 2022. Erbyn hyn, yn ystod blwyddyn gyllidol 2022-23, mae 3 clwstwr wedi cwblhau y rhaglen 'Cymorthyddion wrth eu gwaith', ac mae'r rhaglen ar waith gyda 2 glwstwr arall. Mae 3 clwstwr pellach yn awyddus i gynnal yr hyfforddiant yn y flwyddyn academaidd hon, gydag 1 clwstwr arall wedi gwneud ymholiadau cychwynnol. Mae hyn yn gynnydd da ar nifer clystyrau y llynedd. Derbyniwyd yr adborth cadarnhaol gan fynychwyr.

Bydd y rhaglen ar gael yn rhanbarthol yn ystod tymor y Gwanwyn 2023. Bydd hyfforddiant yn cael ei gynnal wyneb yn wyneb mewn 4 man ar draws y rhanbarth – yr Wyddgrug, Llanelwy, Caernarfon / Bangor a Phorthmadog. Mae'r penderfyniad hyn yn dilyn adborth gan gymorthyddion a hwyluswyr hyfforddiant Cymorthyddion addysgu wrth eu gwaith ac adborth cymorthyddion Darpar CALU sydd wedi ail gydio mewn hyfforddiant wyneb yn wyneb.

**Darpar CALU**
*Cylch 4* – gorffennwyd y rhaglen yn Mis Mehefin. Cynigwyd 'syrjeri Myfyrdodau Dysgu Proffesiynol' i bawb oedd yn dymuno, er mwyn trafod eu MDP ac i drafod trefniadau asesu. Cafodd hyn effaith cadarnhaol iawn ar y cymorthyddion gyda llawer wedi gwella safon eu myfyrdodau dysgu proffesiynol yn dilyn y cyfarfodydd hyn.
Cynhaliwyd sesiwn adolygu ar 12/09/2022 ar gyfer ymgeiswyr asesiadau Cylch 4, a cynhaliwyd asesiadau Cylch 4 rhwng 17/10/2022 – 11/11/2022. Cafwyd 15 cais ar gyfer Asesiad CALU, ond 12 aeth ymlaen i gael eu hasesu y tro hwn, gydag 20% yn penderfynu derbyn asesiad yn y cylch nesaf oherwydd amgylchiadau personol.

Mae niferoedd Asesiadau Cylch 4 yn gyffredinol is yn Genedlaethol oherwydd salwch, amgylchiadau yn yr ysgol, diffyg profiad arwain dosbarthiadau, diffyg cymwysterau, neu oherwydd na gwblhawyd y rhaglen Darpar CALU. Mae'r sylwadau a dderbyniwyd gan gymorthyddion, hwyluswyr ac aseswyr yn nodi llawer gwell dealltwriaeth gan gymorthyddion o'r Safonau Proffesiynol a Cwricwlwm i Gymru yn dilyn yr hyfforddiant. Gwelwyd hefyd bod cymorthyddion wedi gwerthfawrogi cael cyd-weithio gyda chymorthyddion eraill ar draws y rhanbarth ac yn genedlaethol a bod eu sgiliau digidol wedi datblygu gyda'r sesiwn dechnegol wedi bod o gymorth mawr gyda hyn. Yr adborth a gawsom ar lafar oedd y byddai'n well gan y mwyafrif gael hyfforddiant wyneb yn wyneb.

*Cylch 5* – dechreuwyd Cylch 5 wyneb yn wyneb ym Medi 2022 (cyfrwng Cymraeg a Saesneg). Cafwyd 43 o geisiadau – derbyniwyd 39 i'r rhaglen a rhoddwyd cynnig i 2 gael lle ar Cylch 6, sy'n dangos niferoedd iach ar draws y rhanbarth.

Yn dilyn cynnal sesiynau diweddar Cylch 5 wyneb yn wyneb gwelwyd bod ymgysylltiad a boddhad cymorthyddion yn llawer uwch. Hefyd gwelir bod gan y cymorthyddion lawer gwell dealltwriaeth o sut i ysgrifennu eu myfyrdodau yn dilyn hyfforddiant wyneb yn wyneb.

*Cylch 6* - Hysbysebwyd ar gyfer Rhaglen Darpar CALU Cylch 6 yn Hydref/Tachwedd 2022. Derbyniwyd 28 cais, a cynigwyd lle i 25. Bydd y rhaglen yn dechrau wyneb yn wyneb ym mis Ionawr 2023.

**Statws CALU**
Asesiadau Cylch 3
Yn dilyn mynychu 8 sesiwn digidol Darpar CALU, bu i 82% o gymorthyddion Darpar CALU Cylch 3 wneud cais am asesiad statws CALU. Bu i 24 o Aseswyr gynnal yr asesiadau Cylch 3 hyn. Cymedrolwyd pob asesiad yn rhanbarthol a sampl o chwech yn genedlaethol.

Asesiadau Cylch 4
Yn dilyn mynychu 8 sesiwn ddigidol Darpar CALU, bu i 46% o gymorthyddion Darpar CALU Cylch 4 wneud cais am asesiad statws CALU. Bu 12 o Aseswyr yn cwblhau asesiadau Cylch 4. Cymedrolwyd pob asesiad yn rhanbarthol a sampl o chwech yn genedlaethol.

Roedd y rhai nad aeth ymlaen ar gyfer asesiad y tro hyn, yn nodi nad oeddent wedi llwyddo i gael digon o brofiad addysgu dosbarth oherwydd effaith Covid. Bydd modd i'r rhain dderbyn asesiad gyda chymorthyddion Cylch 5, 6 neu 7 pan yn gymwys. Roedd amryw o'r cymorthyddion hyn hefyd wedi gadael y byd addysg ac roedd asesiadau yn is na'r arfer ar draws pob Consortia.

Mae sylwadau gwerthuso Cylch 4 yn gadarnhaol ac yn tystio i werthfawrogiad y cymorthyddion o'r cyfle hwn i ddatblygu'n broffesiynol:
*"Mwynheais y cwrs yn fawr, gyda'r cydlynwyr yn creu hwyl a diddordeb. Cefais fy ysbrydoli ac mae llawer o bethau byddaf yn eu cofio a'u defnyddio maes o law i ysbrydoli eraill. Gwych oedd gallu gwrando ar gymaint o safbwyntiau darparu CALU eraill a dysgu ganddynt".*
*"Rwyf wedi gallu meithrin hyder yn fy rôl bresennol a datblygu'n broffesiynol, fel y gallaf barhau i gefnogi'r dysgwyr yn yr ysgol hyd eithaf fy ngallu.*
*"Mae'r rhaglen wedi fy helpu i arwain y dysgu yn fy nosbarth a'm grwpiau ymyrraeth yn fwy effeithiol. Mae wedi gwella deilliannau dysgwyr a'u hagweddau tuag at ddysgu."*
*"Roedd fy aseswr yn wych, yn amyneddgar ac yn rhoi sicrwydd am y broses."*

**Aseswyr CALU**
Cynhaliwyd hyfforddiant diweddaru Cenedlaethol ar 3/10/22 dros TEAMS, a sesiwn galw i mewn i Aseswyr GwE ar 10/10/2022. Derbyniwyd adborth cadarnhaol iawn gan aseswyr CALU i'r system newydd o asesu ymgeiswyr.

**Cyflwyniad i Cwricwlwm i Gymru**
Crëwyd hyfforddiant newydd ar y cyd gyda'r Consortia eraill, er mwyn darparu cyflwyniad i gymorthyddion ar Cwricwlwm i Gymru. Rhannwyd yr hyfforddiant dros 2 sesiwn, ac roedd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Darparwyd y sesiynau yn genedlaethol ar amrywiaeth o amseroedd, fel bod modd rhyddhau cymorthyddion.

Addaswyd yr hyfforddiant er mwyn creu hyfforddiant unigryw ar gyfer ysgolion cynradd GwE ac erbyn hyn rydym wedi cyflwyno'r hyfforddiant i 219 o gymorthyddion.

**Y Gymraeg**

**Datblygu'r gefnogaeth i ysgolion i hyrwyddo buddion dwyieithrwydd a manteision addysg cyfrwng Cymraeg**
Cynhelir cyfarfodydd cyson gyda swyddogion yr Awdurdodau Lleol fesul awdurdod er mwyn sicrhau eglurder gweithredu mewn perthynas â'r Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA). Ymgorfforir bwriadau Timau Ymgynghorol y Gymraeg i gynllun busnes GwE er mwyn cryfhau'r cyd-ddealltwriaeth o gynnig GwE a'r awdurdodau. Mae'r drefn o gyfarfod fesul awdurdod yn profi yn ddull effeithiol ac adeiladol. O ran argymhellion Estyn sy'n cyfeirio at y Gymraeg, mae proffil ysgolion yn cael ei ddiweddaru'n gyson ynghyd â'r gefnogaeth sydd ei angen. Mae aelodau o dîm GwE yn mynychu fforymau iaith ac is-bwyllgorau cysylltiedig yr Awdurdodau Lleol er mwyn cyfrannu tuag at gyd-ddealltwriaeth o dargedau CSGA pob awdurdod. Mae gweithgor cenedlaethol wedi ei sefydlu er mwyn datblygu cefnogaeth a dysgu proffesiynol penodol ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg.

**Cefnogi i ddatblygu twf darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ysgolion cyfrwng Saesneg**
Mae canllaw hunanwerthuso'r Gymraeg wedi ei rannu mewn fforymau dirprwyon a phenaethiaid. Bydd adolygiad pellach o'r ddarpariaeth drwy GwE ar gyfer ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg yn cael eu cynnal mewn ysgolion sy'n arddangos arfer llwyddiannus ac sydd wedi gwneud cynnydd cryf mewn sefydlu a chynnal ethos Gymreig. Mae ceisiadau am gefnogaeth i'r sector uwchradd cyfrwng Saesneg yn cynyddu yn unol â'r cynlluniau cefnogaeth drwy'r YCG; mae hyn yn cynnwys ymestyn agweddau o Cymraeg Campus i hyrwyddo dwyieithrwydd yn yr ysgol. Mae Rhifyn 1 o gylchlythyr 'O'r Stordy' i adrannau Cymraeg ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg wedi ei rannu diwedd tymor yr hydref sydd yn rhoi gwybodaeth a dolenni allweddol am adnoddau, gwybodaeth, digwyddiadau a rhwydweithiau cefnogol. Mae gweithgor cenedlaethol wedi ei sefydlu er mwyn datblygu cefnogaeth ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg. Yn ystod ail hanner tymor yr hydref mae'r gweithgor wedi cyfarfod ac yn parhau i gynllunio adnoddau a dysgu proffesiynol i gefnogi'r Fframwaith newydd. Mae'r cais i ehangu Ein Llais Ni i ysgolion cyfrwng Saesneg wedi ei gyflwyno a'i gymeradwyo gan y llywodraeth.

**Datblygu cynnig proffesiynol ar gyfer y Gymraeg wrth baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru (3-16) a chryfhau'r cydweithio/trosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd**
Cyflwynodd aelodau o dîm GwE y Gymraeg a llythrennedd y Gymraeg fel elfen fandadol o'r CiG yn y rhwydwaith ranbarthol yn ogystal â mewn cyfarfodydd lleol. Mae hyn wedi arwain at godi ymwybyddiaeth o'r angen i gynllunio tuag at gryfhau'r ddarpariaeth i gwrdd â'r gofyn mandadol. Mae cadeiryddion y rhwydwaith Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu wedi rhaeadru'r wybodaeth gyda'u grwpiau lleol. Cynhaliwyd 4 cyfarfod gyda fforymau penaethiaid cynradd ac uwchradd mewn cyd-weithrediad â'r ALl er mwyn amlygu'r Gymraeg fel elfen statudol o'r CiG. Mae hyn yn fodd o godi proffil y Gymraeg ymysg y penaethiaid ac yn gyfle i amlygu'r angen i roi'r Gymraeg yn rhan o ddyluniad eu cwricwlwm. Cyflwynwyd y wybodaeth berthnasol i'r holl YCG mewn cyfarfod tîm llawn.

O ran y sector uwchradd, mae gwefan i gefnogi adrannau Cymraeg uwchradd (cyfrwng Cymraeg a dwyieithog) wedi ei llunio ar gyfer rhannu gwybodaeth am ddatblygiadau rhanbarthol a chenedlaethol. Mae hyn yn ddull effeithiol a chyfoes o rannu diweddariadau ac yn hylaw ar gyfer cynnwys dolenni perthnasol i'r penaethiaid adran allu rhaeadru ymhellach. Derbynnir ceisiadau ar gyfer cefnogi ysgolion penodol drwy'r ALl (uwchradd cyfrwng Saesneg).

**Datblygu'r medrau:**
**Ein Llais Ni**
Mae 80+ o athrawon wedi cyflwyno'r astudiaethau achos sydd yn rhoi sylw i effaith ar yr addysgu a'r dysgu ac yn ymdrin ag amrywiol themâu. Mae'r cais ar gyfer ymestyn y gwaith wedi ei gyflwyno i Llywodraeth Cymru ac wedi bod yn llwyddiannus. Lluniwyd adnodd Dysgu Proffesiynol ar ffurf gwefan www.einllaisni.cymru er mwyn coladu'r adnoddau. Mae adroddiad ymchwil Prifysgol Bangor wedi ei gwblhau er mwyn gwerthuso effeithiolrwydd y prosiect gyda golwg ar adnabod heriau penodol a wynebir o fewn ysgolion o ran y ffordd orau o gael plant i ddefnyddio eu Cymraeg a'r Sgiliau sy'n gysylltiedig a'i defnyddio. Mae Myfyriwr o Brifysgol Bangor wedi cydweithio'n agos gyda'r Athro Enlli Môn Thomas ac wedi ymchwilio i'r maes. Mae hyn wedi arwain at gynhyrchu llyfryn ar gyfer ymarferwyr sy'n gyfeirlyfr cyflym i athrawon ar ddatblygu sgiliau llafaredd plant a phobl ifanc – O Enau Plant. Mae adborth cychwynnol i'r adnodd yn gadarnhaol iawn.

Cynhaliwyd digwyddiad 'Ein Llais Ni: Datblygu Siaradwyr y Dyfodol' ar 22/11/2022. Cafwyd cyfraniad gwerthfawr gan ysgolion fu'n rhan o'r gwaith gyda chynrychiolaeth o Lywodraeth Cymru, Bwrdd Rheoli Ein Llais Ni, Prifysgol Bangor (darlithwyr a myfyrwyr), Swyddogion Awdurdodau Lleol, athrawon o ysgolion presennol y prosiect ac eraill sydd â diddordeb. Cafwyd adborth cadarnhaol dros ben.

**Darllen:**
Mae'r cyd-weithio cadarn gyda Phrifysgol Bangor ar gyfer lledaenu prosiect 'RILL' yn parhau. Bydd gwahoddiad i ysgolion ymuno mewn gwaith ymchwil pellach sydd wedi ei gyllido drwy Llywodraeth Cymru. Mae darpariaeth dwyieithog wedi ei gynllunio ar gyfer tridiau o raglen Dysgu Proffesiynol ar gyfer lleoliadau cynradd ac uwchradd. Y bwriad yw archwilio a datblygu gwybodaeth bynciol, strategaethau ar gyfer cyfoethogi'r ddarpariaeth a mewnbwn gan ystod eang o arbenigwyr ar ddatblygu darllen er pleser a medrau darllen. Cynhaliwyd hyfforddiant clwstwr ar ddatblygu mwynhad at ddarllen ac uwch sgiliau darllen. Roedd y sesiwn yn cynnwys modelu arfer llwyddiannus gan ysgol er mwyn ymgorffori'r uwch sgiliau darllen i gynllunio trawsgwricwlaidd bwriadus.

**Llythrennedd:**
Rhoddwyd cyflwyniad yn y rhwydwaith ranbarthol uwchradd ar yr elfen fandadol o ddatblygu llythrennedd wrth gyflwyno'r CiG sydd wedi arwain at godi ymwybyddiaeth o'r angen i'w gynnwys yn nyluniad cwricwlwm pob ysgol.

Mae’r cyfarfodydd cychwynnol o’r cydlynwyr clwstwr ymhob awdurdod lleol wedi amlygu’r angen i gryfhau’r cyswllt cynradd-uwchradd ymhellach gan sicrhau fod y cynlluniau clwstwr 2022-23 yn rhoi sylw pwrpasol i ddatblygu’r cyd-weithio yma.

**Datblygu'r defnydd anffurfiol o'r Gymraeg - 'Siarter Iaith' a 'Cymraeg Campus'**
Mae’r Cydlynwyr Siarter Iaith yn parhau i gefnogi’r clystyrau i gynllunio ar gyfer y hyrwyddo’r Gymraeg yn anffurfiol. Mae pob awdurdod wedi rhannu’r hyn weithiodd yn dda a’r heriau yn ystod 2021-22 gan nodi’r angen i gryfhau’r cyswllt cynradd-uwchradd fel nod pendant i’r dyfodol. Cynhaliwyd cyfarfod cenedlaethol er mwyn trafod a chytuno ar gyfeiriad strategol i’r Fframwaith Siarter Iaith. Cafwyd trafodaethau pwrpasol yng nghyd-destun yr argymhellion a nodwyd yng ngwerthusiad 2020 o’r Siarter Iaith: cyd-weithio cenedlaethol er mwyn gwneud defnydd effeithiol o’r cyllid, diffinio bwriad y Siarter Iaith (gan gynnwys Cymraeg Campus), codi statws y Fframwaith a’i hyrwyddo, yr heriau a datrysiadau posib ar gyfer sicrhau defnydd effeithiol a phwrpasol ohono, bwriad Ll.C i gyflwyno rhaglen ieuenctid newydd. Mae cyfarfod cenedlaethol pellach wedi’i drefnu ar gyfer dechrau Chwefror 2023.

**Hyrwyddo proffil y Gymraeg ymysg arweinwyr wrth baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru a tharged Miliwn o Siaradwyr LlC.**
Rhannwyd adnodd drwy Bwletin GwE sef rhestr chwarae sydd wedi ei addasu o adnodd rannwyd gan Consortiwm Canolbarth y De er mwyn cefnogi arweinwyr ysgolion i adrodd yn gywir ar sgiliau iaith Gymraeg ymarferwyr yn erbyn y Fframwaith Cymhwysedd Iaith Gymraeg wrth gwblhau Cyfrifiad Blynyddol o’r Gweithlu Ysgolion (CBGY) ac i gynllunio dysgu proffesiynol addas i ddatblygu cymhwysedd iaith pob ymarferydd yn strategol.

Cynhaliwyd dau gyfarfod gyda chymdeithion o’r Academi Arweinyddiaeth, AS y rhanbarthau, Swyddogion LlC ac Estyn i drafod arweinyddiaeth a’r Gymraeg. Mae hyn wedi arwain at gyd-ddealltwriaeth o ddarpariaeth ar draws Cymru ar gyfer yr amrywiaeth o fewn y maes.

Bydd cyfarfod pellach er mwyn cyd-lunio *‘toolkit’* datblygu arweinyddiaeth y Gymraeg gyda’r bwriad o gynnig cyfres o gwestiynau i arweinyddion eu hystyried wrth arfarnu eu taith i ddatblygu’r Gymraeg yn eu hysgol. Y nod yw i’w ddefnyddio ochr yn ochr â’r adnodd cenedlaethol: gwerthuso a gwella wrth hunanarfarnu a gwella er mwyn sicrhau bod datblygiad y Gymraeg o fewn pob ysgol yn cael sylw penodol. Mae’r ‘toolkit’ wedi’i rannu i ddau faes sy’n cyd-fynd â meysydd yr adnodd cenedlaethol, sef Arweinyddiaeth a Dysgu ac Addysgu a’r Cwricwlwm. O dan pob maes, ceir cwestiynau trafod ychwanegol i ysgogi arweinyddion i ystyried nifer o feysydd penodol o ran y Gymraeg.

Prosiect ‘Dylunio ar gyfer ieithoedd CiG’ - mae arweinwyr nifer o Adrannau y Gymraeg ysgolion uwchradd y rhanbarth yn rhan o’r prosiect hwn ar y cyd ag arweinwyr adrannau ieithoedd eraill Maes Dysgu a Phrofiad - Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu. Prosiect dylunio cwricwlwm ar gyfer ieithoedd yn benodol yw hwn, dan arweiniad yr Athro Jenny Eddy o Coleg Queens, Efrog Newydd. Bu cryn ddiddordeb yn y prosiect a thrafodaethau â’r Brifysgol / Caban ynglŷn â’r posibilrwydd o gyflwyno’i egwyddorion yn rhan o arlwy’r cyrsiau TAR.

**Datblygu’r gweithlu Cymraeg a chyfrwng Cymraeg - sgiliau iaith y gweithlu addysg**
Mae perthynas gadarn ac adeiladol iawn rhwng GwE, Canolfan Bedwyr, Llywodraeth Cymru a’r Awdurdodau Lleol sy’n arwain at gryfhau’r ddarpariaeth i gefnogi ymarferwyr i ddatblygu eu sgiliau iaith. O ganlyniad i’r trafodaethau hyn, cadarnhawyd y cwrs Cymraeg mewn Blwyddyn ar gyfer Medi 2022. Yn ogystal, mae cytundeb wedi bod i gynnal rhan 2 a 3 o’r cyrsiau Sabothol tymhorol yn 2023. Mae 14 wedi bod yn mynychu’r cwrs, a 12 ychwanegol yn cychwyn y cwrs Rhan 2 (Canolradd) ym mis Ionawr.

Mae’r cyswllt cryf rhwng GwE a’r Coleg Dysgu Cymraeg Cenedlaethol yn sicrhau fod cyfle i hyrwyddo cyrsiau ar-lein ar gyfer ymarferwyr. Ceir cyfle hefyd i roi mewnbwn i’r offeryn ar gyfer darganfod cwrs ar lefel briodol sy’n cael ei ddatblygu. Mae 5 aelod o staff GwE wedi mynychu cwrs wythnos yn Nant Gwrtheyrn ac o ganlyniad yn datblygu’n fwy hyderus i siarad Cymraeg. Mae 7 aelod o staff GwE yn parhau i ddilyn y cwrs Canolradd Dysgu Cymraeg drwy’r cynllun Cymraeg Gwaith, ac wedi cael cyfle eto ddechrau Rhagfyr i fynychu cwrs preswyl yn Nant Gwrtheyrn. Yn ogystal mae o leiaf 6 aelod o staff GwE o’r newydd wedi ymrwymo i'r Cwrs Mynediad ers mis Medi.

Mae GwE yn parhau i hyrwyddo darpariaeth y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ac wedi derbyn ystadegau yn nodi ymrwymiad ysgolion y rhanbarth i'r hyfforddiant sydd ar gael. Fel rhan o’r “chwilotwr” ar ei safle we, mae’r Ganolfan wedi ychwanegu opsiwn i ymarferwyr addysg nodi eu diddordeb mewn dysgu Cymraeg/datblygu eu sgiliau Cymraeg trwy’r Cynllun Sabothol. Derbynnir manylion yr ymarferwyr hynny sydd wedi nodi eu diddordeb hyd yma fel bod yr ALl yn ymwybodol ohonynt ac yn medru asesu eu haddasrwydd neu gynnig cefnogaeth amgen.

| SAFON UWCH |
|---|
| **Datblygu arweinwyr effeithiol**<br>Mae'r Rhaglen Hyfforddiant Arweinyddiaeth Ganol (Ôl-16) yn mynd rhagddo (2 sesiwn o 4 wedi eu cynnal), bellach gydag opsiwn achrediad ILM Lefel 5. Mae 6 Pennaeth 6ed dosbarth o'r rhanbarth yn dilyn y cwrs cenedlaethol.<br><br>Cynhaliwyd cyfarfodydd cyntaf rhwydweithiau Penaethiaid 6ed dosbarth ble chafwyd y cyfle i rannu arferion llwyddiannus, mynegi a thrafod pryderon a chyfrannu at arlwy'r gynhadledd.<br><br>Mae Cynhadledd Arweinyddiaeth ÔL-16 GwE wedi ei bennu ar gyfer 03/03/2023 yng Nghanolfan Fusnes Conwy â'r rhaglen wedi ei llunio ar sail gofynion y Penaethiaid 6ed dosbarth. Bydd yn cynnwys prif anerchiad gan Vanessa Jenkins (Trauma Informed Schools) ar gefnogi myfyrwyr ond sicrhau hunan-ofal hefyd; gweithdai gan Alps, TIS, Esgol, Academi Seren a Phenaethiaid 6ed y rhanbarth yn rhannu arferion llwyddiannus ar ehangu gorwelion y myfyrwyr a phrofiadau mewn arolwg Estyn.<br><br>**Sicrhau darpariaeth dysgu ac addysgu ôl-16 o ansawdd uchel:**<br>Mae rhaglen hyfforddiant addysgu effeithiol ôl-16 ar gyfer ANG wedi ei gynllunio a'i ddarparu ar y cyd gyda'r consortia eraill.<br><br>**Cefnogi ysgolion i fonitro cynnydd myfyrwyr ôl-16:**<br>Defnydd ALPs ar lefel ranbarthol: mae rhai ysgolion yn gwneud defnydd effeithiol o Alps i dracio cynnydd dysgwyr yn ystod y flwyddyn ysgol. Mae hyfforddiant ALPs ar-lein wedi ei ddarparu. 3 sesiwn olynol: Cyflwyniad i Alps; Defnyddio Alps i olrhain cynnydd ar lefel pynciol a dysgwr yn effeithiol; Defnyddio Alps Connect yn effeithiol i ddadansoddi canlyniadau a chynllunio gwelliant. Mae Gweithdy Alps hefyd wedi ei gynllunio ar gyfer y Gynhadledd Arweinyddiaeth Ôl-16 y rhanbarth ar 03/03/2023 er mwyn ysgogi defnydd tymhorol o'r offeryn i dracio cynnydd mewnol mewn ysgolion.<br><br>**Cefnogi ysgolion i ddarparu amrediad o ddulliau i hyrwyddo lles eu dysgwyr:**<br>Mae cyfarfodydd Rhwydwaith Penaethiaid 6ed dosbarth wedi rhoi cyfleoedd i rannu arferion da VESPA/Bloom a mynegi unrhyw bryderon cyffredinol am les dysgwyr. Bydd TIS yn darparu prif anerchiad a gweithdy yn ystod y Gynhadledd Arweinyddiaeth Ôl-16 y rhanbarth. Mae trefniadau ar y gweill i gynnig cyfres o weithdai hyfforddiant VESPA ar-lein ar ddechrau tymor yr Haf 2023. |
| **YMCHWIL A GWERTHUSO** |
| **Prosiect Ymchwil Gwrth-fwlio KiVa**<br>Yn rhan o ymdrech barhaus GwE i seilio polisïau ac arferion ar ddulliau sy'n fwy seiliedig ar dystiolaeth, gwnaethpwyd y prosiect hwn gydag ysgolion yng ngogledd Cymru i werthuso effeithiolrwydd a chost-effeithiolrwydd rhaglen gwrth-fwlio Kiva o ran lleihau nifer yr achosion o fwlio sy'n cael eu hadrodd gan blant yn ysgolion y DU o gymharu â'r drefn arferol. Mae GwE yn gyd-ymgeisydd ar y prosiect ymchwil hwn ar raddfa fawr i arfarnu effaith rhaglen gwrth-fwlio KiVa mewn ysgolion cynradd. Yn dilyn atal y prosiect oherwydd pandemig COVID-19, mae 30 ysgol yng ngogledd Cymru wedi'u recriwtio ar gyfer yr astudiaeth. Dewiswyd pymtheg o'r ysgolion ar hap i dderbyn KiVa yn 2021-22, a'r pymtheg arall yn 2022-23. Cafodd yr ysgolion ymyrraeth hyfforddiant yn nhymor yr Haf 2021, ac maent wedi bod yn cyflwyno KiVa er mis Medi 2021. Yn 2022-23, darperir hyfforddiant a deunyddiau cymorth fel bod y 15 ysgol a reolir yn gallu derbyn Kiva.<br><br>Recriwtiwyd 30 o ysgolion cynradd GwE ym mis Hydref 2019 yn rhan o grŵp o 116 o ysgolion ar draws y DU. Detholwyd ysgolion ar hap i naill ai gael hyfforddiant i gyflwyno KiVa, neu i fod yn ysgol a reolir i barhau â'r ddarpariaeth ddyddiol. Aeth yr ysgolion ymyrraeth ati i gyflwyno KiVa o fis Medi 2021 hyd Gorffennaf 2022, ac mae'r ymchwilwyr yn gobeithio cael canfyddiadau amodol deilliannau'r ddau grŵp ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r papur hwn yn brotocol astudio ble mae'r tîm ymchwil yn disgrifio'r treial yn fanwl i ymchwilwyr eraill. Gellir gweld canfyddiadau llawn yr astudiaeth drwy lawr lwytho'r papur agored gan ddefnyddio'r ddolen hon:<br>The UK stand together trial: protocol ar gyfer hap-dreial clwstwr aml-ganolfan, wedi'i reoli, i werthuso effeithiolrwydd a chost-effeithiolrwydd KiVa o ran lleihau bwlio mewn ysgolion cynradd<br><br>**Prosiect Parodrwydd Cadarnhaol ar gyfer Dysgu (PR4L): Gwyddonwyr Ymddygiadol mewn Clystyrau**<br>Cynnig yw hwn i gael gwyddonydd ymddygiadol i weithio gyda grŵp gwahanol o ysgolion - neu glwstwr - yn ystod |

| |
|---|
| bob tymor yn 2022-23. Nod y prosiect hwn yw darparu hyfforddiant a mentora personol i athrawon yn y dosbarth er mwyn rhoi hyder a chysondeb iddynt wrth roi sylw i ymddygiad trafferthus yn y dosbarth.<br><br>Anogir athrawon a staff ysgolion i adnabod a chydnabod ymddygiad cadarnhaol myfyrwyr ac ymateb yn gyson i ymddygiad heriol. Nod y prosiect yw canolbwyntio ar ysgolion sydd â phroblemau parhaus gyda naill ai tarfu ar lefel isel ac/neu staff sydd arnynt eisiau gwybod mwy am strategaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth (y cyntaf o ddewis, i ddangos effaith). Er enghraifft, cyfarfod â staff i wella'u dealltwriaeth o strategaethau rheoli ymddygiad haen 1 (cyffredinol). Cynhaliwyd trafodaethau cychwynnol ag arweinwyr craidd GwE, a chadarnheir yr ysgolion sydd wedi ymgeisio erbyn diwedd mis Ionawr 2023 o ran gwaith i'w gynnal gydag ysgolion yn nhymor yr Haf a Hydref 2024.<br><br>**Ymchwil Darllen ADY KESS**<br>Dyma gynnig i hyd at 4 ysgol AAA yn rhanbarth ddwyreiniol KESS i gydweithio â ni ar brosiect MRes KESS2 wedi'i ariannu, o fis Hydref 2022 - Mehefin 2023. Bydd hyn yn cynnwys Prifysgol Bangor, GwE ac ysgolion AAA yn y rhanbarth. Bydd y myfyriwr MRes a goruchwylwyr yn gweithio'n agos gyda'r ysgolion i gynnal archwiliad ac adolygiad cyflym o'r dulliau asesu ac ymyrraeth a ddefnyddir, byddant yn edrych ar brofiadau a barn staff o'r ddarpariaeth gyfredol, myfyrio ar y canfyddiadau, yr arferion presennol, a syniadau am sut i'w datblygu ymhellach a'u gwerthuso. Y gobaith yw y bydd y prosiect cydweithredol hwn yn ein galluogi ni i ddatblygu arferion cryf ymhellach a'u gwerthuso, yn ogystal ag adnabod meysydd i ddatblygu'r ddarpariaeth er mwyn helpu i wella deilliannau darllen i ystod eang o ddysgwyr. Cynhaliwyd trafodaethau cychwynnol ag arweinwyr craidd GwE - cadarnheir yr ysgolion a fydd yn cymryd rhan erbyn diwedd mis Ionawr 2023.<br><br>**Economeg Iechyd a Chyllidebu Rhaglenni a Dadansoddi Ymylol (PBMA)**<br>Nod y prosiect yw cefnogi a datblygu prosesau penaethiaid ar gyfer gwneud penderfyniadau gan ddefnyddio methodoleg gwneud penderfyniadau effeithiol ac ymchwilio a yw ysgolion yn cynhyrchu data effeithiolrwydd a dilysrwydd cymdeithasol cadarn i gefnogi ymyraethau yn yr ysgol ac ystyried gwerth am arian. Y nod hefyd yw gwerthuso effaith y prosiect drwy gadw golwg ar newidiadau yn y ddarpariaeth. Gwerthuso sut mae Penaethiaid yn defnyddio adnodd gwneud penderfyniadau. Cynhaliwyd trafodaethau cychwynnol ag arweinwyr craidd GwE, ac mae'r ysgolion a ymgeisiodd wedi cadarnhau eu bod am gymryd rhan. Aeth yr ysgolion hyn i'r afael â'r gwaith o fis Rhagfyr 2022. |
| **AGA** |
| **Cefnogi ysgolion i ymateb i'r daith ddiwygio addysg, gyda phwyslais cryf ar addysgeg, addysgu effeithiol ac ymchwil weithredu.**<br>**Cefnogi cydweithredu ar draws sectorau i sicrhau cysondeb mewn arferion addysgu effeithiol i gefnogi cyfnodau pontio dysgwyr**<br>**Datblygu sgiliau iaith y gweithlu addysg er mwyn ymestyn y gyfran sydd yn gallu addysgu a gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg.**<br>**Parhau i gefnogi cydweithredu ar bob lefel o arweinyddiaeth er mwyn sicrhau bod pob arweinydd yn cyflawni ei botensial.**<br>**Parhau i weithredu strategaethau rhanbarthol i blant sy'n fregus i ddysgu, gan ganolbwyntio ar gynhwysiant, lles emosiynol, presenoldeb ac unrhyw anghenion dysgu ychwanegol i gael effaith gadarnhaol ar eu cynnydd a'u lles.**<br>**Parheir i ddatblygu ein gwaith mewn clystyrau, cynghreiriau a phontio rhwng sectorau i wella ansawdd a datblygu agenda Cwricwlwm i Gymru.**<br><br>Cefnogir ANG yn gyson ar draws y rhanbarth, gan gynnwys trwy eu mynediad at ddysgu proffesiynol. Darparwyd rhaglen lawn o hyfforddiant ANG cenedlaethol, (chwe sesiwn gwahanol), a chyfoethogir hyn ymhellach gyda hyfforddiant rhanbarthol. Sicrheir cysondeb a chydweithredu trwy gyfarfodydd rheolaidd gyda chyd-weithwyr consortia yn genedlaethol, a rhennir negeseuon allweddol yn rhanbarthol mewn cyfarfodydd lleol rheolaidd. Gwneir cynnydd da gyda'r rhaglenni hyfforddiant ANG, GA a MS cenedlaethol.<br><br>Cynhaliwyd cyfarfodydd achredu ac mae Cyngor y Gweithlu Addysg wedi darparu rhagor o arweiniad a chamau nesaf. Cyflwynir rhaglenni ADY AGA yn llawn ym mis Gorffennaf 2023 i'w hachredu o fis Medi 2024; mae'n bosib mai hon fydd rhaglen ADY AGA gydnabyddedig gyntaf Cymru. Mae cyfarfodydd efo LlC a Chyngor y Gweithlu Addysg yn parhau er mwyn cael cyngor perthnasol a sicrhau bod rhaglenni yn cyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer dysgwr bregus ac ADY. Ffocws dogfennau a ddatblygir ar hyn o bryd yw gwneud y rhaglenni yn gydnaws â'r |

meini prawf achredu newydd (sydd bellach yn cynnwys ADY) a'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth.

Cryfheir cysondeb rhanbarthol trwy gydweithredu cadarn rhwng GwE a CaBan, sy’n sicrhau dull cyffredin o ran ymchwil, dysgu proffesiynol a gwell integreiddiad fel sefydliad sy'n dysgu ar draws y rhanbarth. O ganlyniad i ddulliau diwylliannol cyson y ddau sefydliad, caiff athrawon fynediad at uwchsgilio cyfoes ac ystyrlon wrth iddynt symud ymlaen yn eu gyrfa, ac mae rhaglenni a dysgu yn benodol i anghenion unigryw y rhanbarth, yn ogystal ag ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol. Mae hyn yn helpu i gadw athrawon, yn y pendraw. Mae cysoni a chydweithredu pellach yn parhau gyda staff allweddol a dysgu proffesiynol rhwng staff allweddol. Mae 12 o aelodau staff GwE wedi cyflwyno sesiynau ar raglenni AGA CaBan y tymor hwn; roedd y rhain yn cynnwys darlithoedd a gweithdai ar-lein ac wyneb yn wyneb, a phrif ddarlith. Ffocws y rhain oedd addysgeg, y Cwricwlwm i Gymru, Hawliau Dynol a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg, sgiliau digidol, dylunio a chynllunio cwricwlwm, llythrennedd a rhifedd a phontio. Mae sesiynau eraill ar y gweill ar gyfer tymor y Gwanwyn. Mae'r rhain yn cysoni dysgu proffesiynol i fyfyrwyr â chynnig dysgu proffesiynol rhanbarthol GwE (a'r Cynnig Cenedlaethol yn y pendraw). Mae'r sesiynau hyn i gyd yn cyrraedd myfyrwyr AGA yn y Brifysgol.

Mae cyfleodd pellach ar y gweill ar gyfer dysgu proffesiynol a phrosiectau ar y cyd gan gynnwys Ein Llais Ni - y bwriad yw cynnwys sesiynau i fyfyrwyr i sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r prosiect ac yn gallu rhoi'r camau ar waith. Cydweithiwyd i ddatblygu Ieithoedd Rhyngwladol, yn arbennig, yn y rhaglenni Cynradd, gan gynnwys datblygu Ymchwil ac addysgeg iaith.

Bu staff GwE yn rhan o gyfarfodydd sicrhau ansawdd CaBan ac mae cyfleoedd ar y gweill trwy gydol y flwyddyn academaidd i sicrhau ansawdd a chyfoethogi ansawdd ar y cyd, er enghraifft astudiaethau gwersi a monitro mewn ysgolion arweiniol. Mae hyn yn cynnwys gweithio gydag ysgolion yn ogystal â staff CaBan a GwE.

Gall myfyrwyr gymhwyso fel athrawon mewn amrywiol ffyrdd, gan gynnwys rhaglenni seiliedig ar waith drwy'r Brifysgol Agored yn ogystal â'r llwybr traddodiadol i AGA. Mae'r cydweithio â'r Brifysgol Agored yn parhau trwy gyfarfodydd partneriaeth rheolaidd. Mae'r ddarpariaeth wedi'i diweddaru a'i gwella i gynnwys cyllid pellach i fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg mewn lleoliadau uwchradd. Mae rhannu gwybodaeth wedi digwydd ac mae gweithgarwch pellach ar y gweill i ddiweddaru rhanddeiliaid.

Parheir i gydweithio i wella darpariaeth y Gymraeg, megis drwy brosiect llafaredd Ein Llais Ni. Roedd bron i gant o ysgolion cyfrwng Cymraeg y rhanbarth yn rhan o gam cyntaf y prosiect hwn, gan gynnwys rhai ANG, a rhyw ugain o fyfyrwyr ar eu trydedd flwyddyn yn ein digwyddiad Ein Llais Ni ym mis Tachwedd 2022.

**DIGIDOL**

**Datblygu arweinyddiaeth ddigidol mewn ysgolion rhanbarthol**

Mae’r rhaglen hwyluswyr digidol yn parhau i ddatblygu. Cynhaliwyd cyfarfod unigol gyda phob hwylusydd yn ystod mis Tachwedd i drafod cynnydd y rhaglen ym mhob clwstwr. Mae 77% o glystyrau’r rhanbarth wedi ffurfio gweithgor dysgu digidol i arwain yr agweddau strategol o’r maes. Mae 67% o’r clystyrau wedi llwyddo i lunio gweledigaeth a rennir gan bob ysgol o’r clwstwr, sy’n cysoni amcanion pob ysgol ac yn gosod sylfaen i unrhyw waith cydweithio. Mae 60% o glystyrau’r rhanbarth wedi sefydlu trefn ble mae’r hwylusydd digidol yn adrodd yn ôl yn rheolaidd i benaethiaid y clwstwr. Rydym yn hyderus fod y rhaglen wedi symud yn ei blaen yn llwyddiannus. Byddwn yn cynnig mwy o gefnogaeth unigol i hwyluswyr digidol / clystyrau sydd yn cael trafferthion sefydlu gweithgor er mwyn sicrhau fod y gwaith yn mynd rhagddo yn effeithiol. Mae nifer o glystyrau wedi llwyddo i wreiddio’r rhaglen yn llwyddiannus yn ei clwstwr ac yn enghraifft o weithgorau sy’n gweithredu effeithiol yn ystod camau cyntaf y rhaglen.

**Darparu rhaglen o ddysgu proffesiynol i ddatblygu cyfleoedd i godi safonau mewn cymhwysedd digidol drwy Hwb.**

Mae’r cynnig dysgu proffesiynol digidol yn edrych yn llwyddiannus hyd yma, gyda 378 o ymarferwyr wedi cofrestru i ddod i sesiynau hyfforddi. Cynhaliwyd hyfforddiant trin data, modelu a chymhwysedd digidol yng ngham cynnydd 1 a 2 yn ystod chwarter 3. Cynhaliwyd ail ddiwrnod rhaglen hyfforddiant arweinyddion digidol yn ystod chwarter 3. Bwriad y rhaglen hon yw sicrhau fod capasiti arweinyddol yn cael ei adeiladu o fewn y clystyrau a bod mwy o unigolion wedi ei uwch-sgilio er mwyn cefnogi gwaith yr hwyluswyr digidol. Roedd y rhaglen hon yn llwyddiant, gyda’r adborth yn hynod o gadarnhaol. Bydd carfan arall o arweinyddion digidol yn cychwyn y rhaglen yn ystod chwarter 4.

**Gwreiddio 360 Digi Cymru fel prif adnodd hunanarfarnu dysgu digidol y rhanbarth.**
Mae 259 o ysgolion y rhanbarth bellach wedi cofrestru ar system hunanwerthuso dysgu digidol, 360 Digi Cymru. Mae 147 o ysgolion wedi ail-ymweld â'r system er mwyn diweddaru eu gwerthusiad. Rydym yn parhau i annog ysgolion i ymgysylltu gyda'r adolygiad hwn. Rydym wedi recordio pecyn o weminarau i sicrhau fod cefnogaeth ar gael ar-alw i ysgolion allu ymgysylltu. Ychwanegwyd at y pecyn hwn yn ystod chwarter 3. Fel rhan o'r rhaglen hwyluswyr digidol, mae'r hwyluswyr yn gyfrifol am annog y defnydd o'r system hunanwerthuso gan ofyn i bob ysgol yn eu clwstwr i gwblhau'r adolygiad dros y tymor nesaf. Bydd y data yna'n cael ei drafod ar lefel clwstwr er mwyn dod o hyd i gryfderau o fewn y clwstwr yn ogystal ag agweddau cyffredin i'w datblygu.

Rhyddhawyd pennod newydd o'r podlediad cadernid digidol yn ystod chwarter 3. Mae'r bennod wedi derbyn ymateb cadarnhaol gan athrawon sy'n mynychu hyfforddiant yn ogystal â Llywodraeth Cymru. Mae 4 pennod o'r podlediad bellach ar gael yn y ddwy iaith drwy lwyfannau megis Spotify ac Apple Music. Bwriad y podlediad yw cyflwyno gwybodaeth i athrawon a rhieni ar faterion yn ymwneud a diogelwch ar lein, a hynny mewn ffordd hylaw a chyflym. Gall wrandawyr wrando ar y podlediad wrth fynd am dro, neu wrth yrru'r car. Mae'r podlediad wedi derbyn cydnabyddiaeth gan Lywodraeth Cymru ac yn cael ei gynnwys ar Hwb fel adnodd i gefnogi'r adran cadw'n saff ar-lein.

## MATHEMATEG A RHIFEDD

**Cymorth pwrpasol i ysgolion sy'n destun pryder**
**Cynradd ac Uwchradd**
Parhawyd i ddarparu cymorth pwrpasol i'r ysgolion yn y rhanbarth y bernir sydd 'mewn risg' neu mewn categori ESTYN. Mae hyn wedi arwain at gynllunio'n well ar gyfer dysgu ac addysgu Mathemateg a dealltwriaeth well o sut mae rhifedd yn cefnogi'r dysgu ar draws y cwricwlwm. Mae ymweliadau/cyfarfodydd rheolaidd a niferus ag ysgolion wedi golygu hyfforddi staff, rhoi cymorth gyda chynllunio ac asesu cynnydd dysgwyr a sut i olrhain hyn i symud dysgwyr ymlaen a llywio eu darpariaeth, monitro effaith y gweithgareddau hyd yma ac adnabod a rhannu adnoddau sy'n berthnasol i anghenion staff/dysgwyr y lleoliad wrth iddynt symud tuag at ddiwygiadau'r Cwricwlwm i Gymru. Daeth ceisiadau newydd am gymorth pwrpasol i law gan YCG unigol fel rhan o'u cynlluniau cymorth ar gyfer ysgolion.

**Y cymorth rhanbarthol ar hyn o bryd a'r CiG**
**Cyfarfodydd rhwydwaith lleol i Benaethiaid Mathemateg (Tachwedd 17, 18, 21, 22, 23 a 24)**
O ganlyniad i'r cyfarfodydd hyn, mae ysgolion wedi bod yn rhannu arferion da, yn cael syniadau newydd ac adnoddau i'w defnyddio, a Phenaethiaid Mathemateg yn dod yn llawn ymwybodol o fframwaith Arolygu Estyn ac ymgynghoriad CC.

**Asesiadau Personol**
Mae YCG wedi parhau i gefnogi ysgolion Cynradd, Uwchradd ac Arbennig y rhanbarth ar ddefnyddio'r Asesiadau Personol Ar-lein yn effeithiol. Mae hyn wedi cynnwys hyfforddiant pwrpasol a rhannu canllawiau Llywodraeth Cymru. Mae hyn wedi sicrhau bod gan ysgolion yr wybodaeth ddiweddaraf o ran canllawiau ac arferion effeithiol.

**Pecyn sgiliau rhif sylfaenol**
Cynhyrchwyd pecyn 'Sgiliau Rhif Sylfaenol', sy'n cynnwys adnoddau dosbarth cyfan ac adnoddau unigol y gellir eu haddasu yn ôl anghenion dysgwyr ar draws y continwwm. Mae ar gael yn Gymraeg a Saesneg ac yn cynnwys adran atebion. Rhydd yr adnoddau gyfle i ddysgwyr atgyfnerthu ac adolygu sgiliau sydd yn sgiliau allweddol i'w datblygu ar draws y continwwm, gan sicrhau bod dysgwyr yn rhugl yn y maes hwn. Mae'r adnoddau i'w gweld ar Google Classroom, ac fe'u rhannwyd ag amrywiol ysgolion i'w treialu. Rhannwyd yr adnoddau hyn â Chydlynwyr Rhifedd Uwchradd ac fe'u rhennir â phob ysgol gynradd y tymor hwn.

**Gweithdy Mathemateg Cynradd/Uwchradd Tymor y Gwanwyn**
Trefnwyd Gweithdy Mathemateg Cynradd/Uwchradd rhanbarthol ar gyfer Tymor y Gwanwyn. Mae siaradwyr gwadd a lleoliad wedi'u trefnu yn unol â chyllideb y Cynllun Busnes Cynradd ac Uwchradd. Amcanion y gweithdy yw hyrwyddo cydweithio ar draws y continwwm, datblygu addysgeg effeithiol a sicrhau rhannu negeseuon clir a chyson yn rhanbarthol.

| SAESNEG A LLYTHRENNEDD |
| --- |

**Cymorth pwrpasol i ysgolion sy'n destun pryder**
Bodlonwyd pob cyfeiriad am gymorth penodol i ysgolion, gyda'r angen am gymorth llythrennedd cyfrwng Saesneg.

**Cynradd**
Er mwyn cynyddu cynhwysedd i fodloni anghenion cynulleidfa ehangach o ysgolion sydd ag anghenion o ran cymorth llythrennedd a nodir gan YCG, cynhaliwyd diwrnod dysgu proffesiynol ar Sgiliau Sylfaenol Llythrennedd ym mis Tachwedd 2022. Ategwyd hyn gyda mynediad at Google Classroom yn llawn deunyddiau dilynol y gall ysgolion unigol barhau i'w defnyddio. Ble bo angen, ac yn ychwanegol at hyn, mae YCG wedi cyfeirio ysgolion i gael cymorth dilynol, gyda phwyslais dyfnach ar anghenion cymorth penodol.

Mae'r ysgolion hynny a gomisiynwyd i ddarparu pecynnau cymorth ar gyfer llythrennedd (siarad/gwrando, darllen, ysgrifennu) wedi darparu cyflwyniadau a fydd bellach yn rhan o becynnau cymorth ehangach GwE.

**Uwchradd**
Yn ystod mis Tachwedd 22, cynigwyd rhwydwaith llythrennedd rhanbarthol i bob ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg; cafwyd niferoedd da. Canolbwynt y sesiwn oedd Cynllunio ar gyfer dull gweithredu strategol mewn Llythrennedd a chynllunio ar gyfer cynnydd.

Ym mis Rhagfyr 22, trefnwyd Fforwm i Benaethiaid Saesneg a chafwyd presenoldeb rhagorol. Roedd y sesiwn yn cynnwys briff gan Elan Richards, Cymwysterau Cymru ac yn fodd i'r Arweinwyr Pwnc holi cwestiynau yn uniongyrchol yn ymwneud â'r ymgynghoriad ar y TGAU Saesneg Iaith a Llenyddiaeth. Cefnogwyd yr aelodau i greu dogfen "Cynllunio ar gyfer cynnydd" fyw a rannwyd â phob adran Saesneg uwchradd ac a ddefnyddiwyd fel man cychwyn i drafod cynnydd ar lefel adran.

Ar ôl bod ar hyfforddiant CBAC, cynhyrchwyd pecynnau "Fix it" ac fe'u dosbarthwyd er mwyn cefnogi ysgolion i roi adborth safonedig i ddisgyblion.

Llafaredd - Defnyddiwyd arian LlC i ariannu rhaglen ddatblygu dros dri diwrnod, sydd ar fin cychwyn ym mis Chwefror 2023.

*Cariad@ddarllen* Trefnwyd/comisiynwyd rhaglen ddatblygu dros bum niwrnod sydd bron yn llawn, ac ar fin cychwyn ym mis Ionawr 2023.

| Y GYMRAEG A LLYTHRENNEDD |
| --- |

**Rhwydweithiau Y Gymraeg a Llythrennedd**
Cynhaliwyd Cyfarfod Rhwydwaith Cydlynwyr Llythrennedd (ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog) y rhanbarth yn ogystal â chyfres o gyfarfodydd rhithiol 'Ar alw' ar gyfer holl arweinwyr y Gymraeg y rhanbarth (ar y cyd â Cymwysterau Cymru) er mwyn cynnig arweiniad ar sut i ymateb i'r ymgynghoriad 'Dweud eich dweud' ar y cymwysterau TGAU arfaethedig. Cynhelir dau gyfarfod rhwydwaith ar gyfer arweinwyr y Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg ddechrau Chwarter 4 yn ogystal â chyfarfod rhwydwaith ar gyfer arweinwyr y Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Cynhelir y cyfarfodydd hyn i gyd mewn ysgolion 'lletyol' ar draws y rhanbarth. Mae gwaith rhwydwaith cefnogol tair ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg yn y rhanbarth yn parhau a bydd y model hwn o gydweithio mewn cynghreiriau o ysgolion yn cael ei ddatblygu eto mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn ystod Chwarter 4 yn dilyn y cyfarfodydd rhwydwaith uchod.

**Gweithdai ymgynghori a gweithgorau cenedlaethol**
Mae aelodaeth arweinwyr ar weithgorau cenedlaethol (e.e. Gweithgor Lefel Pwnc Y Gymraeg – Cymwysterau Cymru) yn parhau a llais y rhanbarth i'w glywed yn y sgyrsiau cenedlaethol hyn. Gwerthfawrogodd yr arweinwyr yr arweiniad a'r cyfle i ymateb i ymgynghoriad Cymwysterau Cymru yn ystod Chwarter 3 a gwerthfawrogodd Cymwysterau Cymru y cyfle i gyflwyno'r ymgynghoriad yn uniongyrchol i'r arweinwyr trwy'r cyfarfodydd rhithiol uchod.

**Prosiect 'Ein Llais Ni'**
Yn ystod Chwarter 3, crëwyd gwefan einllaisni.cymru yn gartref i adnoddau ac astudiaethau achos ysgolion gwedd

gyntaf y prosiect a chyflwynwyd cais llwyddiannus i Lywodraeth Cymru i barhau â'r prosiect y flwyddyn nesaf. Yn rhan o'r cais hwnnw, cytunodd nifer o ysgolion uwchradd y rhanbarth, a fu'n rhan o'r prosiect gwreiddiol, i fod yn ysgolion arweiniol, gydag aelodau Adran y Gymraeg yr ysgolion hynny'n benodol yn hyrwyddo'r wedd nesaf. Yn ogystal â hynny, eisoes mynegodd nifer o ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg y rhanbarth ddiddordeb ac awydd ymuno â'r prosiect i'w ddatblygu ymhellach yn y wedd nesaf a'r bwriad yw estyn gwahoddiadau iddynt ymuno â'r prosiect yn ystod Chwarter 4.

**Digwyddiad 'Ein Llais Ni – Datblygu siaradwyr y dyfodol'**

Cynhaliwyd digwydd 'Ein Llais Ni – datblygu siaradwyr y dyfodol' yn Venue Cymru, Llandudno a chafwyd gweithdai'n cyflwyno astudiaethau achos gan bedair o ysgolion uwchradd prosiect 'Ein Llais Ni' (a'u dysgwyr) yn ystod y digwyddiad hwnnw. Mynychwyd y digwyddiad hwn a'r gweithdai gan athrawon, aelodau uwch dimau arwain a swyddogion yr Awdurdodau.

**Prosiect 'Dylunio ar gyfer ieithoedd CiG'**

Yn dilyn cydweithio â'r YCG Ieithoedd Rhyngwladol (gweler Cynllun Busnes IRh/Global Futures') mae'r prosiect 'Dylunio ar gyfer ieithoedd CiG' dan arweiniad yr Athro Jenny Eddy o Goleg Queens, Efrog Newydd bellach ar waith gyda chynrychiolaeth o adrannau MDaPh ILlaCh ar draws y rhanbarth, sy'n cynnwys aelodau adrannau y Gymraeg o ysgolion Cymraeg a dwyieithog yn ogystal ag ysgolion cyfrwng Saesneg. Mae cryn ddiddordeb yn y prosiect hwn a bu trafodaethau â Phrifysgol Bangor / CABAN yn ystod Chwarter 3 i ymgorffori gwaith yr Athro Jenny Eddy yn rhan o arlwy'r cyrsiau TAR.

**Canolfan Cefnogaeth GwE**

Mae'r gwaith o ddatblygu tudalennau'r Gymraeg ar Ganolfan Cefnogaeth GwE yn parhau a'r nod yw y bydd y llwyfan hwn yn plethu â llwyfannau digidol 'byw' Teams a Google Classroom, gyda'r naill yn gartref parhaol a'r llall yn llwyfan datblygol. Mae'r cylchlythyr 'O'r Stordy' hefyd yn arf ychwanegol i rannu gwybodaeth ag arweinwyr ar draws y rhanbarth gyda dau fersiwn o'r cylchlythyr bellach yn cael eu rhannu ag ysgolion, un ar gyfer ysgolion Cymraeg a dwyieithog a fersiwn arall ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg.

**GWYDDONIAETH**

**Cyflawni'r Cwricwlwm i Gymru (CiG)**

**Darparu dysgu proffesiynol a chymorth ac arweiniad pwrpasol i ysgolion a lleoliadau gyda MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg, i'w helpu i weithredu'r cwricwlwm newydd yn y maes hwn.**

**Statws a Gweithredu:**

Darparwyd cymorth pwrpasol i bob adran sydd wedi gofyn am gymorth gyda CiG. Mae aelodau'r adrannau hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o'r fframwaith CiG yng nghyd-destun Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Mae ysgolion a gafodd gymorth, ac sydd yn gweithredu'r CiG ym mis Medi 2023, yn dechrau cynllunio unedau gwaith.

**Darparu rhwydweithiau rhanbarthol a lleol i arweinwyr ac athrawon MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg, gydag arweiniad pendant ar ddylunio a chynllunio'r cwricwlwm, asesu a chynnydd.**

Cynhaliwyd cyfarfodydd Rhwydwaith Penaethiaid Gwyddoniaeth yn cynrychioli'r chwe awdurdod lleol yn ystod chwarter 3, a chafwyd niferoedd a chroeso da. Roedd y rhwydweithiau hyn yn canolbwyntio ar gynllunio a dylunio'r CiG, edrych ar ddulliau disgyblaethol/aml-ddisgyblaethol a thematig a dod â'r Gwyddorau, Cyfrifiadureg a Thechnoleg ynghyd i ddatrys problemau. Rhannwyd enghreifftiau ac adnoddau a gynhyrchwyd gan y grwpiau yn ystod y cyfarfodydd hyn ac maent ar gael ar-lein i ysgolion eraill (gan gynnwys ysgolion nad ydynt yn rhan o rwydwaith), ac maent yn ddwyieithog.

Cynhelir cyfarfodydd Rhwydwaith CiG yn chwarter 4 - i gynnwys Gwyddoniaeth, Technoleg a Chyfrifiadureg. Bydd y sesiynau hyn yn edrych ar Gynnydd, Sgiliau Cyfannol ac Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith.

**Helpu ysgolion a'u hadrannau Gwyddoniaeth i sicrhau bod eu dealltwriaeth o elfennau'r Cwricwlwm i Gymru yn datblygu; gan gynnwys cymhwyso a datblygu'r sgiliau trawsgwricwlaidd, y sgiliau cyfannol a themâu trawsgwricwlaidd o fewn Gwyddoniaeth.**

Datblygwyd gwefan MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg - mae'r wefan yn cefnogi ysgolion ac adrannau i ystyried y syniadau/themâu mawr mewn Gwyddoniaeth a Thechnoleg a gwahanol ddulliau o gynllunio ar gyfer dysgu.

Rhannwyd y wefan â phob ysgol ac maent wrthi'n datblygu enghreifftiau o ddull thematig o integreiddio sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol. Datblygir y wefan ymhellach dros Chwarter 4, i rannu enghreifftiau ac arferion da o ysgolion fel y dônt ar gael.

Yn ystod chwarter 3, bydd GwE yn parhau i weithio efo MAGNOX, yr Awdurdod Dad-gomisiynu Niwclear (NDA) i ddatblygu cyfleoedd ymgysylltu â busnes i ysgolion, a hynny fel rhan o ddatblygu cyfleoedd addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy’n gysylltiedig â gyd gwaith (CWRE) fel thema drawsgwricwlaidd yn y CiG. Trefnwyd ymweliadau tymhorol ag Wylfa ac ymweliadau pob hanner tymor â Thrawsfynydd. Bydd ysgolion yn parhau i ymweld â'r lleoliadau hyn dros Chwarter 4. Mae rhaglen o ymweliadau llysgenhadon MAGNOX STEM wrthi'n cael ei chynllunio.

**Asesu ac Atebolrwydd**
**Cefnogi ysgolion a'u hadrannau Gwyddoniaeth i ddatblygu eu dealltwriaeth o gynnydd ac asesu.**
**Cefnogi ysgolion ac arweinwyr Gwyddoniaeth i werthuso a chyfoethogi eu darpariaeth ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru (cefnogi prosesau sicrhau ansawdd)**
Mae adnoddau cefnogol ar y wefan Gwyddoniaeth a Thechnoleg wedi galluogi athrawon i ddatblygu ymhellach eu dealltwriaeth o gynnydd mewn dysgu a rôl y disgrifiadau dysgu wrth gynllunio ar gyfer dysgu. Bwriedir datblygu hyn ymhellach yn Ch4 trwy gyfarfodydd Penaethiaid Gwyddoniaeth, Rhwydwaith Technoleg a datblygu'r wefan.

**Gwella Addysgu**
Drwy gyfrwng y rhwydweithiau MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg, mae cydweithio, gweithio rhwng ysgolion a rhannu'r arferion gorau yn datblygu. Mae ysgolion sydd yn rhan o'r rhwydweithiau wedi magu profiad a dealltwriaeth werthfawr drwy weithio gyda'i gilydd a rhannu syniadau ar gyfer cynllunio'r dysgu ac ystyriaethau addysgegol. Mae'r gwaith hwn yn cael ei rannu ar One-drive Hwb. Yn ystod Ch4 parheir i ddatblygu rhwydwaith athrawon arbenigol mewn Technoleg (DHSB 2) a sefydlu rhwydwaith tebyg ar gyfer Meddylfryd Cyfrifiadurol (DHSB 6).

Datblygu gwefan TANIO - yn dilyn prosesau sicrhau ansawdd pellach bydd cyflwyniadau PowerPoint ac adnoddau eraill yn cael eu trosi yn dudalennau HTML fel bod defnyddio'r wefan yn fwy rhwydd a chyflym ar y wefan ac ar ddyfeisiau symudol. Datblygir adnoddau TGAU Gwyddoniaeth ar wahân yn sgil adborth o gyfarfodydd Rhwydwaith Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn Nhymor yr Hydref. Ceisiadau ychwanegol o gyfarfodydd Rhwydwaith Gwyddoniaeth a Thechnoleg Tymor yr Hydref am ffug arholiadau dwyieithog enghreifftiol ar wefan Tanio - gweithredir ar hyn yn Chwarter 4. Bydd cardiau fflach dwyieithog i wella Gwyddoniaeth AA1 ar gael i fyfyrwyr yn ystod Chwarter 4. Gwelwyd nifer sylweddol o ymwelwyr â'r wefan a lawr lwythiadau dros gyfnod yr arholiadau, sydd yn dangos bod yr adnoddau yn cael eu defnyddio'n eang ar draws y rhanbarth.

**Ysgolion sy'n destun pryder**
Yn sgil ceisiadau gan YCG, parheir i roi cymorth unigryw a tharged i ysgolion sy'n destun pryder.

**Cefnogi Arweinyddiaeth**
Mae ymweliadau ysgol yn parhau i gefnogi Arweinwyr Canol efo hunanarfarnu, adnabod blaenoriaethau ar gyfer gwelliant, arfarnu ansawdd y ddarpariaeth a'r dysgu a'r addysgu.

**OEDRAN 3-8**

**Darparu cymorth pwrpasol i ysgolion sy'n achosi pryder, fel bod modd iddynt yrru eu taith welliant eu hunain.**
**Gwella ymhellach y ddarpariaeth a chynnydd disgyblion ym mhob ysgol yn y rhanbarth wrth baratoi at y Cwricwlwm i Gymru a'i weithredu.**
**Defnyddio strategaethau asesu ffurfiannol yn dda, neu'n well, ym mhob ysgol**
**Datblygu cydweithio ar draws sectorau a rhannu arferion da o ran asesu**
**Datblygu cydweithio ar draws sectorau ar bontio a rhannu arferion da**
**Sicrhau cysondeb negeseuon i ysgolion o ran y cwricwlwm, asesu a dysgu ac addysgu mewn rhwydweithiau traws-sector, a'r hyfforddiant a'r cymorth a ddarperir gan GwE.**

Darparwyd cymorth pwrpasol i ysgolion sy'n destun pryder ar draws y rhanbarth. Mae bron pob ysgol sy'n destun pryder yn gwneud cynnydd da yn erbyn y camau gweithredu a gytunwyd, a staff a rhanddeiliaid yn uwchsgilio yn ystod y broses. Mae'r cymorth yn datblygu dealltwriaeth ymarferwyr o gynnydd ar draws llwybrau datblygol Galluogi Dysgu at ddiwedd CC2 ym mhob MDaPh a'r sgiliau trawsgwricwlaidd. Mae'r cymorth hefyd yn gwella'u dealltwriaeth o egwyddorion ac addysgeg Dysgu Sylfaen ac yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth ac ar gynnydd

dysgwyr.

Darparwyd rhwydwaith grŵp oedran 3-8 rhanbarthol ar gyfer ymarferwyr ac YCG, i rannu canllawiau ar Galluogi Dysgu (cyfnod dysgu yn arwain at Gam Cynnydd 1) ac astudiaethau achos gan ysgolion o bob ALl sy'n rhan o brosiect ymchwil GwE, 'Communication Friendly Spaces Approach'. Bu ymarferwyr yn trafod sut yr aethant ati i fyfyrio ac adolygu ar eu hamgylcheddau dysgu, tu mewn a thu allan, ac effaith eu darpariaeth ar ddysgwyr, yn unol â'r Canllawiau Galluogi Dysgu. Rhoddwyd cyflwyniadau ac astudiaethau achos ar Ganolfan Cefnogaeth GwE fel bod modd i bob ysgol ranbarthol fynd atynt.

Cynhaliwyd gweithdai rhanbarthol yn y rhanbarth i athrawon a chymorthyddion dysgu sy'n newydd i'r grŵp oedran 3-8, yn canolbwyntio ar Galluogi Dysgu a MDaPh yn y grŵp oedran hwn ac addysgeg effeithiol. Mae gan y rheiny sydd wedi bod yn bresennol adnabyddiaeth a dealltwriaeth gadarn o'r tri galluogwr dysgu o fewn Galluogi Dysgu, yr addysgeg a'r cwricwlwm i'w trosglwyddo'n arferion dosbarth.

Cynhaliwyd gweithdy digidol rhanbarthol ar y cyd ar ddatblygu sgiliau o fewn y grŵp oedran 3-8 (gweler adroddiad Cynllun Busnes Digidol).

Cyflwynwyd hyfforddiant pwrpasol i ysgolion unigol a chlystyrau ar agweddau penodol ar y cwricwlwm e.e. darllen cynnar a sgiliau darllen uwch a dysgu awyr agored. Mae hyn wedi uwchsgilio staff o ran y continwwm 3-11 yng nghyd-destun ymestyn a dyfnhau sgiliau o fewn profiadau dysgu ac amgylchedd sydd yn briodol i ddatblygiad.

Cynhaliodd ymarferwyr ac YCG weithdai gwaith coed ar y cyd i glystyrau, yn dangos effaith y ddarpariaeth Gwaith Coed ar ddatblygu sgiliau ar draws MDaPh, sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol. Roedd yr astudiaethau achos a rannwyd yn dangos ffyrdd effeithiol o arsylwi ac asesu drwy brofiadau bywyd go iawn sydd yn cael effaith gadarnhaol ar gynnydd a lles disgyblion yn gyffredinol.

**AMCAN 3 - ARWEINYDDIAETH**

**Cefnogi arweinwyr ysbrydoledig sy'n cydweithio i godi safonau. Cynnwys darpar arweinwyr a rhwydweithiau proffesiynol**

**ARWEINYDDIAETH**

**Rhoi mynediad at ystod o ddysgu proffesiynol yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, gan gynnwys mynediad at hyfforddi a mentora, i bob ymarferydd addysg mewn ysgolion a lleoliadau sydd yn briodol i'w rôl a'u cyfrifoldeb yn unol â safonau proffesiynol.**

**Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol, Rhaglenni Arweinyddiaeth Cenedlaethol i Athrawon/Penaethiaid**
Mae carfanau 2021-22 wedi cwblhau eu rhaglenni datblygu. Mae'r tîm wedi recriwtio niferoedd iach o ymgeiswyr sydd â phrofiad priodol ar draws y rhanbarth ar gyfer carfanau 2022-23.

Yn ôl gwaith monitro ac arfarnu anffurfiol yn seiliedig ar drafodaethau'r tîm darparu, mae pob rhaglen yn parhau i gael effaith dda ar hyder a gallu arweinwyr i gyfrannu at system gydweithredol a hunanwella. Yn ôl trafodaethau efo aelodau, eu rheolwyr llinell ac YCG yn dilyn cyflwyniadau ar y dasg profiad arweinyddiaeth (TPA), mae'r rhaglenni yn cyfrannu'n gyson at ddatblygu ymarferwyr hunanfyfyriol. Maent yn cymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu proffesiynol a datblygu eu gyrfa, ac maent yn datblygu ymhellach eu dealltwriaeth o'u rôl arweinyddiaeth, yn enwedig o ran gweithredu'r CiG yn llwyddiannus.

Cyflwynodd gynrychiolydd o'r Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol (RhDAG) a'r Rhaglen Datblygu Uwch Arweinyddiaeth (RhDUA) eu tasg profiad arweinyddiaeth gan drafod effaith y rhaglen ar eu datblygiad proffesiynol mewn ymweliad llwyddiannus gan Estyn â GwE yn ystod mis Tachwedd.

Mae'r rhaglenni yn parhau i sicrhau bod aelodau'r rhaglenni yn myfyrio'n llwyddiannus ar eu harferion proffesiynol fel arweinwyr ysgolion yn erbyn y Safonau Arweinyddiaeth Cenedlaethol. Mae aelodau wedi'u huwchsgilio a'u grymuso i arwain a chefnogi cyd-weithwyr yn eu lleoliadau, gan gryfhau'r capasiti arweinyddiaeth yn eu hysgolion. Mae'r Llwybr Arweinyddiaeth yn hwyluso dysgu proffesiynol priodol i arweinwyr ar bob lefel, sydd yn cefnogi eu datblygiad i'r cam nesaf yn eu gyrfa.

Diweddarwyd y rhaglenni RhDAG a RhDUA yn briodol i gadw at yr agenda cenedlaethol. Gwnaed hyn ar lefel genedlaethol. Ar lefel ranbarthol, addaswyd Modiwl 1 o'r RhDAG a'r RhDUA fel y gellir ei gyflwyno wyneb yn wyneb. O safbwynt y newidiadau yn y Rhaglen i Benaethiaid Newydd a Phenaethiaid mewn Gofal, mae'r ddarpariaeth sefydlu ar gyfer Penaethiaid newydd ar draws y rhanbarth bellach yn fwy cyson, cefnogol ac effeithiol. Rhoddwyd cymeradwyaeth i'r rheiny sydd wedi dangos y dystiolaeth, yr wybodaeth a'r profiad angenrheidiol o ran arweinyddiaeth ysgol gyfan yn sgil cwblhau'r Rhaglen Datblygu i Ddarpar Benaethiaid (RhDDB). Byddant bellach yn symud i'r cam nesaf i baratoi tystiolaeth ar gyfer prifathrawiaeth yn y Ganolfan Asesu CPCP ym mis Chwefror 2023.

## LLYWODRAETHWYR

**Cefnogi cyrff llywodraethu ysgolion i benodi uwch arweinwyr da.**
**Cefnogi awdurdodau lleol i sicrhau bod gan gyrff llywodraethu fynediad at gyfleoedd dysgu o safon uchel.**
**Cefnogi awdurdodau lleol i sicrhau bod gan gyrff llywodraethu gefnogaeth gyda hunan arfarnu a chynllunio datblygiad.**
**Hwyluso cyfathrebu a rhannu gwybodaeth yn effeithiol rhwng GwE, yr ALl a SCLl.**
**Cefnogi AauLl i ddarparu hyfforddiant i gyrff llywodraethu wrth iddynt gefnogi'r gwaith gwella ysgolion.**

Darparwyd cymorth i awdurdodau lleol i sicrhau bod gan gyrff llywodraethu fynediad at gyfleoedd dysgu o safon uchel. Diweddarwyd rhaglen dysgu proffesiynol 2021-2022 ar gyfer 2022-2023 a'i rhannu â thîm GwE a'r chwe Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr. Ehangwyd y cynnig i gynnwys Canllawiau Gwella Ysgolion 2022. Mae hefyd yn cynnwys Cymorth i ysgolion sydd angen gwella, cymorth Cwricwlwm i Gymru, Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu, Dysgu ac Addysgu, Cymhwysedd Digidol, y Gymraeg, Her Sgiliau ac Arweinyddiaeth.

Darparwyd cymorth i awdurdodau lleol i sicrhau bod gan gyrff llywodraethu gefnogaeth gyda hunan arfarnu a chynllunio datblygiad, gan gynnwys cymorth cyn-arolygiad i Lywodraethwyr ar ddisgwyliadau Estyn cyn ac yn ystod arolygiad.

Darparwyd cymorth i hwyluso cyfathrebu a rhannu gwybodaeth yn effeithiol rhwng GwE, yr ALl a SCLl. Mae'r holl randdeiliaid yn elwa ar rannu gwybodaeth.

## CYNGHREIRIAU/RHWYDWEITHIAU/CLYSTYRAU

**Cydweithio ag arweinwyr ysgolion ar bob lefel i wreiddio ymhellach gyfraniad:**
- **y clystyrau cynradd ac uwchradd**
- **cynghreiriau uwchradd**
- **rhwydweithiau rhanbarthol**

**wrth fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol.**

**Sicrhau bod Cyrff Llywodraethu yn ymwybodol o bwysigrwydd cydweithio cynghrair/clwstwr, yn arbennig felly gan ei fod yn gysylltiedig â datblygu'r CiG.**

Mae un o linynnau allweddol y ddogfen a gyhoeddwyd yn ddiweddar, sef: *Canllawiau Gwella Ysgolion: Fframwaith ar gyfer Gwerthuso, Gwella ac Atebolrwydd,* yn rhoi hwb newydd i'r gwaith cydweithredol gydag arweinwyr ysgol ar bob lefel i fynd ati i wreiddio cyfraniad y clystyrau cynradd/uwchradd a'r cynghreiriau uwchradd. Wrth symud ymlaen, yr hyn a fydd yn cynnal ein hymdrechion ac yn sicrhau bod y newid diwylliannol yn cael mwy o afael ac effaith yw'r disgwyliad cenedlaethol i ysgolion weithio'n effeithiol gyda chymheiriaid ar arfarnu, cynllunio gwelliant a datblygu dull gweithredu a dealltwriaeth gyffredin o gynnydd dysgwyr.

Mae hyfforddiant EDT/RhPY (SPP) wedi parhau, a chyflwynwyd clystyrau/cynghreiriau newydd i'r model a chynigiwyd sesiwn diweddaru i'r rheiny a oedd eisiau ailgydio wedi cyfnod Covid.

Mae bron pob ysgol ar draws pob sector wedi gweithio'n effeithiol gyda chynghreiriau a chlystyrau lleol. Hyd yma, y ffocws pennaf oedd cydweithio fel clystyrau ar y CiG a chyfrannu at weithgareddau arfarnu a chynllunio gwelliant. Cryfhawyd eu gwaith gan gyfraniadau'r Rhwydweithiau MDaPh, Asesu a Dylunio Cwricwlwm ar lefel ranbarthol a lleol. O ganlyniad, mae nifer o gynghreiriau yn datblygu arferion cryf cynnar o ran cynllunio gweithgareddau ar y cyd i gefnogi'r daith ddiwygio ac agweddau ar wella ysgol. Mae clystyrau Cynradd wedi gallu gweithio ar ddatblygu blaenoriaethau clwstwr yn ymwneud â'r CiG ar gyfer eu CDY. Hefyd, mae arweinwyr yn dangos mwy o hyder wrth baratoi at gyflwyno'r cwricwlwm.

O Wanwyn 2023, dyma oedd prif fyrdwn gwaith y clystyrau cynradd/uwchradd:

- hyrwyddo ymhellach cydweithio effeithiol i fodloni gofynion y FfGY.
- sicrhau Datblygiad Proffesiynol o safon uchel e.e. gweithgareddau i rannu arferion llwyddiannus yn y clwstwr a'r tu hwnt.
- cryfhau ymhellach ansawdd yr arweinyddiaeth ar draws yr ysgol a'r clwstwr.
- cefnogi arweinwyr ac athrawon i weithredu'r cwricwlwm newydd.
- Y Gymraeg
- cryfhau ymhellach ansawdd y dysgu a'r addysgu a'r asesu ar draws yr ysgol
- sicrhau dilyniant mewn pontio cynradd-uwchradd o ran dysgu ac addysgu
- datblygu sgiliau arweinwyr a gwella ymhellach y prosesau a'r systemau ar gyfer gwaith hunanwerthuso, cynllunio gwelliant a mesur effaith yn effeithiol.
- hybu sgiliau a llesiant dysgwyr

Mae pob cynghrair a chlwstwr yn gweithio gyda'u YCG Cyswllt i ddatblygu cynlluniau gweithredu a fydd yn nodi sut mae'r arian yn cael ei ddefnyddio i gefnogi cynnydd yn erbyn y meysydd allweddol a nodir uchod.

**AMCAN 4 - YSGOLION CRYF A CHYNHWYSOL**

**Yn ymroi i ragoriaeth, tegwch a llesiant**

**Datblygu ymhellach a gweithredu'r strategaeth GDD genedlaethol ar draws y rhanbarth.**
**Gwreiddio'r model GDD PMG clwstwr/cynghrair ar draws y rhanbarth.**

Cyflwynwyd cynllun cefnogaeth GDD GwE am 2022-2023 i Lywodraeth Cymru, gyda'r pwyslais ar y meysydd hyn: Dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, Plant Mewn Gofal, Grant Datblygu Disgyblion Blynyddoedd Cynnar a Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac a addysgir mewn unedau cyfeirio disgyblion ac addysg heblaw yn yr ysgol.

Mae gan GwE ddau Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant Iechyd a Llesiant ac Arweinwyr PYD a GDD PMG ar y cyd. Mae'r Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant hefyd yn gweithio gyda'u hysgolion cyswllt i sicrhau bod pob ysgol yn deall ac yn cyflawni eu dyletswyddau, gyda phwyslais neilltuol ar baratoi ar gyfer y Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles yn y Cwricwlwm i Gymru.

Mae GwE wedi datblygu model fframwaith GDD cyffredinol a weithredir mewn ysgolion/ALl ar draws y rhanbarth. Bu'r pwyslais ar gefnogi ysgolion targed o fewn AaLl penodol i godi safonau dysgwyr PYD ar draws yr awdurdod lleol, a sicrhau bod ffordd strategol o gefnogi YCG i fod yn gweithredu ymyraethau ar sail tystiolaeth.

Ar gyfer 2022/23, ein ffocws yw parhau i sicrhau bod pob clwstwr/ysgol AAA/UCD yn cael yr arian GDD PMG gyda phwyslais ar gefnogi dysgu ac addysgu effeithiol, llesiant emosiynol a meddyliol, Dysgu Proffesiynol o ran dull ysgolion sy'n wybodus am drawma a thargedu cynhaliaeth yn unol â'r CAU.

Byddwn hefyd yn parhau i weithio'n agos gyda'r chwe ALl i sicrhau cyfathrebu a chydweithio clir o safbwynt cefnogaeth ac ymyrraeth ychwanegol gyda'r GDD PMG a bod pob cynllun clwstwr yn cael ei gymeradwyo gan GwE a'r ALl.

**LLES Y GWEITHLU (GwE ac ysgolion)**

**Cefnogi lles arweinwyr yng nghyd-destun yr heriau parhaus mewn arweinyddiaeth, a hynny trwy ddarparu 'Lle i Fyfyrio' i arweinwyr ysgolion ar draws y rhanbarth.**
Mae 'Lle i Fyfyrio' yn parhau i gael effaith gadarnhaol ar draws y rhanbarth . Mae Mike Armiger a Coral Harper yn gweithio hyd eithaf eu gallu. Mae GwE wedi bod yn trafod yn ddiweddar â chorff o'r enw *'Student Breakthrough'* i edrych ar fentora i bobl ifanc. Maent yn cyflwyno model 'hyfforddi'r hyfforddwr' felly mae gan oedolion achrediad i weithio gyda phobl ifanc, gan ddefnyddio System '4I', sef *Instruct, Inspire, Impact, Instigate.* Bydd peilot *'Student Breakthrough'* yn cychwyn gyda phum ysgol arbennig ym mis Ionawr 2023.

**LLESIANT YSGOL GYFAN (MDaPh)**

**Hyrwyddo 'Dinasyddion Egwyddorol, Gwybodus i Gymru' trwy ddatblygu momentwm ein digwyddiad**

**TEDxGwE llwyddiannus.**
Mae cynlluniau ar y gweill i ni fod yn gweithio ar y cyd â Phrifysgol Glyndŵr a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru i gynnal 'Peilot Arweinwyr y Dyfodol' i alluogi pobl ifanc (14-16 oed) i gyfrannu'n uniongyrchol at ddatblygu Cynlluniau Llesiant rhanbarthol, a rhannu eu barn a'u syniadau ar sut y gellir mynd ati i wella lles ar eu cyfer nhw a phobl debyg yn eu hardal leol. Mae hyn yn gysylltiedig â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn datblygu i fod yn 'ddinasyddion byd-eang a moesegol', ac yn datblygu ymdeimlad o hunan-effeithiolrwydd a photensial i fod yn arweinwyr (heddiw) a'r dyfodol.

Y bwriad yw cynnal TEDxGwE yn Nhymor yr Haf 2023 ar draws pob ALl - cyfarfod cynllunio i'w gynnal.

Bu GwE mewn digwyddiad lansio rhyngwladol ar gyfer One World ar 19/11/2022 i hybu'r 'Her 100 o ysgolion' a digwyddiad TAITH hefyd, unwaith eto i hybu'r 'Her 100 o ysgolion.' Gofynnwyd i One World am ddiweddariad ar nifer yr ysgolion sydd wedi ymuno yn y rhanbarth.

## STRATEGAETH I GEFNOGI RHIENI/GOFALWYR

**Sicrhau bod "Helpu eich plentyn i ddysgu" yn cael ei rannu'n effeithiol ag ysgolion a rhieni a gofalwyr ar draws Cymru.**
Mae grŵp rhanbarthol wedi'i sefydlu, gyda chynrychiolaeth o GwE a phob ALl i arwain, rheoli a chydlynu'r gwaith o gefnogi rhieni a gofalwyr o ran dysgu eu plant.

Dyma'r prif ddatblygiadau:

- Mae datblygwr yr Adnodd wedi creu Helpu eich Plentyn i Ddysgu (HYCTL) ar gyfer y Cynradd a Blynyddoedd 7 ac 8.
- Mae datblygwr yr Adnodd wedi creu Helpu eich Plentyn yn ei Arddegau i Ddysgu (HYTTL) ar gyfer disgyblion Blwyddyn 9, 10 ac 11.
- Rhannwyd pecynnau cyfathrebu dwyieithog ar gyfer HYCTL a HYTTL ag ysgolion.
- Datblygwyd pecynnau hyfforddi i gymorthyddion dysgu eu defnyddio efo rhieni (HYCTL a HYTTL).
- Crëwyd llwyfan ar wefan GwE gyda gwybodaeth i Rieni, Gofalwyr ac Ysgolion - mae hyn yn sicrhau mynediad rhwydd i bawb.
- 12 ysgol i dreialu'r pecyn hyfforddi ar gyfer Helpu eich Plentyn i Ddysgu. Bydd y grŵp yn ailymgynnull yn ystod tymor yr Hydref gydag adborth. Yna bydd yr hyfforddiant ar gael i bob ysgol ar draws y rhanbarth.
- Gwahodd cyd-weithwyr uwchradd i fynychu hyfforddiant yn ystod tymor yr Hydref. Y nod yw gwneud hyn gyda phob ysgol uwchradd ar draws y rhanbarth.

Cynhaliwyd sesiwn galw heibio i ysgolion sydd yn cymryd rhan. Trefnwyd sesiwn adborth hefyd i ysgolion sydd yn cymryd rhan gyda rhagor o sesiynau wedi'u trefnu i'r ysgolion eraill. Cafwyd darlun cadarnhaol iawn gan ysgolion o'r rhieni a oedd yn hoffi'r adnodd. Addaswyd y cyflwyniad a'r cynnwys i weddu i'r cyd-destun. Gŵyr ysgolion y gellir defnyddio'r adnodd yn hyblyg ac maent wedi holi a ellid gwneud ap - bydd awdur yr Adnodd yn edrych ar hyn. Trefnwyd sesiwn i gyfarfod â nifer bach o ysgolion i ddatblygu'r pecyn dysgu teulu.

## AIL-GYNNAU'R DYSGU

**Cymorth i weithredu ymyraethau Geiriau Amlder Uchel (HFW)/Darllen Ailadroddol (RR) a Headsprout.**
Mae dwy agwedd ar y ffrwd waith hon: ***Gwella rhuglder mewn Darllen ar Lafar (iFOR***) gan ddefnyddio strategaethau HFW a RR, a'r ddarpariaeth barhaus i ysgolion ddefnyddio rhaglenni darllen Headsprout, sef ***prosiect Cadw Disgyblion i Ddarllen (KPR).*** Mae'r prosiectau hyn yn barhad o'r gwaith a gychwynnwyd y flwyddyn flaenorol. Dyma ddiweddariad:

***Gwella rhuglder mewn Darllen ar Lafar (iFOR***)
Mae 52 ysgol a 66 athro wedi cofrestru a chael mynediad at fideos hyfforddiant ar-lein ac adnoddau ymyrraeth i'w lawr lwytho a'u defnyddio yn eu hysgolion. Dyma niferoedd yr athrawon sydd wedi defnyddio'r Google Classroom:

- Mae 63 wedi defnyddio'r adnoddau Saesneg
- Mae 41 wedi defnyddio'r adnoddau Cymraeg.

Mae 14 ysgol wedi mynychu sesiynau cymorth cwestiwn ac ateb dilynol ar-lein, ac wedi cael aelod o'r tîm ymchwil wrth law i roi cymorth gweithredu. Cynhaliwyd y sesiynau cymorth ym mis Medi 2021 a mis Ionawr 2022. Gwahoddwyd ysgolion hefyd i fesur cynnydd mewn Rhuglder Darllen ar Lafar gan ddefnyddio prawf sgrinio DIBELS. Mae dwy ysgol wedi mesur cynnydd gan ddefnyddio adnoddau sgrinio DIBELS ac mae un ysgol yn monitro cynnydd. Mynegodd chwe ysgol arall ddiddordeb mewn mesur cynnydd disgyblion gan ddefnyddio DIBELS. Datblygwyd adnoddau Darllen Ailadroddol ymhellach i'w defnyddio gartref ac yn yr ysgol (cyfleoedd ychwanegol i ymarfer). Gwahoddwyd ysgolion i dreialu defnyddio'r deunyddiau gartref ac yn yr ysgol. Mynegodd bedair ysgol ddiddordeb. Drwy gydol 2021-22, rydym wedi parhau i ddiweddaru'r ymyraethau RR a HFW i'w gwneud yn ymarferol a haws eu defnyddio. Rydym ni hefyd wrthi'n dylunio llawlyfr iFOR ac yn creu fideos hyfforddiant syml a byr.

Hysbysebwyd ym Mwletin GwE ym mis Medi 2022 i ysgolion gofrestru ar sesiynau hyfforddiant iFOR ym mis Tachwedd 2022. Aethpwyd ati i ddiweddau'r adnoddau RR i'w gwneud nhw'n fwy hygyrch ac ymarferol. Bellach, mae gennym lawlyfr Darllen Ailadroddol ar ffurf PDF, gyda chyfres o fideos hyfforddiant syml a byr i gyd-fynd. Yn dilyn Bwletin GwE ym mis Medi 2022, cofrestrodd 28 ysgol a 32 o athrawon i gael hyfforddiant ac adnoddau yr ymyraethau rhuglder darllen (Darllen Ailadroddol a Geiriau Amlder Uchel).

Cofrestrodd 23 o athrawon i fynychu sesiwn hyfforddiant ym mis Tachwedd 2022. Yn ogystal, rydym wedi cael cymeradwyaeth foesegol ar gyfer treial a reolir ar hap, ac wedi cynllunio'r treial hwnnw, ar gyfer mesur effaith ymyrraeth rhuglder Darllen Ailadroddol ar gyfradd darllen, cywirdeb a dealltwriaeth disgyblion. Mynegodd wyth ysgol ddiddordeb mewn cymryd rhan yn yr astudiaeth y bwriadwn ei chynnal drwy gydol 2023.

***Prosiect Cadw Disgyblion i Ddarllen (KPR).***
Crynodeb o'r cynnydd hyd yma:

- Cymorth parhaus ar gael i ysgolion dros e-bost/galwad ffôn/galwad fideo gan Swyddog Ymchwil ar gyfer unrhyw gymorth sydd ar staff ysgol ei angen (technegol, prynu/adnewyddu trwyddedau, gweithredu, hyfforddiant, sut i fynd at yr adnoddau ac ati).
- Mae'r holl adnoddau, yn cynnwys canllawiau a fideos hyfforddiant o fis Medi 2021, ar gael ar Hwb i staff ysgolion a Google Classroom i rieni
- Hysbysebwyd holl fanylion y prosiect ym mwletin GwE ac ar Twitter.
- Yn Nhymor yr Hydref 2021, cefnogwyd pob ysgol gyda'r broses o adnewyddu eu trwyddedau presennol neu drwyddedau treial.
- Yn Nhymor y Gwanwyn 2022, cyflwynwyd dwy weminar 'cychwyn arni gyda Headsprout' a dwy weminar 'sut i fonitro cynnydd' (recordiwyd y rhain a'u rhoi ar Ganolfan Cefnogaeth GwE). Roedd 10 ysgol yn bresennol ac maent wedi parhau i gael cymorth parhaus ers hynny.
- Yn Nhymor yr Haf 2022, cynhaliwyd 3 sesiwn cwestiwn ac ateb i ysgolion. Roedd dwy ysgol yn bresennol.

Camau nesaf tymor yr Hydref 2022:

- Cymorth parhaus i staff ysgolion gan y Swyddog Ymchwil.
- Monitro Hwb i roi mynediad i ysgolion newydd
- Parhau i fonitro Google Classroom
- Diweddaru fideos hyfforddiant pan fydd angen

Hysbysebwyd ym Mwletin GwE mis Hydref i ysgolion gofrestru ar sesiynau hyfforddiant KPR ym mis Tachwedd. Roedd dwy weminar ar gael i staff ysgolion:

- Gweminar 1: Cychwyn arni gyda Headsprout;
- Gweminar 2: Monitro cynnydd wrth ddefnyddio Headsprout.

Diweddarwyd gweminarau ac adnoddau i gyd-fynd â newidiadau o fenw rhaglen Headsprout a sut all ysgolion gynnwys y ddarpariaeth i gyd-fynd â'r polisi ADY newydd. Cofrestrodd wyth ysgol ac 16 o athrawon ar Weminar 1 ac 1 ysgol ac 1 athro ar Weminar 2.

Mae holl aelodau sesiynau gweminar eleni a'r llynedd yn cael cynnig cymorth parhaus ar ffurf negeseuon e-bost a chyfarfodydd ar-lein yn ôl y gofyn i sicrhau eu bod yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen ar eu lleoliad drwy gydol y

flwyddyn. Mae'r gefnogaeth hefyd ar gael i bob ysgol sydd yn parhau i ddefnyddio Headsprout neu sydd â diddordeb dechrau defnyddio Headsprout drwy gydol y flwyddyn. Mae'r gefnogaeth yn bwrpasol ar gyfer cychwyn arni gyda'r rhaglen gan gynnwys gohebiaeth Headsprout, cymorth gweithredu, monitro cynnydd a helpu i ddatrys anawsterau technegol.

**Dysgu Iaith a Llythrennedd o Bell (RILL) - CAM 2**
Dechreuodd tîm ymchwil RILL ar waith Cam 2 ddechrau mis Mai 2021. Maent bellach wedi cwblhau'r addasiadau i'r fersiwn gydamserol/anghydamserol wreiddiol o RILL a ddatblygwyd yn 2020 yn ystod y cyfnod clo.

Hyfforddwyd 33 o ysgolion mewn RILL (58 o athrawon) yn ystod blwyddyn ysgol 2021-22, gyda'r mwyafrif yn gyfrwng Cymraeg.

Yn ystod 2021-22, bu RILL yn canolbwyntio ar hyfforddi ysgolion newydd i weithredu'r rhaglen. Roedd yr hyfforddiant yn cynnwys tasgau anghydamserol, sesiwn hyfforddiant byw am ddiwrnod llawn gyda thîm RILL (dim mwy na 5 athro i bob sesiwn ar-lein) a thrafodaeth ddilynol fer. Roedd sesiynau galw heibio hefyd ar gael yn wythnosol i'r rheiny oedd arnynt angen rhagor o gymorth parhaus. Cynhaliwyd rhywfaint o hyfforddiant wyneb yn wyneb hefyd gyda'r ysgolion oedd yn cymryd rhan.

Yn ogystal â rhwydwaith Hwb ble gall athrawon gael gafael ar wybodaeth a deunyddiau hyfforddiant, gofyn cwestiynau a myfyrio ar eu profiadau , crëwyd gwefan newydd sydd â gwybodaeth a deunyddiau cefnogi i ysgolion, athrawon a rhieni. Ar y wefan ceir hefyd ddeunyddiau newydd i rieni eu defnyddio gartref gyda'u plant - gan gynnwys geirfa newydd, stori, pwyntiau trafod i annog rhyngweithio a defnyddio iaith lafar. Mae'r deunyddiau hyn yn cyd-fynd â'r deunyddiau RILL cyfrwng Cymraeg a bwriedir iddynt gael eu gosod fel gwaith cartref gan yr athro cyn y wers. Mae'r rhain yn cynnwys disgrifiadau/cyfieithiadau Saesneg i rieni di-Gymraeg, yn ogystal â fideos i gefnogi darllenwyr llai hyderus.

Rydym hefyd wedi datblygu a pheilota batri o asesiadau ar-lein i gofnodi data effaith RILL. Yn 2022-23, yr amcan cyntaf yw ymestyn RILL i ddarparu rhaglen iaith a llythrennedd yn Gymraeg i blant difreintiedig dros bymtheg wythnos gan ddefnyddio technoleg (h.y. cartref di-Gymraeg, SES a gallu isel) a phrofi pa mor effeithiol ydyw o ran gwella sgiliau iaith a darllen Cymraeg. Llwyddwyd i recriwtio 20 ysgol i gychwyn ar y gwaith ym mis Hydref 2022. Byddwn hefyd yn recriwtio 60 ysgol yn rhagor ar draws Cymru i gael hyfforddiant RILL yn nhymor y gwanwyn 2023.

**Helpu ysgolion targed i ddefnyddio astudiaeth a strategaethau adolygu yn seiliedig ar dystiolaeth**
Nod y prosiect yw casglu sylwadau a gwybodaeth ar ymarferoldeb gan ddefnyddio set newydd o adnoddau profi ymarfer (iSTER) i helpu dysgwyr wella deiliannau mewn TGAU mathemateg. Byddwn yn dechrau'r gwaith y tymor hwn ac mae hyfforddiant pellach ar y gweill i ddysgwyr at fis Mawrth 2023.

**AMCAN 5- CEFNOGI SYSTEM SY'N HUNAN WELLA**

**Cefnogi system ble mae gan y proffesiwn addysg y sgiliau, y gallu a'r cynhwysedd i fod yn dysgu a gwella eu harferion yn gyson**

**YMGYSYLLTU Â CHYMHEIRIAID**

**Parhau i ddatblygu prosesau adolygu gan gymheiriaid ymhellach mewn ysgolion er mwyn cefnogi gweithrediadau hunanwerthuso cadarn a gwaith cynllunio gwelliant ar bob lefel.**
**Parhau i ddatblygu'r gallu i arwain ledled y system.**
**Gwreiddio adolygu gan gymheiriaid fel agwedd allweddol ar wella ysgolion ledled y rhanbarth.**

Ers pedair blynedd bellach, ceir cytundeb ar gyfres o egwyddorion rhanbarthol â phenaethiaid ar gyfer ymgysylltu â chymheiriaid. Cytunwyd ar fodel adolygu a chynllunio gwelliant gan gymheiriaid (y *Rhaglen Partneriaeth Ysgolion*) i randdeiliaid a chafodd ei ardystio gan y Bwrdd Rheoli a'r Cydbwyllgor.
Derbyniodd holl Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant (YCG) GwE hyfforddiant a chefnogaeth barhaus yn ymwneud ag

adolygu gan gymheiriaid, hwyluso, mentora a hyfforddi. Erbyn Rhagfyr 2022 mae 29 o Ymgynghorwyr wedi'u hyfforddi fel adolygwyr cyfoedion a hwyluswyr gwelliant fel rhan o'r *Rhaglen Partneriaeth Ysgolion (RhPY)*. Derbyniodd holl aelodau newydd o staff GwE ddiweddariad ar hyfforddiant y *Rhaglen Partneriaeth Ysgolion*.

Hyfforddwyd 13 o Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant yn ystod Hydref 2021 fel cyflwynwyr rhaglen, ac yn dilyn rhaglen o gysgodi hyfforddiant yn ystod Ebrill 2022 fe gyflwynwyd y rhaglen gyntaf o hyfforddiant RhPY wedi ei hwyluso yn llwyr gan staff GwE yn i gohort 3b Yn ystod Mis Mai 2022. Erbyn Rhagfyr 2022, mae 10 Ymgynghorwr Cefnogi Gwelliant ychwanegol wedi derbyn hyfforddiant fel cyflwynwyr rhaglen, golyga hyn fod trideg tri o Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant bellach a'r gallu i gyflwyno'r rhaglen partneriaethau ysgolion yn llwyddiannus. Yn dilyn y cynnydd hwn mewn cynhwysedd i gyflwyno'r rhaglen fe ddarparwyd hyfforddiant cychwynnol i 90 o ysgolion yn cohort 3C gan y tîm o hwyluswyr GwE.

Erbyn Rhagfyr 2022, mae 37 clwstwr/ cynghrair (206 ysgol) wedi derbyn hyfforddiant y *Rhaglen Partneriaeth Ysgolion* ac maent wedi mynd ati eisoes, neu'n paratoi, i gyflawni gwaith adolygu gan gymheiriaid yn ystod tymor yr hydref 2022. Mae 266 o benaethiaid / uwch arweinwyr wedi'u hyfforddi fel adolygwyr cymheiriaid ledled y rhanbarth. Mae 226 o uwch arweinwyr / arweinwyr canol ac athrawon medrus wedi'u hyfforddi fel '*hwyluswyr gwelliant*'. Bu hyn yn fodd i'r arweinwyr a'r athrawon fanteisio ar addysg broffesiynol o safon a byddai'n cyfrannu tuag at wella'r gallu o ran arweinyddiaeth ledled y rhanbarth. Bu i'r haen gyntaf a'r ail haen o ysgolion cynradd a'r clystyrau sydd ynghlwm dderbyn hyfforddiant ymestynnol ar gyfer eu hwyluswyr gwelliant erbyn Mis Rhagfyr 2022 gyda'r ffocws ar ddatblygu'r defnydd cynyddol ac effeithiol o ymchwil yn eu gweithdai gwelliant. Yn ogystal, darparwyd cyfleoedd ar draws y rhanbarth yn Mis Rhagfyr 2022 i ysgolion a phartneriaethau ehangu ar eu cynhwysiant i weithredu'r rhaglen drwy hyfforddi hwyluswyr gwelliant ychwanegol.

Prif amcan y cynllun yw cynnig hyfforddiant y *Rhaglen Partneriaeth Ysgolion* i bob un o'r 407 o ysgolion rhanbarthol a'r Unedau Cyfeirio. Y bwriad yw hyfforddi tua 15 o glystyrau pob tymor yn ystod blwyddyn academaidd 2021-22 ac 2022-23. Bydd y rhaglen yn cyd-fynd â'r gwaith i ddatblygu cwricwlwm newydd er mwyn cefnogi ysgolion a chlystyrau i werthuso'u cynnydd wrth gyflawni'r daith ddiwygio. I'r perwyl yma mae cyfres o gwestiynau adlewyrchol gyda ffocws ar y daith diwygio wedi eu ffurfio i gyd fynd a'r broses cymheiriol, ac fe gyfeirir ysgolion sy'n derbyn yr hyfforddiant at yr ysgogiadau cwricwlwm sy'n rhan o'r Adnodd Cenedlaethol ar gyfer Gwerthuso a Gwella.

Ym mis Medi 2021, gofynnwyd i ysgolion a chlystyrau nad oedd eisoes yn rhan o'r rhaglen fynegi diddordeb mewn cymryd rhan yn hyfforddiant y *Rhaglen Partneriaeth Ysgolion*. Cafwyd cyfanswm o 33 o glystyrau ar draws y rhanbarth yn mynegi diddordeb, a oedd yn cynnwys 193 o ysgolion rhanbarthol. Erbyn diwedd Mis Rhagfyr 2022 felly, mae hanner o ysgolion y rhanbarth wedi derbyn yr hyfforddiant cychwynnol ac bellach yn neu wedi dechrau ar eu gwaith adolygu a cynllunio gwelliant gyda chymheiriaid.

Mae pedwar clwstwr / cynghrair o ysgolion wedi eu clustnodi i'w cynnwys mewn astudiaeth achos ag ymchwil i effaith y rhaglen yn y flwyddyn 2022-23. Bydd ymchwilydd o'r "Education Development Trust" yn cwblhau'r gwaith yma ar ran y rhanbarth.

**CYMELL A MENTORA**

**Rhoi mynediad at ystod o ddysgu proffesiynol yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, gan gynnwys mynediad at gymell a mentora, i bob ymarferydd addysg mewn ysgolion a lleoliadau sydd yn briodol i'w rôl a'u cyfrifoldeb yn unol â safonau proffesiynol.**

Mae'r Rhaglen Gymell Genedlaethol wedi'i ddarparu drwy'r Gymraeg a'r Saesneg gyda dyddiadau wedi eu hadnabod ar gyfer darparu eto yn ystod tymor y gwanwyn. Mae gwybodaeth am y cymhwyster lefel 3 wedi ei rannu yn dilyn y sesiynau Cenedlaethol, a gwybodaeth am gymwysterau lefel 5 a 7 wedi ei rannu gydag ysgolion a staff GwE.

Mae Sesiynau Goruchwyliaeth a gwahoddiad i'r Grwp Arfer Dda wedi'i rannu, a sesiynau 'Man Adlewyrchu' wedi ei rannu gydag ysgolion a staff GwE.

**YSGOLION SY'N DESTUN PRYDER**

**Parhau i gydweithio â Llywodraeth Cymru, Estyn a'r ALl rhanbarthol perthnasol ar y peilot cenedlaethol aml-asiantaethol i ysgolion uwchradd mewn Mesurau Arbennig a chymorth Cam 3 i'r ysgolion hynny a dynnwyd allan**

**o gategori yn ddiweddar.**
**Ar y cyd â swyddogion yr ALl, cryfhau ymhellach strwythurau a phrosesau rhanbarthol i gefnogi a herio ysgolion cynradd ac uwchradd sy'n destun pryder.**
**Cynllunio a chyflwyno'r Cwricwlwm newydd i Gymru.**

Parheir i gydweithio â Llywodraeth Cymru, Estyn a'r ALl rhanbarthol ar y peilot cenedlaethol aml-asiantaethol i ysgolion uwchradd mewn Mesurau Arbennig ac ar gymorth Cam 3 i'r ysgolion hynny a dynnwyd allan o gategori yn ddiweddar. Parheir hefyd i gydweithio â swyddogion yr ALl i gryfhau strwythurau ymhellach a sicrhau mwy o gysondeb mewn strwythurau a phrosesau rhanbarthol i gefnogi a herio ysgolion cynradd ac uwchradd sy'n destun pryder.

Mae 4 ysgol uwchradd mewn Mesurau Arbennig ar hyn o bryd. Ni ragwelir y bydd yr un o'r 4 ysgol yn cael eu tynnu o gategori yn ystod y flwyddyn ysgol hon.

Mae gwaith yn parhau gyda chymorth 'ymadael cynaliadwy' Cam 3 i'r ysgolion hynny a dynnwyd allan o gategori statudol yn ddiweddar.

Mae cynlluniau cefnogaeth 'holistaidd' unigryw 2022-23 ar gyfer yr holl ysgolion a nodir uchod yn weithredol. Caiff cynnydd ei fonitro drwy waith MAG lleol a bydd Cynlluniau Grwpiau Bwrdd Ansawdd hefyd yn sicrhau bod pob ysgol yn gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid allweddol wrth iddynt gynllunio a chyflwyno eu cwricwlwm newydd, a byddant yn sicrhau eu bod yn gweithio'n gynyddol gyda'u cynghrair/clwstwr ac yn ehangach er mwyn gwella arweinyddiaeth, darpariaeth ac ansawdd y dysgu a'r addysgu.

## YSGOLION A GWASANAETH FEL SEFYDLIADAU SY'N DYSGU (YSD)

**Sicrhau bod GwE a'i weithlu yn parhau i ymateb i holl ofynion a gwerthoedd Sefydliad sy'n Dysgu.**
Mae'r gwaith o godi ymwybyddiaeth ysgolion ac awdurdodau o bwysigrwydd Ysgolion fel Sefydliadau sy'n dysgu (YSD) angen ei uwchafu. Mae ysgolion y rhanbarth wedi cymryd camau breision yn datblygu'r 4 thema trawsliniol o amser, technoleg, ymddiriedaeth a meddwl gyda'u gilydd yn ystod y cyfnod Covid ac mae hyn wedi rhoi sylfaen gadarn i'r ysgolion allu parhau i ddatblygu yn eu dulliau o gydweithio a chyfathrebu.

Mae'r diwylliant o YSD i'w weld yn amlwg yn mwyafrif yr ysgolion, er nad ydynt efallai yn defnyddio'r eirfa o amgylch y 7 dimensiwn. Ble mae'r YSD ar ei orau mae'n digwydd yn ddilyffethair yn yr ysgolion heb deimlad o fod yn unrhyw faich ychwanegol. Mae dyfodiad y Fframwaith Gwella Ysgolion a'i flaenoriaethau hefyd wedi helpu i osod cyfeiriad clir i'r ysgolion o'r angen i gydweithio gyda'u gilydd er lles y disgyblion a'r dalgylchoedd.

**Helpu ysgolion ar draws y rhanbarth i gael dealltwriaeth ddyfnach o'r hyn yw Sefydliad sy'n Dysgu, fel ei fod yn dod yn rhan naturiol o ddiwylliant ysgolion.**
Mae'r dealltwriaeth o ran bod yn YSD wedi datblygu mewn sawl ysgol, ond mae'r cyfnod clo wedi golygu fod rhai ysgolion, yn enwedig ble mae'r arweinyddiaeth wedi newid, angen diweddariad o ran pwysigrwydd y gwaith fel bod y diwylliant yn wybodus i holl randdeiliaid yr ysgol. Yn yr arfer orau mae awdurdod wedi cynnal diweddariad i'w holl ysgolion a chynnig arweiniad ar y maes i'w llywodraethwyr. Mae peth gwaith i'w wneud i ddiweddaru ysgolion o ran YSD a bwriedir gwneud hyn trwy gyfres o weithdai dewisol ar draws y rhanbarth.

**Cryfhau ymhellach ein partneriaeth gyda SAU a datblygu ymwybyddiaeth myfyrwyr o YSD.**
Mae angen gwneud gwaith datblygu pellach gyda'n partneriaid SAU i edrych ar Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu a sicrhau bod gan ein myfyrwyr ddealltwriaeth ddyfnach o YSD a'u gwerthoedd.

## AMCAN 6 - BUSNES

**Sicrhau bod gan GwE drefn lywodraethu gref a chefnogaeth fusnes a gweithredol effeithiol sy'n rhoi gwerth am arian.**

**Systemau Rhannu Gwybodaeth**
Rhannwyd dangosfwrdd gyda chanlyniadau arholiadau CA4 a CA5 y tymor diwethaf. Bwriedir datblygu a rhyddhau dangosfyrddau ar gyfer dangosyddion CA4 a data CYBLD ysgolion y rhanbarth yn ystod y tymor, a fydd yn galluogi

staff i harneisio'r wybodaeth ofynnol yn gyflym.

**Rheoli Perfformiad a Llywodraethu**
Mae'r fframwaith atebolrwydd clir a grymus yn gryfder allweddol yn GwE. Mae cynlluniau busnes manwl ar bob lefel o gynllunio yn mynd i'r afael â phob agwedd ar waith GwE ac yn nodi'n glir gyfraniad y gwasanaeth at yr agenda trawsnewid. Mae cynlluniau wedi'u costio'n llawn, ceir meini prawf llwyddiant clir a cherrig milltir ar gyfer cyflawni amcanion. Ceir trefniadau hunanarfarnu manwl. Adolygir y cynlluniau bob chwarter, ble arfarnir cynnydd ac effaith. Mae staff, ar bob lefel, yn llawn ddeall eu cyfrifoldeb am welliant parhaus ac atebolrwydd.

Mae gan bob Awdurdod Lleol gynllun busnes manwl sydd wedi'i gytuno rhwng y pennaeth gwasanaeth a'r ymgynghorydd craidd. Caiff cynnydd tuag at gyflawni'r deilliannau cytûn, ar lefel awdurdod lleol, ei fonitro bob chwarter a'i drafod yn rheolaidd mewn cyfarfodydd rhwng yr ymgynghorydd arweiniol a'r Awdurdod Lleol. Caiff materion parhaus eu cyfeirio at Uwch Arweinwyr GwE yn amserol.

Mae hunanarfarnu yn nodwedd gref yn GwE ac mae'r broses hunanarfarnu yn un gylchol a pharhaus. Rhoddir pwys mawr ar atebolrwydd ac adolygu parhaus, ac mae pwyslais cyson ar gynnydd yn unol â blaenoriaethau. O ganlyniad, mae arweinwyr GwE yn adnabod, yn fanwl gywir, meysydd ble mae perfformiad yn dda, meysydd sydd angen eu datblygu neu ble mae elfen o risg o ran gwella'r profiadau a'r deilliannau addysgol i ddysgwyr.

**Gwerth am Arian**
Mae gan y consortiwm brosesau rheolaeth ariannol effeithiol ar waith. Mae cyfathrebu ac ymgynghori ynghylch trefniadau ariannol yn effeithiol, gyda staff GwE, yr awdurdod lleol lletyol a'r Cyd-Bwyllgor yn adolygu'r cyllid craidd a'r gwariant grant yn rheolaidd.

Mae dadansoddiad ariannol cadarn yn sail i gyflawni'r cynllun busnes. Drwy ddefnyddio data yn gynyddol effeithiol i adnabod blaenoriaethau allweddol, cryfheir y cyswllt rhwng y broses cynllunio busnes a phenderfyniadau cynllunio ariannol gan fod y ffrydiau gwaith sy'n sail i'r cynllun busnes yn nodi'n glir yr adnoddau i'w defnyddio.

Lluniwyd fframwaith ffurfiol i asesu'r gwerth am arian ehangach a ddarperir gan GwE. Mae'r farn bellach yn gyson ar draws yr holl randdeiliaid ar sut y gellir mesur gwerth am arian gweithgareddau GwE o fewn strwythur ac amcanion y cynllun busnes.

**Cofrestr Risg**
Mae trefniadau trylwyr a chynhwysfawr ar waith i adnabod a rheoli, yn fanwl gywir, risgiau ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r gofrestr risg yn ddogfen fyw, a chaiff ei diweddaru'n gyson i adnabod risgiau sy'n cynyddu, neu risgiau na fernir sy'n lefel uchel mwyach.

Trwy reoli'r risgiau i'r rhanbarth yn effeithiol, gall GwE gefnogi amcanion y rhanbarth, defnyddio adnoddau yn effeithiol a chyflawni’r deilliannau yn ôl y bwriad.

## 2. ATODIAD :

Data Rhanbarthol

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding





# Cynllun Busnes GwE

# 2022-2023

# Data Rhanbarthol ac ALl

# Chwarter 3

CYNLLUN BUSNES 2022-2023

**BLAENORIAETHAU A DARPARIAETH RANBARTHOL 2022-2023**

**Data Rhanbarthol ac Awdurdod Lleol**

**AMCAN 1 - CWRICWLWM AC ASESU**

**Cefnogi cwricwlwm cenedlaethol ble mae tegwch a rhagoriaeth yn ganolog ac sydd yn gosod safonau uchel i bob dysgwr.**

**CONTINWWM ADDYSG 3 i 16**

**Data rhanbarthol:**

**Prosiect pontio addysgeg**
- 12 clwstwr

**Rhwydwaith 3-8 Tymor yr Hydref:**
- 343 wedi mynychu yn rhanbarthol

**Gweithdy i Athrawon a CD yn newydd i'r grŵp oedran 3-8:**
- 135 wedi mynychu yn rhanbarthol

**Ffigyrau presenoldeb ar gyfer Gweithdy Pontio rhanbarthol GwE:**
- 147 wedi mynychu yn rhanbarthol

**GWIREDDU'R CWRICWLWM (CWRICWLWM I GYMRU)**

**Data Rhanbarthol:**

**Niferoedd yn mynychu'r sesiynau Dysgu Proffesiynol CiG cenedlaethol ar-lein:**
- Cyfanswm o 327 ar draws Cymru
- 144 o GwE

**TIMAU MDaPh**

**Data rhanbarthol :**

**Mwy o ymweliadau â'r wefan - mynediad i ddeunyddiau ac enghreifftiau a rennir gan rwydweithiau ac ysgolion:**

<u>Rhwng 1/9/21 a 23/3/22</u>
- 2845 CfW GwE Support Centre
- 2674 CiG Canolfan Cefnogaeth GwE

<u>Rhwng 1/9/21 a 18/7/22</u>
- 6587 CfW GwE Support Centre
- 6429 CiG Canolfan Cefnogaeth GwE

<u>Rhwng 1/9/21 a 10/10/22</u>
- 7358 CfW GwE Support Centre
- 7239 CiG Canolfan Cefnogaeth GwE

<u>Rhwng 1/9/21 a 20/1/23</u>
- 8418 CfW GwE Support Centre
- 8100 CiG Canolfan Cefnogaeth GwE

| AMCAN 2 - DATBLYGU PROFFESIWN ADDYSG O SAFON UCHEL<br>Gwella'r dysgu a'r addysgu yn ein hysgolion |
|---|
| **IEITHOEDD TRAMOR MODERN** |

**Data Rhanbarthol:**

**Power Language:**
- tanysgrifiad 2-flynedd: 123

**Uwchsgilio cynradd:**
- Nifer yr ysgolion yn mynychu: 7 (9 athro)

**Hyfforddiant Cynradd PowerLanguage**
- Nifer yr ysgolion yn mynychu: 30 (31 o athrawon)

**Cerdd Iaith Almaeneg:**
- Nifer yr ysgolion: 3

**Y BA 2022-2023**
- Nifer yr ysgolion: 13 (14 o athrawon)

**Mentora Blwyddyn 8/9**
- Nifer yr ysgolion: 25

**Rhaglen Dylunio ar gyfer Ieithoedd**
- Nifer yr ysgolion wedi cofrestru: 26
- Nifer yr aelodau: 33

**Prosiect Creu ar draws ieithoedd 2022-2023**
- Nifer yr ysgolion yn cymryd rhan ac â diddordeb: 3

**Cyfarfod Rhwydwaith Uwchradd - Tachwedd 2022**
- Nifer yr ysgolion: 29

**Beth am astudio ieithoedd: Diwrnod prifysgol i flwyddyn 8/9 (10.11.22)**
- Nifer yr ysgolion â diddordeb hyd yma: 9
- 154 o ddisgyblion

**Beth am astudio ieithoedd: Diwrnod prifysgol i flwyddyn 8/9 (31.01.2023)**
- Nifer yr ysgolion wedi cofrestru: 8
- 130 o ddisgyblion

**Beth am astudio ieithoedd: Diwrnod prifysgol i flwyddyn 8/9 (1.2.23)**
- Nifer yr ysgolion wedi cofrestru: 8
- 130 o ddisgyblion

**Beth am astudio ieithoedd: Diwrnod prifysgol i flwyddyn 8/9**
**Cyfanswm data 2022-2023**
- Nifer yr ysgolion: 25
- 410 o ddisgyblion

| CALU - LLDC | |
|---|---|
| **Data rhanbarthol :**<br><br>**Cymorthyddion addysgu sydd newydd eu penodi:**<br>• 40<br><br>**Cymorthyddion wrth eu Gwaith:**<br>• 96<br><br>**Darpar CALU Cylch 4:**<br>• 26<br><br>**Darpar CALU Cylch 5:**<br>• 35<br><br>**Darpar CALU Cylch 6:**<br>• 25 | **Statws CALU Cylch 3:**<br>• 27<br><br>**Statws CALU Cylch 4:**<br>• 11<br><br>**Aseswyr CALU:**<br>• 31<br><br>**Cyflwyniad i Cwricwlwm i Gymru:**<br>• 219 |

**Y Gymraeg (DP)**

**Data Rhanbarthol***:*

**GwE yn mynychu fforymau penaethiaid:**
- 6

**Ein Llais Ni**
- Astudiaethau achos wedi eu cyflwyno: 65

**Mynediad i gyrsiau y Ganolfan Dysgu genedlaethol**
- Cyfanswm gweithgareddau dysgu: 54

**Nifer sy'n parhau â'r gweithgareddau dysgu:**
- 23

**Darpariaeth y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ymrwymiad ysgolion y rhanbarth i'r hyfforddiant sydd ar gael:**
- 25

**SAFON UWCH**

**Data Rhanbarthol:**

**Niferoedd arweinwyr Ôl-16/Penaethiaid 6ed dosbarth sydd wedi mynychu cyfarfodydd rhwydweithio / hyfforddiant arweinwyr canol:**
- 21

**YMCHWIL A GWERTHUSO**

**Data Rhanbarthol:**

**Prosiect Ymchwil gwrth-fwlio KiVa:**
- Mae 30 o ysgolion yng Ngogledd Cymru wedi'u recriwtio ar gyfer yr astudiaeth.

**AGA**

**Data Rhanbarthol:**

**ANG**
**Rhaglenni hyfforddiant ANG, GA a MS cenedlaethol:**

- Nifer o ANG GwE wedi mynychu Sesiwn 1: 216 (tua 72% o garfan eleni)
- Nifer o Wirwyr Allanol GwE wedi mynychu hyfforddiant: 78 (oddeutu. 92% o'r GA sydd yn gweithio yng nghonsortiwm GwE)
- Nifer o Fentoriaid Sefydlu GwE wedi mynychu Sesiwn 1: 62.

## MATHEMATEG A RHIFEDD

**Data Rhanbarthol:**

| | Nifer yr ysgolion | Nifer ymweliadau |
|---|---|---|
| Cymorth pynciol unigol i ysgolion cynradd | 4 | 8 |
| Cymorth unigol i ysgolion uwchradd | 19 | 26 |
| Cyfarfodydd rhwydwaith i Benaethiaid Mathemateg | 47 | 48 (o bobl) |

## SAESNEG A LLYTHRENNEDD

**Data Rhanbarthol:**

**Cymorth unigryw i ysgolion:**

- Cynradd: 25
- Uwchradd: 49

## CYMRAEG A LLYTHRENNEDD

**Data Rhanbarthol**

**Cyfarfod Rhwydwaith Cydlynwyr Llythrennedd**
- 20 (ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog)

**Cyfarfodydd rhwydwaith rhithiol 'Ar alw' ar y cyd â Chymwysterau Cymru er mwyn ymateb i'r ymgynghoriad 'Dweud eich dweud' ar y cymwysterau TGAU Cymraeg newydd**
- 13

**Rhwydwaith Cefnogol y Gymraeg YCS**
- **3**

**Prosiect 'Ein Llais Ni' (GwE)**
- Nifer yr ysgolion uwchradd yn rhan o'r prosiect: 13

**Digwyddiad 'Ein Llais Ni: Datblygu siaradwyr y dyfodol' (Venue Cymru)**
- Ysgolion uwchradd (cyfrwng Cymraeg a dwyieithog) a gymerodd ran yn y digwyddiad yn ogystal â'r ysgolion uwchradd (cyfrwng Cymraeg a dwyieithog) a fynychodd y digwyddiad: 10

**Prosiect 'Dylunio ar gyfer Ieithoedd CiG'**
- Adrannau y Gymraeg ysgolion uwchradd sy'n rhan o'r prosiect: 6

**Aelodau o'r Teams / Google Classroom 'GwE - Y Gymraeg - Uwchradd' - mae pob Arweinydd Y Gymraeg ym mhob ALl yn aelod o'r rhwydwaith digidol hwn ac yn derbyn copi o'r cylchlythyr 'O'r Stordy'**
- 27

**Aelodau o'r Teams / Google Classroom 'GwE - Y Gymraeg – Uwchradd YCS' - mae aelodaeth y rhwydwaith digidol hwn ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg yn parhau i gynyddu ac mae pob ysgol cyfrwng Saesneg yn y**

**rhanbarth yn derbyn copi o'r cylchlythyr 'O'r Stordy' (fersiwn YCS)**

- 19

**GWYDDONIAETH**

**Data Rhanbarthol:**

**Rhwydweithiau Penaethiaid Gwyddoniaeth Tymor yr Hydref:**

- 37

**Wedi derbyn cymorth ysgol penodol:**

- 13

**OEDRAN 3-8**

**Data Rhanbarthol:**

**Cymorth i ysgolion yn rhanbarthol:**

| Nifer yr ysgolion | Nifer yr ymweliadau |
|---|---|
| 55 | 79 |

**Cymorth clwstwr (nifer yr ysgolion):**

- 92

**Rhwydwaith 3-8 Tymor yr Hydref:**

- 343 wedi mynychu yn rhanbarthol

**Gweithdy i Athrawon a CD yn newydd i'r grŵp oedran 3-8:**

- 135 wedi mynychu yn rhanbarthol

**AMCAN 3 - ARWEINYDDIAETH**
**Cefnogi arweinwyr ysbrydoledig sy'n cydweithio i godi safonau. Cynnwys darpar arweinwyr a rhwydweithiau proffesiynol**

**ARWEINYDDIAETH**

**Data Rhanbarthol:**

| | 2021-22 |
|---|---|
| 1.Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol | 102 |
| 2.Rhaglen Datblygu Uwch Arweinwyr | 72 |
| 3.Rhaglen Datblygu Darpar Benaethiaid (paratoi at CPCP) | 35 |
| 4.Rhaglen Datblygu Penaethiaid Newydd a Phenaethiaid Dros Dro | 32 |
| 5.Rhaglen Ddatblygu i Benaethiaid Profiadol | 17 |
| **CYFANSWM** | **258** |

**Niferoedd yn dilyn Rhaglenni arweinyddiaeth**

| Rhaglen | 2021-22 | 2022-23 | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| MLDP | 74 | 86 | +14% |
| RhDAG | 29 | 41 | +30% |
| SLDP | 44 | 74 | +40% |
| RhDUA | 27 | 30 | +10% |
| | | | |
| Cyfanswm | 174 | 231 | +25% |

| Rhaglen / Programme | 2021-22 | 2022-23 |
|---|---|---|
| RhDDB (CPCP) / AHT (NPQH) | 35 | *35 cais |
| Penaethiaid Newydd a Mewn gofal / New and Acting Headteachers / | 15 | 30 |
| Penaethiaid Profiadol / Experienced Headteachers | 17 | 6 |

**LLYWODRAETHWYR**

**Data rhanbarthol:**

**Cynrychiolwyd GwE yng nghyfarfodydd Rhanbarthol a Chenedlaethol Swyddogion Cefnogi Llywodraethwyr (SCLl) Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC):**

- Cyfarfod Grŵp SCLl CCAC 08/06/22
- Cyfarfod SCLl Gogledd Cymru 16/06/22 – Rhannwyd diweddariadau gan GwE
- Cyfarfod SCLl Gogledd Cymru 29/09/22 – Rhannwyd diweddariadau gan GwE
- Cyfarfod Grŵp SCLl CCAC 29/09/22 - Rhannwyd diweddariadau gan GwE
- Cyfarfod Grŵp SCLl CCAC 10/10/22

**AMCAN 4 - YSGOLION CRYF A CHYNHWYSOL**

**Yn ymroi i ragoriaeth, tegwch a llesiant**

**AILGYDIO MEWN DYSGU**

**Data rhanbarthol :**

**Gwella rhuglder mewn Darllen ar Lafar (iFOR**)

- Mae 52 ysgol a 66 athro wedi cofrestru a chael mynediad at fideos hyfforddiant ar-lein.

Dyma niferoedd yr athrawon sydd wedi defnyddio Google Classroom:

- Mae 63 wedi defnyddio'r adnoddau Saesneg
- Mae 41 wedi defnyddio'r adnoddau Cymraeg.

**Sesiynau hyfforddi iFOR**

- Cofrestrodd 28 ysgol a 32 o athrawon i gael hyfforddiant ac adnoddau yr ymyraethau rhuglder darllen (Darllen Ailadroddol a Geiriau Amledd Uchel).

**Prosiect Cadw Disgyblion i Ddarllen (KPR).**

- Niferoedd ysgolion GwE yn cymryd rhan: 45

**Prosiect Cadw Disgyblion i Ddarllen (KPR).**

Dyma fanylion ynghylch niferoedd athrawon a rhieni ac ymweliadau â'r adnoddau ar-lein:

| | 07/2021 | 07/2022 |
|---|---|---|
| Nifer yr ysgolion sydd wedi adnewyddu trwydded(au) yn uniongyrchol gyda SR er mis Medi 2021 | 30 | 15 |
| Nifer y disgyblion sydd wedi ymuno â Google Classroom | 40 | 40 |
| Nifer y staff sydd wedi ymuno â Hwb | 71 | 73 |
| Wedi gwylio Canllawiau Fideo: Headsprout gartref (Rhieni ac aelodau staff) | 399 | 513 |
| Wedi gwylio Canllawiau Fideo: Sut i ddefnyddio straeon Headsprout (Rhieni) | 106 | 363 |
| Wedi gwylio Canllawiau Fideo: Sut i weinyddu Meincnodau (Rhieni) | 18 | 46 |
| Wedi gwylio Canllawiau Fideo: Sut i weinyddu Meithrin Rhuglder (Rhieni) | 13 | 54 |
| Wedi gwylio Canllawiau Fideo: Sut i drefnu treial am ddim/prynu neu adnewyddu trwydded (Staff ysgol) | 65 | 77 |
| Wedi gwylio Canllawiau Fideo: Sut i ychwanegu disgyblion at y rhaglen (Staff ysgol) | 84 | 135 |
| Wedi gwylio Canllawiau Fideo: Sut i wirio sgorau (Staff ysgol) | 39 | 85 |
| Wedi gwylio Canllawiau Fideo: Sut i fewnbynnu sgorau Meincnod (Staff ysgol) | 16 | 25 |
| Wedi gwylio Canllawiau Fideo: Sut i gael mynediad i Google Classroom (Rhieni) | 33 | 50 |
| Gweminar 1 Cychwyn arni gyda Headsprout | - | 2 |
| Gweminar 2 Monitro cynnydd wrth ddefnyddio Headsprout | - | 0 |

**Sesiynau KPR**

- Nifer a fynychodd: 9

**Dysgu Iaith a Llythrennedd o Bell (RILL) - CAM 2**

- Hyfforddwyd 33 o ysgolion mewn RILL (58 o athrawon) yn ystod blwyddyn ysgol 2021-22, gyda'r mwyafrif yn gyfrwng Cymraeg:

**STRATEGAETH I GEFNOGI RHIENI/GOFALWYR**

**Data Rhanbarthol:**

**Helpu Eich Plentyn i Ddysgu:**

- 342 o ddefnyddwyr wedi cofrestru

**Helpu Eich Plentyn yn ei Arddegau i Ddysgu:**

- 421 o ddefnyddwyr wedi cofrestru

**AMCAN 5- CEFNOGI SYSTEM SY'N HUNAN WELLA**

**Cefnogi system ble mae gan y proffesiwn addysg y sgiliau, y gallu a'r capasiti i ddysgu a gwella eu harferion yn gyson**

**YMGYSYLLTU Â CHYMHEIRIAID**

**Data Rhanbarthol:**

**Nifer o ysgolion/clystyrau/cynghreiriau wedi ymrwymo:**

- 206 / 37

**Nifer o Adolygwyr Cymheiriaid a hyfforddwyd:**

- 266

**Nifer o Hwyluswyr Gwelliant a hyfforddwyd:**

- 226

**YSGOLION SY'N DESTUN PRYDER**

**Data Rhanbarthol:**

**Ysgolion uwchradd mewn Mesurau Arbennig:**

- 4

**Ysgolion uwchradd mewn Gwelliant Sylweddol:**

- 0

**Ysgolion cynradd mewn Mesurau Arbennig:**

- 1

**Ysgolion cynradd mewn Gwelliant Sylweddol:**

- 1

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**15 CHWEFROR 2022**

**Adroddiad gan:** Arwyn Thomas - Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

**Pwnc:** Datganiad Ysgrifenedig: Gwella ysgolion a'r dirwedd o ran gwybodaeth - Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

**1.0 Pwrpas yr adroddiad**

Cyflwyno gwybodaeth i aelodau'r Cyd-bwyllgor ar gynnwys Datganiad Ysgrifenedig Y Gweinidog y Gymraeg ac Addysg.

**2.0 Cefndir**

2.1 Ym mis Mehefin 2022, cyhoeddwyd canllawiau ar wella ysgolion er mwyn cyflwyno ffordd newydd i'r system addysg gydweithio i gynorthwyo ysgolion wrth wella, magu hyder yn y system, a pharhau i ganolbwyntio'n glir ar gynorthwyo pob dysgwr i symud ymlaen drwy ei addysg.

2.2 Ym mis Gorffennaf 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru yr adroddiad Astudiaeth gwmpasu ar gyfer gwerthuso diwygiadau i'r cwricwlwm ac asesu yng Nghymru, a oedd yn cynnig argymhellion ynghylch sut y byddwn yn gwybod bod ein cwricwlwm newydd yn gwella'r broses ddysgu yng Nghymru.

2.3 Ar 19 Ionawr 2023, cyhoeddodd Y Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ddatganiad ysgrifenedig: 'Gwella ysgolion a'r dirwedd o ran gwybodaeth' oedd yn amlinellu'r camau nesaf o ran datblygu ecosystem/tirwedd data a gwybodaeth newydd. Datganiad Ysgrifenedig: Gwella ysgolion a'r dirwedd o ran gwybodaeth (19 Ionawr 2023)

2.4 Hefyd ar 19 Ionawr 2023, cyhoeddwyd adroddiad 'Datblygu ecosystem data a gwybodaeth newydd sy'n cefnogi'r system ysgolion ddiwygiedig yng Nghymru' Ymchwil: Archwilio system wybodaeth newydd ar gyfer ysgolion. Mae'r adroddiad yn nodi argymhellion ar gyfer dulliau o ddefnyddio data a gwybodaeth mewn ffordd a fydd yn galluogi partneriaid ar draws y system i weithio gyda'i gilydd i gynorthwyo dysgwyr i gyflawni eu potensial, beth bynnag fo'u cefndir.

2.5 Mewn Datganiad gan PAEM Owen Evans ynglŷn â'r cyhoeddiad o 'Datblygu ecosystem data gwybodaeth newydd' gan Lywodraeth Cymru, croesawyd y cynlluniau i ddatblygu ystod ehangach o wybodaeth i gefnogi trefniadau gwell ar gyfer gwerthuso a gwella. Datganiad

gan PAEM Owen Evans ynglŷn â chyhoeddiad heddiw o 'Datblygu ecosystem data a gwybodaeth newydd' gan Lywodraeth Cymru | Estyn

**3.0 Ystyriaethau**

3.1 Mae'r adroddiad yn amlinellu'r gwahanol anghenion gwybodaeth a geir yn y system ac yn cynnig datblygu cyfres ehangach o wybodaeth am feysydd fel llesiant (dysgwyr a staff) a datblygu sgiliau dysgwyr sy'n rhan annatod o'r pedwar diben.

3.2 Gan adeiladu ar ganfyddiadau'r adroddiad, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag ymarferwyr ledled Cymru i ddatblygu set gyffredin o wybodaeth sy'n gallu helpu i gefnogi'r broses ddysgu drwy ddeall cynnydd a chyrhaeddiad dysgwyr, a'r elfennau sy'n sbarduno'r rhain. Bydd hyn wedi'i lywio gan yr wyth ffactor sy'n cefnogi'r broses o wireddu'r cwricwlwm, a nodir yn y canllawiau ar wella ysgolion. Bydd yn canolbwyntio'n arbennig ar wella'r ddealltwriaeth o gynnydd dysgwyr sydd o dan anfantais. Mae'r Gweinidog Addysg yn awyddus i glywed barn rhieni yn y gwaith hwn, er mwyn deall pa wybodaeth fydd yn ddefnyddiol iddynt.

3.3 Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol a phartneriaethau ochr yn ochr â hyn i geisio creu dull cydlynus a chyson ledled Cymru sy'n cefnogi'r broses ddysgu ac sy'n lleihau'r llwyth gwaith i athrawon ac ysgolion. Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu i ysgolion yn yr wythnosau nesaf i roi rhagor o fanylion, ac yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ymhellach wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo.

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad.

**5.0 Goblygiadau Ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

**6.0 Effaith ar Gydraddoldeb**

6.1.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd**

8.1 Ymgynghori â Bwrdd Rheoli GwE.

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**
Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**
Dim i'w ychwanegu i'r adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol.

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**15 CHWEFROR 2023**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | Arwyn Thomas – Rheolwr Gyfarwyddwr GwE |
| **Pwnc:** | Ein Llais Ni |

## 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Rhannu gwybodaeth gydag aelodau'r Cyd-bwyllgor am lwyddiant prosiect Ein Llais Ni a'r cynlluniau ar gyfer ehangu'r gwaith ymhellach.

## 2.0 Cefndir

2.1 Bwriad Ein Llais Ni yw amlygu pwysigrwydd llafaredd yng nghwricwlwm yr ysgol yng nghyd-destun y Gymraeg (ar draws yr holl ystod oed) a chynnig syniadau ar gyfer strategaethau y gall ysgolion/athrawon eu datblygu er mwyn annog a hybu medrau siarad a gwrando dysgwyr.

2.2 Mae'r gwaith wedi ei ddatblygu ar y cyd ag ysgolion ar draws rhanbarth y gogledd a Phrifysgol Bangor, gyda'r Athro Enlli Thomas (Dirprwy Is-Ganghellor Cynorthwyol – Y Gymraeg) sy'n arbenigwr rhyngwladol ar hyrwyddo sgiliau llafaredd a strategaethau addysgu dwyieithog, yn arwain yr ymchwil gweithredol.

2.3 Nod y prosiect yw:

- Datblygu addysgeg a chynnig syniadau ar gyfer strategaethau y gall ysgolion/athrawon eu datblygu er mwyn annog a hybu medrau siarad a gwrando dysgwyr, gan gynnwys defnyddio technoleg ddigidol i gyfoethogi.
- Darparu Adnodd Dysgu Proffesiynol sy'n rhoi arweiniad ar gynllunio a chyfeiriad at adnoddau i athrawon fel y gallent roi cynnig ar strategaethau amrywiol yn ôl anghenion eu dysgwyr.
- Darparu arweiniad i arweinwyr llafaredd ar y camau ymarferol y gellid eu dilyn yn strategol, yn ogystal ag adnoddau cefnogol i'w gwireddu.
- Rhoi mynediad at ymchwil ac arferion effeithiol.

## 3.0 Materion i'w hystyried

3.1 Llwyddiant rhan 1 – amlinellir isod y prif ddatblygiadau ar gyfer rhan 1 o'r prosiect, rhwng y cyfnod Medi 2021 i Tachwedd 2022:

- Cyflwynodd 80+ o athrawon astudiaethau achos oedd yn rhoi sylw i effaith ar yr addysgu a'r dysgu gan ymdrin ag amrywiol themâu.
- Cynhaliwyd cyfweliadau gan Brifysgol Bangor gyda'r athrawon sy'n rhan o'r ymchwil mwy dwys er mwyn gwerthuso effeithiolrwydd yr hyn gyflwynwyd i'r ysgolion gydol y flwyddyn.
- Lluniwyd Adnodd Dysgu Proffesiynol ar ffurf gwefan www.einllaisni.cymru (Cymraeg yn unig ar hyn o bryd) er mwyn coladu'r adnoddau. Mi fydd yr adnodd yma yn ddarpariaeth fydd ar gael yn genedlaethol ac i bob ysgol.
- Cwblhawyd adroddiad ymchwil gan Brifysgol Bangor er mwyn gwerthuso effeithiolrwydd y prosiect, gyda golwg ar adnabod heriau penodol a wynebir o fewn ysgolion o ran y ffordd orau o gael plant i ddefnyddio eu Cymraeg a'r Sgiliau sy'n gysylltiedig a'i defnyddio.
- Mae myfyriwr o Brifysgol Bangor wedi cydweithio'n agos gyda'r Athro Enlli Môn Thomas ac wedi ymchwilio i'r maes. Mae hyn wedi arwain at gynhyrchu llyfryn ar gyfer ymarferwyr sy'n gyfeirlyfr cyflym i athrawon ar ddatblygu sgiliau llafaredd plant a phobl ifanc – 'O Enau Plant'. Mae'r adborth cychwynnol i'r adnodd yn gadarnhaol iawn.
- Cynhaliwyd digwyddiad 'Ein Llais Ni: Datblygu Siaradwyr y Dyfodol' ar 22 Tachwedd 2022. Cafwyd cyfraniad gwerthfawr gan ysgolion fu'n rhan o'r gwaith, cynrychiolaeth o Lywodraeth Cymru, Bwrdd Rheoli Ein Llais Ni, Prifysgol Bangor – darlithwyr a myfyrwyr, Swyddogion Awdurdodau Lleol, athrawon o ysgolion presennol y prosiect ac eraill sydd â diddordeb. Cafwyd adborth cadarnhaol ar ôl y diwrnod.
- Bwriedir ymestyn y gwaith ymhellach drwy barhau i ddatblygu'r wefan, hyrwyddo'r gwaith gyda'r YCG a chodi ymwybyddiaeth o gynnwys yr adnodd Dysgu Proffesiynol yn genedlaethol.

3.2 Mae'r Tîm Prosiect wedi amlygu'r camau nesaf yn dilyn gwerthusiad o'r gwaith yn rhan 1, ac wedi bod yn llwyddiannus yn dilyn cyflwyno cais am gyllid gan Llywodraeth Cymru i ddatblygu ac ehangu'r gwaith ymhellach, sef rhan 2 o'r prosiect.

3.3 Bwriad yr adnodd ychwanegol yw i ddyfnhau'r gwaith gyda'r ysgolion presennol ac ehangu i fwy o ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn ogystal â datblygu darpariaeth gyfatebol ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg, cyd-weithio ar ddarpariaeth ar gyfer ysgolion yn genedlaethol yn ogystal â chryfhau'r cyswllt efo'r Brifysgol a myfyrwyr AGA.

3.4 Y prif amcanion fydd:

- meithrin hunan hyder a lles dysgwyr, a'u datblygu'n gyfathrebwyr dwyieithog hyderus
- arbrofi â strategaethau (gan gynnwys defnyddio arfau digidol) er mwyn hyrwyddo sgiliau llafaredd yn y Gymraeg
- datblygu athrawon fel ymchwilwyr gweithredol – myfyrio ar ymchwil gyfoes, modelu strategaethau ar waith ac arfarnu'r llwyddiant trwy gyflwyno astudiaethau achos
- cynorthwyo athrawon i gynllunio'n fwy bwriadus er mwyn cefnogi a datblygu medrau siarad a gwrando'r dysgwyr yn y Gymraeg yng nghyd-destun Cwricwlwm i Gymru
- cynnig profiadau dilys i'r dysgwyr ddefnyddio eu Cymraeg mewn sefyllfaoedd amrywiol yn eu bywydau bob dydd trwy gydweithio â phartneriaid (asiantaethau/sefydliadau/unigolion).

3.5 O ran cynllunio a gweithredu rhan 2 o'r prosiect (Ionawr 2023 – Mehefin 2024), bwriedir:

- Penodi swyddog prosiect er mwyn hyrwyddo'r prosiect a'r wefan, yn ogystal a datblygu deunyddiau addysgu, cydlynu a chynnal hyfforddiant athrawon, ar-lein a wyneb yn wyneb. Bydd yn cysylltu ag ysgolion, yn aelod o dîm prosiect Ein Llais Ni ac yn cyd weithio'n agos efo tîm ymchwil o Brifysgol Bangor. Bydd yn rôl greiddiol o fewn y tîm prosiect i sicrhau ein bod yn cyflawni'r holl dargedau ar amser ac o safon. Bydd yn defnyddio eu harbenigedd addysgu i gefnogi athrawon ar y camau ymarferol i ddatblygu llafaredd drwy roi Ein Llais Ni ar waith.
- Penodi swyddog ymchwil Prifysgol rhan amser er mwyn gwerthuso'r gwaith a chefnogi ysgolion i hunanwerthuso eu hymchwil.
- Datblygu dyluniad a chynnwys y wefan Dysgu Proffesiynol fel adnodd cenedlaethol.

3.6 Ar gyfer y cyfnod nesaf yn ogystal, byddwn yn datblygu'r prosiectau a ganlyn:

**Prosiect 1:** Ymestyn y gefnogaeth i ddatblygu medrau siarad a gwrando mewn Ysgolion Cyfrwng Cymraeg a dwy iaith drwy ddyfnhau'r gwaith efo'r ysgolion presennol ac ehangu i ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill yn rhanbarthol a chenedlaethol.

- o Datblygu cynnwys ac adnodd Dysgu Proffesiynol i ysgolion - cynllunio a datblygu adnoddau pellach i gyfoethogi cynnwys y wefan a rhoi arweiniad ar ffurf sesiynau digidol ac wyneb yn wyneb i athrawon sy'n rhoi Ein Llais Ni ar waith.

**Prosiect 2:** Cefnogaeth i ddatblygu medrau siarad a gwrando mewn Ysgolion Cyfrwng Saesneg.

- o Peilota Ein Llais Ni mewn traws doriad o ysgolion cyfrwng Saesneg (cynradd ac uwchradd).
- o Addasu'r adnodd Dysgu Proffesiynol sydd wedi ei lunio yn rhan 1 er mwyn cyd-fynd ag addysgeg cyflwyno'r Gymraeg mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg.
- o Cyd-weithio gyda phartneriaethau (awdurdodau a rhanbarthau) i ddatblygu'r gwaith.
- o Cyd-weithio gyda thîm ymchwil Prifysgol Bangor er mwyn gwerthuso'r gwaith a chynnig argymhellion.
- o Cyflwyno adnodd Dysgu Proffesiynol cyfatebol i'r hyn ddatblygwyd yn rhan 1 er mwyn cefnogi datblygiad llafaredd mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg.

- **Prosiect 3:** Datblygu addysgeg darpar athrawon drwy gryfhau'r cyswllt efo AGA: Partneriaeth efo'r Brifysgol/GwE. Rhoi'r pecyn Dysgu Proffesiynol ar waith.

## 4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor gymeradwyo cynnwys yr adroddiad a'r cynlluniau i ddatblygu'r prosiect yn unol â'r targedau a osodwyd gan Llywodraeth Cymru.

## 5.0 Goblygiadau ariannol

5.1 Derbyniwyd dyraniad ychwanegol o hyd at £272,000 gan Llywodraeth Cymru yn dilyn cyflwyno cais am gyllid i ddatblygu ac ehangu'r gwaith ymhellach.

5.2 Bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio'n benodol i ddatblygu 'Prosiect 1: ymestyn y gefnogaeth i ddatblygu medrau siarad a gwrando mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwy iaith' a 'Prosiect 2: cefnogaeth i ddatblygu medrau siarad a gwrando mewn ysgolion cyfrwng Saesneg'.

**6.0 Effaith o ran cydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn

**8.0 Ymgynghori a wnaed**

8.1 Ymgynghori â Bwrdd Rheoli GwE.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**
Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**
Cadarnhaf ein bod wedi derbyn llythyr cynnig cyfwerth â £272,000 fel nodir yn rhan 5 o'r adroddiad, a byddwn yn cydweithio gyda GwE i sicrhau ei bod yn gweithredu o fewn y dyraniad.

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**15 CHWEFROR 2023**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | Arwyn Thomas - Rheolwr Gyfarwyddwr GwE |
| **Testun:** | Calendr Cyfarfodydd 2023-24 |

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1. Gwneud cais i'r Cyd-bwyllgor gytuno ar galendr cyfarfodydd am y flwyddyn i ddod.

**2.0 Cefndir**

2.1 Bydd y Cyd-bwyllgor yn cyfarfod yn ôl yr angen i ddiwallu anghenion y Gwasanaeth yn unol ag amserlen y Gwasanaeth ar yr amod bod isafswm o dri chyfarfod mewn blwyddyn, gydag un ohonynt yn cael ei nodi fel y cyfarfod cyffredinol blynyddol. Cytunir ar leoliad y cyfarfodydd gan y Cyd-bwyllgor.

2.2 Yn Atodiad 1, cynigir amserlen cyfarfodydd (drafft) i'w mabwysiadu.

**3.0 Ystyriaethau**

3.1 Cynigir y bydd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rhithiol / swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn.

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor:

4.1.1 Gymeradwyo'r calendr cyfarfodydd fel y'u cynigir yn Atodiad 1.

4.1.2 Rhoi awdurdod i'r Cadeirydd wneud newidiadau i'r calendr os oes angen.

**5.0 Goblygiadau Ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

**6.0 Effaith ar Gydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd**

8.1 Ymgynghorwyd â chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru er mwyn osgoi unrhyw gyd-daro â chyfarfodydd Cyngor.

**9.0 Atodiadau**

Atodiad 1: Cyfarfodydd arfaethedig Cyd-bwyllgor GwE 2023/2024.

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Rwy'n cefnogi'r argymhellion, gan fod y dyddiadau arfaethedig cyfarfodydd Cydbwyllgor GwE, fel y'u cynigir yma, yn addas i bwrpasau gweithdrefnau ariannol.

**Atodiad 1: Cyfarfodydd arfaethedig diwygiedig Cyd-bwyllgor GwE 2023/2024**

| CYFARFOD | DYDDIAD | AMSER | LLEOLIAD – i'w gadarnhau |
|---|---|---|---|
| Cyd-Bwyllgor GwE | 24/05/2023 | 10.30 y.b | Zoom/Swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn |
| Cyd-Bwyllgor GwE | 12/07/2023 | 10.30 y.b | Zoom/Swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn |
| Cyd-Bwyllgor GwE | 04/10/2023 | 10.30 y.b | Zoom/Swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn |
| Cyd-Bwyllgor GwE | 06/12/2023 | 10.30 y.b | Zoom/Swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn |
| Cyd-Bwyllgor GwE | 28/02/2024 | 10.30 y.b | Zoom/Swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn |
| Cyd-Bwyllgor GwE | 22/05/2024 | 10.30 y.b | Zoom/Swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn |
| Cyd-Bwyllgor GwE | 10/07/2024 | 10.30 y.b | Zoom/Swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn |